MANTELL GWYNEDD CYF

England & Wales · Charity number 1068851

Details

Other names	MANTELL GWYNEDD
Status	Registered
Legal form	Charitable company
Company number	03420271
Registered	1998-03-25
Register	View on the Charity Commission register

Contact

Address	25 Bridge Street Caernarfon LL55 1AB
Phone	01286672626
Email	ymholiadau@mantellgwynedd.com
Website	www.mantellgwynedd.com

Activities

Objects: TO PROMOTE ANY CHARITABLE PURPOSES FOR THE BENEFIT OF THE INHABITANTS OF GWYNEDD AND IN PARTICULAR BY ASSISTING IN SUPPORTING CHARITABLE PURPOSES AND THE WORK OF CHARITABLE ORGANISATION IN THE AREA OF BENEFIT

Activities: Our aim is to assist Gwynedd's voluntary and community groups to operate by providing information, training, relevant advice and practical support. We also endeavour to ensure that the voice of the Third Sector is heard.

Classification

- **How:** Makes Grants To Organisations, Provides Advocacy/advice/information, Acts As An Umbrella Or Resource Body
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, Economic/community Development/employment
- **Who:** Other Charities Or Voluntary Bodies

Downloaded from opencharities.uk/ew/1068851

Geography

- **Area of benefit:** GWYNEDD
- Gwynedd

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£1,411,035	£1,339,229	£2,484,625	14
2024-03-31	£1,281,617	£1,227,406	£2,103,781	12
2023-03-31	£603,493	£648,767	£1,806,570	14
2022-03-31	£744,175	£791,807	£1,010,844	12
2021-03-31	£778,752	£606,621	£643,476	15

Trustees

Name	Role	Appointed
BETTY HELENA WILLIAMS		2012-01-17
ELWEN LLOYD ROBERTS		
Meinir Wyn Evans		2023-11-14
Rev TAD DEINIOL		
SYDNA ANN WILLIAMS		2017-04-26
Trystan Pritchard		2017-04-26

Downloaded from opencharities.uk/ew/1068851

MANTELL GWYNEDD CYF


England & Wales - Charity number 1068851

Accounts

Adroddiad Blynyddol

MANTELL GWYNEDD

2024 - 2025



MANTELL GWYNEDD

www.mantellgwynedd.com

MANTELL
GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

SWYDDFA GOFRESTREDIG
25 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB
Ffôn: 01286 672 626
ymholiadau@mantellgwynedd.com

SWYDDFA ARDAL
Yr Hen Orsaf Heddlu
Y Lawnt
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1SB
Ffôn: 01341 422575
dolgellau@mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 | Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 3420271 | Cofrestrwyd yng Nghymru

LLUN CLAWR:
Fel rhan o ddathliadau 40 mlynedd ers sefydlu Wythnos Gwirfoddoli rhoddodd Mantell Gwynedd gydnabyddiaeth arbennig i'r Timau Achub Mynydd. Gwirfoddolwyr yw pob aelod o'r Timau Achub Mynydd. Yn y llun mae aelod o Dîm Achub Aberglaslyn yn ystod ymarfer ar y mynydd.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government

Cynnwys

Neges gan y Cadeirydd	4
Gweithgareddau	5
Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd	6 - 10
Gwasanaeth Cyflogres	11
Iechyd a Llesiant	12 - 13
Presgripsiwn Cymdeithasol	14 - 15
Social Value Cymru	16 - 17
Grantiau	18 - 22
Cynlluniau'r Dyfodol	24
Crynodeb Ariannol	25
Bwrdd Rheoli a Staffio	26

www.mantellgwynedd.com

Neges gan y Cadeirydd...

Wedi blwyddyn wrth y llyw fel Cadeirydd Mantell Gwynedd mae'n bleser gennyf gyflwyno yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25.

Fel y gwelwch o gynnwys yr Adroddiad mae wedi bod yn flwyddyn eithriadol o brysur i'r cwmni ac yn flwyddyn sydd wedi gweld cynnydd mewn staffio a hefyd mewn prosiectau a ffynonellau ariannu newydd. Mae hyn i gyd yn newyddion da i Mantell Gwynedd!

Mae'r cwmni wedi gweinyddu Cronfa Grant gwerth dros £2.1m o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ers 2023 ac fel y gwelwch yn yr Adroddiad yma mae'r rhai sydd wedi derbyn nawdd o'r Gronfa yn drawsdoriad eang o fudiadau o bob cwr o'r Sir. Mae wedi bod yn bleser o'r mwyaf cael bod yn rhan o'r Panel Grantiau oedd yn dyrannu'r arian ac mae wedi bod yn gyfle i mi, fel Cadeirydd y cwmni, i brofi safon uchel y ceisiadau ac amrediad y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y sector gwirfoddol a chymunedol yng Ngwynedd. Mae fy niolch i Gyngor Gwynedd am eu cydweithrediad parhaus a'u hawydd gwirioneddol i gydweithio gyda Mantell Gwynedd.

Mae'n dda gweld gwaith Social Value Cymru yn mynd o nerth i nerth a'r flwyddyn yma wedi bod yn eithriadol o amrywiol a llwyddiannus o safbwynt y contractau sydd wedi cael eu cyflawni gan y tîm. Mae'n bleser gennyf gadeirio y Fforwm Gwerth Cymdeithasol ar ran y Bwrdd Rheoli. Mae hwn yn parhau yn faes gwaith arloesol iawn ac mae'n dda gweld Mantell Gwynedd yn arwain yn genedlaethol ar rai o'r trafodaethau am fesur gwerth cymdeithasol.

Mae'r cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ganolog i waith Mantell Gwynedd ac mae'n allweddol bwysig fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i'n comisiynu i gyflawni prosiect Codi Pontydd Cadarn a hefyd y maes gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol. Dyma ddau faes gwaith gwerthfawr a phwysig i Wynedd gyfan.

Mae gwaith Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd, sydd yn rhan o Mantell Gwynedd, yn parhau i ffynnu a thyfu. Llwyddwyd i lansio prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli gyda nawdd Cronfa Ffyniant Gyffredin yn ystod 2023 ac mae'r prosiect hwnnw yn parhau i annog a chefnogi gwirfoddoli ymysg unigolion sydd yn wynebu heriau personol ychwanegol. Cawsom newyddion da yn ystod yr Haf eleni fod y Loteri Cenedlaethol hefyd am gefnogi'r prosiect yma gyda dros £261k o nawdd ychwanegol er mwyn ehangu ardal ddaearyddol y prosiect. Erbyn hyn, mae prosiect newydd arall yn y Ganolfan Wirfoddoli, sef Ffrindia' Newydd, sydd yn annog gwirfoddolwyr i gyfeillio gydag unigolion er mwyn lleihau unigrwydd.

Mae'n anodd credu fod tim mor fychan (14 o staff) yn medru cyflawni cymaint mewn blwyddyn. Mae'r Adroddiad Blynyddol yma yn destament i waith caled pob aelod o staff y cwmni. Mae fy niolch yn fawr iawn i bob un ohonynt a hefyd i fy nghyd aelodau ar y Bwrdd Rheoli am eu cefnogaeth barhaus i waith y cwmni. Fodd bynnag, mae'r diolch mwyaf i'r holl fudiadau ac unigolion sydd yn rhan o'r trydydd sector yng Ngwynedd ac sydd yn gweithio'n ddiflino er mwyn eraill. Byddai Gwynedd yn sir dlawd iawn heb yr holl wirfoddolwyr a'r mudiadau sydd yn rhan mor ganolog o lesiant y Sir, felly diolch i bob un copa walltog ohonoch am wneud Gwynedd yn Sir cymaint gwell i fyw ynddi.

Trystan Pritchard
(Cadeirydd y Bwrdd Rheoli)



Gweithgareddau

Beth mae Mantell yn ei wneud?

Cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol, annog unigolion i wirfoddoli a bod yn llais cryf i'r trydydd sector yng Ngwynedd yw nod Mantell Gwynedd.

Mae Mantell Gwynedd yn gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth leol sydd hefyd yn rhan o rwydwaith CTSC (Cefnogi Trydydd Sector Cymru) sef 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) sy'n gweithredu trwy Gymru. Daw'r arian craidd i redeg y cwmni oddi wrth Llywodraeth Cymru trwy law CGGC. Mae Mantell Gwynedd yn ymgymryd â gwaith a gweithgareddau ychwanegol i hyn ond gyda'r un nod o hyrwyddo gwirfoddoli a'r trydydd sector yng Ngwynedd.

Mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:

- Hyrwyddo, datblygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli
- Cynrychioli'r trydydd sector a chydweithio ar bartneriaethau strategol
- Rhoi cymorth i bobl a mudiadau i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda chyrff cyhoeddus
- Rhoi cefnogaeth lywodraethol i fudiadau e.e. materion cyfansoddiadol ac ariannol
- Rhoi cefnogaeth i fudiadau i fesur eu gwerth yn well, yn enwedig gwerth cymdeithasol
- Gweithredu fel linc ar gyfer cyfeirio unigolion at wasanaethau trydydd sector e.e. Presgripsiwn Cymdeithasol
- Rhoi cefnogaeth i redeg prosiectau a pheilota prosiectau ar gyfer y trydydd sector pan fo angen
- Hwyluso cyflogaeth swyddogion ar ran partneriaid
- Rheoli ffynonellau grant a rhoi cyngor ar ariannu prosiectau
- Hybu datblygiad mentrau cymdeithasol a chynaliadwyedd mudiadau
- Annog datblygiad a chyd-lynu consortia darparwyr trydydd sector
- Rhannu gwybodaeth gyda'r trydydd sector trwy'r Bwletin misol, taflenni gwybodaeth, yr wefan, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddull priodol arall
- Cynnig rhaglen hyfforddiant i gynorthwyo mudiadau a gwirfoddolwyr yn eu gwaith
- Cynnig gwasanaethau ymarferol e.e. llogi offer, llungopio, darparu ystafelloedd cyfarfod a gofod swyddfa
- Cynnig gwasanaeth cyflogres
- Annog cydweithio ar draws sectorau.

Derbyniwyd dros **6,000** o ymholiadau yn ystod y flwyddyn



Aelodaeth

Mae aelodaeth yn agored i holl fudiadau gwirfoddol Gwynedd, ac mae'r tâl ymaelodi yn **£10 y flwyddyn**.

Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd



Yng Nghanolfan Gwirfoddoli Gwynedd rydym yn:

- Recriwtio gwirfoddolwyr
- Hyrwyddo gwirfoddoli
- Cefnogi gwirfoddoli
- Dathlu gwirfoddoli
- Cynghori a datblygu ymarfer da mewn gwirfoddoli

WYTHNOS GENEDLAETHOL GWIRFODDOLI YN DATHLU PENBLWYDD 40!

'Roedd 40 o flynyddoedd ers lansio Wythnos Genedlaethol Gwirfoddoli yn 2024.

Nodwyd y garreg filltir bwysig hon ym Mhortmeirion yn ystod Wythnos Gwirfoddoli . Bu i unigolion a mudiadau dderbyn cydnabyddiaeth am eu cyfraniadau arbennig er lles eraill. 'Roedd yn ddiwrnod llawn straeon ysbrydoledig ac yn deyrnged i rym gwirfoddoli.





166
ymholiad

CYDNABYDDIAETH ARBENNIG I'R TIMAU ACHUB MYNYDD

Rhoddwyd cydnabyddiaeth arbennig i'r Timau Achub Mynydd fel rhan o ddathliadau 40 o flynyddoedd ers sefydlu Wythnos Genedlaethol Gwirfoddoli.









Gwirfoddo

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

CYNLLUN GWIRFODDOLI GWYNEDD

Mae'r cynllun yma yn cynnig ffordd o gydnabod cyfraniad gwirfoddolwyr trwy gofnodi eu horiau gwirfoddoli a chyflwyno tystysgrifau iddynt ar gyrraedd cerrig milltir penodol. Mae tystysgrifau 25,50,100, 200, 500 a 1,000 o oriau ar gael i wirfoddolwyr o bob oedran. Mae'r cynllun yn annog amrywiaeth o weithgarwch gwirfoddol. Cofnodwyd dros 700 o oriau gwirfoddoli gan wirfoddolwyr ifanc yn ystod y flwyddyn.







ADEILADU CYMRU YFORY

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ar draws Cymru i drafod yr heriau mae gwirfoddolwyr yn eu hwynebu. Chwiliwyd am ddatrusiadau ymarferol er mwyn ymgysylltu'n well gyda gwirfoddolwyr yn ystod cyfnodau mwy heriol. Yn dilyn y digwyddiadau yma sefydlwyd y Grŵp Arweiniol Gwirfoddoli Traws Sector yng Nghymru a chanlyniad gwaith y grŵp yma oedd Gweledigaeth Gwirfoddoli newydd ar gyfer Cymru gyfan. Lansiwyd yr Weledigaeth newydd yn 2025 a bu Mantell Gwynedd yn rhan o'r grŵp traws sector. Ar hyn o bryd mae Fframwaith wedi ei datblygu a gwaith pellach yn digwydd ar Gynllun Gweithredu ar gyfer y weledigaeth.





Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd

GRANT GWIRFODDOLWYR IFANC GWYNEDD

Mae Mantell Gwynedd yn parhau i weinyddu Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd sy'n cael ei redeg gan banel o bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed. Mae'r grant yn cael ei ddosbarthu gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar draws Cymru ac yn rhan o Gynllun Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi prosiectau gwirfoddoli ar draws Cymru.

Pennwyd chwe maes blaenoriaeth ar gyfer eu hariannu rhwng 2023-25 ac roedd yn rhaid i bob cais gyfarch o leiaf un o'r saith Nod Llesiant o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn 2023 recriwtiwyd 7 disgybl o Ysgol Dyffryn Nantlle fel aelodau y Panel Grant. Dau gais fu'n llwyddiannus a rhannwyd y swm o £10,000 rhwng dau fudiad sef Rheilffordd Talyllyn, Tywyn a Chwaraeon Nathan Craig gydag amnod fod yn rhaid gwario'r arian o fewn dwy flynedd.









134
o wirfoddolwyr wedi cofrestry ar wefan Gwirfoddoli Cymru trwy'r Ganolfan Wirfoddoli

Gwirfoddo

Gwirfoddoli Cymru Volunteering Wales

ASTUDIAETH ACHOS:
Ffion Freeman

Rheilffordd Talyllyn , Tywyn

Mae gwirfoddolwyr ifanc yn Rheilffordd Talyllyn wedi llwyddo i ddod â hanes yn ôl yn fyw drwy brosiect treftadaeth dan arweiniad pobl ifanc. Wrth wneud hynny, maent wedi meithrin sgiliau newydd, magu hyder a datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'r gymuned.

Mae Grŵp Aelodau Ifanc (YMG) Rheilffordd Talyllyn yn gweithredu fel rhwydwaith cefnogol i bawb rhwng 14 a 25 oed sy'n aelodau neu'n wirfoddolwyr ifanc gyda Chymdeithas Gadwraeth y Rheilffordd. Mae'r grŵp yn cynnig awyrgylch hwyliog a chroesawgar i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli ar y rheilffordd, boed yn newydd neu'n rhan ohoni eisoes.

Bywyd newydd i'r hen wagen powdwr gwn

Defnyddiodd Rheilffordd Talyllyn y cyllid i ail-greu fersiwn o'r Wagen Powdwr Gwn – y wagen olaf o'i bath a gludai ffrwydron ar hyd y rheilffordd yn y gorffennol, ond a oedd wedi mynd yn angof dros amser. Penderfynodd y grŵp ail-greu'r cerbyd hanesyddol hwn gan ddefnyddio dulliau adeiladu traddodiadol lle bo hynny'n bosibl, gyda'r nod o'i ddefnyddio i rannu hanes Chwarel Lechi Bryneglwys, un o'r safleoedd allweddol y bu'r rheilffordd yn ei gwasanaethu ers talwm.

Eglurodd Matthew, un o'r adeiladwyr allweddol a chynrychiolydd ar y pwyllgor datblygu, eu bod am greu prosiect cynhwysol lle gallai pob gwirfoddolwr gymryd rhan a chyfrannu at adfer darn gwerthfawr o hanes lleol – rhywbeth roedd yn agos at ei galon.

"Drwy'r prosiect hwn, rwyf wedi meithrin cysylltiadau dwfn â gwirfoddolwyr eraill ac wedi gwneud ffrindiau oes, sydd wedi bod yn hwb go iawn i'm hiechyd meddwl,' meddai Matthew. 'Mae gwirfoddoli wedi rhoi ymdeimlad cryf o falchder a bodlonrwydd i mi am y cyfraniad rwyf wedi'i wneud."

Pobl ifanc yn arwain

Cymerodd Ffion rôl flaenllaw yn y prosiect. *"Trwy weithio ar y wagen bowdwr, rydw i wedi datblygu sgiliau mewn gwaith coed a metel, ac wedi cael cyfle i ddysgu mwy am ddiwydiant y llechi lleol wrth wneud gwaith ymchwil arno"* meddai. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, bu Ffion yn dysgu geiriau Cymraeg yn ymwneud â'r wagen gyda'i chyd-wirfoddolwyr, rhywbeth a gafodd ymateb brwdfrydig ac a ychwanegodd at y profiad i bawb.

Mae gwirfoddoli yn Rheilffordd Talyllyn wedi agor drysau i gyfeillgarwch newydd i Luke ac wedi rhoi profiad uniongyrchol iddo o redeg y rheilffordd. Mae'n gwirfoddoli fel glanhawr injan, gan gynorthwyo gyda thanio a chynnal y locomotifau cyn iddynt adael.

"Mae'r profiad wedi newid fy mywyd. Dwi'n llawer mwy hyderus ac yn fwy cymdeithasol nag oeddwn i o'r blaen, a dwi wedi cael cyfle i wneud ffrindiau gwych sydd yn rhannu'r un diddordebau â fi."



Prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli

Dyma ail flwyddyn y prosiect yma sydd yn cael ei ariannu trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Mae'r arian o'r Gronfa wedi galluogi Mantell Gwynedd i gyflogi Swyddog llawn amser i gefnogi uniogolion sydd angen yr hwb ychwanegol i fynd ati i wirfoddoli. Mae'r gefnogaeth 1:1 yma sy'n cael ei ddaparu gan y Swyddog Gafael Llaw yn golygu fod gan unigolion gefnogaeth bersonol er mwyn mynd ati i gychwyn gwirfoddoli.

David o Gaernarfon

Yn dilyn deiagnosis o salwch Parkinsons bu'n anodd i David ganfod gwaith cyflogedig ac felly dechreuodd deimlo'n ynysig yn ei fywyd bob dydd. Gyda chefnogaeth y Swyddog Gafael Llaw bu i David ddechrau gwirfoddoli gyda Banc Bwyd Arfon yn helpu darparu'r parseli bwyd.

Dywedodd Lola, Cydlynydd y Banc Bwyd *"Mae David wedi dod yn rhan bwysig o'r tîm ac mae'r Banc Bwyd yn hwb cymunedol i David ble mae yn gallu cymdeithasu gydag unigolion eraill dros baned a chawl ar ôl gorffen ei shift yn gwirfoddoli."*

"Mae gwirfoddoli wedi fy helpu yn bersonol trwy wneud ffrindiau, cyfarfod â phobl newydd a mynd allan o'r tŷ sy'n bwysig oherwydd roeddwn yn teimlo'n unig cyn gwirfoddoli. Diolch am gyfeirio fi yno ac i'r Banc Bwyd a'r tîm yna am fy nghefnogi o wythnos i wythnos."





Rhiannon o Aberdaron

Yn dioddef gorbryder roedd Rhiannon am roi cynnig ar wirfoddoli er mwyn ei helpu i ymdopi yn well gyda'i chyflwr. Cael gwirfoddoli o adref oedd nod Rhiannon ar y cychwyn ac felly canfuwyd cyfle iddi wirfoddoli dros y ffôn o adref fel rhan o wasanaeth cyfeillio Ffrind Mewn Angen, Age Cymru. Cynlluniwyd y gwasanaeth cyfeillio yn ystod cyfnod Covid ac mae wedi parhau ers hynny yn gynllun i gefnogi pobl hŷn sy'n teimlo'n unig. Mae Rhiannon yn parhau i wirfoddoli'n wythnosol gyda'r cynllun ac mae'r gwirfoddoli yn rhoi hwb personol iddi gan helpu rhywun arall yr un pryd.

"Mae gwirfoddoli wedi newid fy mywyd, mae yn rhywbeth i mi wneud o wythnos i wythnos ac mae wedi helpu fy iechyd meddwl trwy roi pwrpas i mi. Fyddai yn edrych ymlaen at bob bore Dydd Mawrth yn rheolaidd lle fyddai yn sgwrsio gyda fy nghyfaill ar y ffôn. Mae gwirfoddoli yn y rôl hon yn golygu'r byd i mi."

Ers cychwyn y prosiect yn Ionawr 2024 mae

149

o unigolion wedi cael cefnogaeth ac wedi mynd ati i wirfoddoli o ganlyniad

Gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd

Mae Mantell Gwynedd yn darparu gwasanaeth cyflogres ar gyfer mudiadau trydydd sector yng Ngwynedd ers blynyddoedd maith.

Gall materion ariannol a chyflogaeth fod yn gymhleth i fudiadau bychan sydd yn aml yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

Mae'r gwasanaeth cyflogres yn rhoi sicrwydd i fudiadau fod y taliadau a wneir yn rhai cywir a bod y gweithdrefnau iawn yn cael eu dilyn. Mae'n golygu hefyd fod na rhywun ochor arall i'r ffôn i gynnig cymorth a chefnogaeth fel bo angen. Yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig gyda newidiadau i gofynion a hawliau pensiwn, mae'r gwasanaeth yn fwy gwerthfawr nag erioed i fudiadau bychain.

Dyma sydd gan rai o'r mudiadau i ddweud am y gwasanaeth cyflogres maent wedi ei dderbyn:

Bethan, Cylch Meithrin Dyffryn yr Enfys

"Mae'r gwasanaeth paratoi cyflogau wedi bod o fudd mawr i'r mudiad.

Mae'r gwaith papur yn cael ei ddarparu yn brydlon ac yn gywir, ac mae'r gwasanaeth yn golygu bod llawer llai o faich ar aelodau gwirfoddol y pwyllgor."

Heather, Clerc Cyngor Tref Abermaw

"Mae'r gwasanaeth cyflogres sy'n cael ei ddarparu gan Mantell Gwynedd o gymorth mawr i ni ac yn hanfodol wrth sicrhau rheolaeth esmwyth Cyngor Tref Abermaw. Ni fyddem yn medru ymdopi heb y gwasanaeth yma."

Sioned, Pum Plwy Penllyn

"Mae'r gwasanaeth cyflogau a ddarperir gan Mantell Gwynedd wedi bod o fudd sylweddol i ni dros y blynyddoedd. Mae'r gefnogaeth a geir gan Mantell yn sicrhau cywirdeb wrth ddelio gyda chyflogau staff ac yn rhoi tawelwch meddwl i'r cwmni o ran cydymffurfiaeth a chefnogaeth broffesiynol. Mae hyn yn rhoi yr amser i ni fedru canolbwyntio ar ein gwaith craidd ac yn lleihau y baich gweinyddol arnom."

Aimee, Ysgol Ein Harglwyddes

"Rydym yn ddiolchgar i'r gwasanaeth am eu cymorth a'r gefnogaeth wrth i ni reoli ein cyflogres.

Mae staff Mantell Gwynedd bob amser ar gael i gynnig cyngor a bob amser yn ymateb yn brydlon i ymholiadau."

Iechyd a Llesiant

Mae prosiect Codi Pontydd Cadarn yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn galluogi Mantell Gwynedd i gyflogi Hwylusydd Iechyd a Llesiant llawn amser.

Mae'r swydd yn sicrhau pont rhwng y gwasanaeth iechyd a'r mudiadau trydydd sector sydd yn darparu gwasanaethau yn y maes iechyd a llesiant.

Mae'r Hwylusydd yn:

- Hwyluso cyfarfodydd a chefnogi fforymau a gweithdai
- Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddylanwadu
- Sicrhau perpectif mudiadau trydydd sector mewn cyfarfodydd partneriaeth a digwyddiadau eraill
- Cynnal cyfres o rwydweithiau trwy'r flwyddyn

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd Rhwydwaith Llesiant a Gwirfoddoli yn ystod 2024 – 25.

Eleni dyma'r themâu yn y cyfarfodydd drefnwyd gan neu ar y cyd gyda'r Hwylusydd:

- Digwyddiad Rhanbarthol ' Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru' gan Hwyluswyr Gogledd Cymru (16.05,24)
- Teithio Llesol (14.05.24)
- Digwyddiad Spid-detio rhyngweithiol (05.06.24)
- Digwyddiad ymgysylltu IECHYD DA'R HA' 24 am y tro cyntaf, Gogledd Gwynedd (27.06.24)
- Heriau Recriwtio Gwirfoddolwyr (19.09.24)
- *Digwyddiad IECHYD DA yn Nolgellau (12.10.24)
- Grantiau a Chyllid – Cwrdd â'r Cyllidwyr (23.10.24)
- Gweithdy DBS (20.11.24)
- Dathliad Nadolig ar thema Llesiant gan Hwyluswyr Gogledd Cymru (03.12.24)
- Cynhadledd Diwrnod Cenedlaethol Menywod gan Hwyluswyr G Cymru mewn partneriaeth gyda BIPBC yn Y Rhyl (04.03.25)
- Digwyddiad Dydd Cenedlaethol Prescripsiwn Cymdeithasol gan Hwyluswyr G Cymru mewn partneriaeth gyda BIPGC yn Ewloe (31.03.25)

Ymgysylltwyd gyda thros 150 o fudiadau yn ystod y cyfnod dan sylw.







"Mae iechyd a lles yn fater hynod bwysig ym mhob man, ac yn arbennig felly yn rhywle fel Caernarfon sydd efo pocedi sylweddol o dlodi ac amddifadedd.... Mae'n bwysig ein bod ni'n edrych ar ôl ein hiechyd a'n lles ein hunain, a'n gilydd. Mae'r digwyddiad yma yn cynnig y modd a'r wybodaeth i ni wneud hynny yn fwy effeithiol."
Cyng. Olaf Cai Larsen
Digwyddiad Iechyd Da, Caernarfon

232
trwy'r drws

DIGWYDDIAD IECHYD DA'R HA'
Mehefin 2024

Mae Mantell Gwynedd yn cynnal digwyddiad IECHYD DA ers bron i ugain mlynedd yn Nolgellau bob mis Hydref . Mae'n ddigwyddiad hynod llwyddiannus ac yn gyfle gwerthfawr i'r Trydydd Sector a phartneriaid ym myd Iechyd a Llesiant ddod at ei gilydd i rwydweithio ac ymgysylltu gyda'r boblogaeth leol yn Ne Gwynedd. Penderfynwyd ehangu'r ddarpariaeth a chynnal digwyddiad IECHYD DA'R HA' am y tro cyntaf yng Ngogledd Gwynedd yn Neuadd y Farchnad, Caernarfon ar 27ain o Fehefin 2024 fel rhan o Wythnos Lles y Byd.



Roedd
24
stondin gan fudiadau Gwynedd a'n partneriaid

DIGWYDDIAD IECHYD DA
Hydref 2024

Diolch i Liz Saville Roberts AS am agor IECHYD DA 24 yn Nolgellau. Soniodd am y cyfraniad aruthrol mae'r Trydydd Sector yn ei wneud i gefnogi, cynnal a gwella iechyd a llesiant ymysg trwch y boblogaeth leol. Pwysleisiodd hefyd yr angen i bob un ohonom fod yn fwy ymwybodol o, a pharhau i ddysgu am, ddulliau i wella ansawdd ein hiechyd a'n lles. Rhan bwysig o'n llwybr ni i lesiant ydi darganfod beth sy'n ein helpu ni i ymlacio, sut i gael gwared o straen a'n cael ni i symud mwy.

Roedd
34
stondin gan fudiadau Gwynedd a'n partneriaid



238
trwy'r drws

"

ADBORTH GAN STONDINWYR

Beth oedd y peth gorau i chi fel mudiadau?

"Amser i gyfarfod a sgwrsio"
Barnardo's

"...pobl ifanc yn ymgysylltu gydag mudiadau, ac eisiau cyfrannu – gwych gweld hyn!"
Marie Curie

" Digwyddiad gwych a threfnus iawn. Da cael cyfle i ymgysylltu gyda elusennau eraill o fewn y sector.... da teimlo fel rhan o'r llun mawr o fewn ein cymunedau"
Cymdeithas Eryri

"wedi enjoio gwneud massages pen"

" y freebies!" " gwybodaeth da ar y stondina"

"roedd yn ddiwrnod da a cyfle i ffeindio allan mwy"

Myfyrwyr Coleg Llandrillo Menai a disgyblion Ysgol y Gader

" Ehangodd fy ngwybodaeth am yr hyn sydd ar gael wrth fynd yn hŷn"

"Byswn i'n hoffi gweld gwasanaethau fatha meddygfeydd yn bod yn rhan o hwn"

" byswn i'n hoffi gweld mwy o bobl yr ardal yn troi fewn"

Sylwadau gan y Cyhoedd

"

Presgripsiwn Cymdeithasol

Mae presgripsiwn cymdeithasol yn galluogi meddygon teulu, nyrsus a gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes gofal sylfaenol i gyfeirio unigolion at amryw o wasanaethau lleol sydd ddim yn wasanaethau clinigol. Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol yn yr agenda ataliol e.e. codi ymwybyddiaeth am sgrinio, atal codymau a hybu cyrsiau iechyd a lles.

Dull sydd yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion mewn modd mwy holistig ydyw a'u hannog i gael gwell gafael ar eu llesiant a'u hiechyd eu hunain. Mae gweithgareddau Presgripsiwn Cymdeithasol yn gallu bod yn amrywiaeth enfawr o bethau ond, ar y cyfan, gweithgareddau ydynt sydd yn cael eu darparu gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol.

Mae sawl model gwahanol o Bresgripsiwn Cymdeithasol ond mae'r rhan fwyaf yn fodelau yn cynnwys Swyddog Cyswllt Cymunedol sy'n derbyn cyfeiriadau ac wedyn yn gweithio gyda'r unigolion i adnabod cyfleoedd addas ar eu cyfer. Mae Mantell Gwynedd mewn lle unigryw i ddarparu gwasanaeth Presgripsiwn Cymdeithasol gan ein bod yn gorff ymbarél trydydd sector gyda chronfa ddata enfawr o fudiadau, a gan nad ydym yn darparu gwasanaeth rheng flaen ein hunain nid oes unrhyw wrthdaro wrth i ni gyfeirio unigolion at wasanaethau.

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

CYSWLLT CYMUNEDOL ARFON: CYFEIRIADAU O 1AF EBRILL 2024 - 31AIN O FAWRTH 2025

Rôl y Swyddog Cyswllt Cymunedol yw:

- Grymuso unigolion i ail gysylltu gyda'u cymunedau lleol
- Magu hyder a gwydnwch
- Gwella lechyd a Lles
- Gwella ansawdd bywyd yr unigolion
- Lleihau nifer o apwyntiadau meddygol a'r defnydd o feddyginiaeth
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o beth sydd ar gael i gefnogi a chynorthwyo unigolion
- Lleihau unigrwydd
- Cynorthwyo unigolion i gymryd gwell rheolaeth o'u bywydau

Ers i'r prosiect gychwyn ym 2016 mae 2,005 o unigolion wedi eu cefnogi trwy'r prosiect. Yn ystod 2024-25 mae 233 o unigolion wedi eu cefnogi.



ASTUDIAETH ACHOS: Mrs K

Meddyg Teulu ddaeth i gyswllt gyda'r Swyddog Cymunedol yn gofyn am gymorth ar gyfer Mrs K hefo materion corfforol, meddyliol, budd-daliadau, costau byw ac unigrwydd.

Trefnodd y Swyddog Cymunedol i gyfarfod gyda Mrs K er mwyn dod i'w hadnabod yn well a chael sgwrs am pa fath o gymorth fyddai yn ei helpu a pha faterion fyddai yn bosib eu datrys.
Yn ystod y sgwrs eglurodd Mrs K ei bod yn byw gyda chyflyrrau megis sgil effeithiau covid ac ME. Daeth i'r amlwg fod effeithiau'r ddau salwch yma yn peri gofid sylweddol i Mrs K gan achosi isleder drwg iddi, poen corfforol, teimladau o rwystredigaeth a methu ymdopi gyda gwaith na heriau dydd i dydd. Roedd yr holl bethau hyn wedi peri iddi dorri perthynas gyda'i chymar ers dros ugain mlynedd. Yn waethaf oll 'roedd Mrs K yn cael teimladau am hunan laddiad.

Gyda dirywiad yn ei symudedd a'i gallu i ymdopi, roedd Mrs K wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith a hyn wedi cael effaith sylweddol arni yn feddyliol ac yn ariannol.

Yn dilyn y sgwrs gyda'r Swyddog Cymunedol:

- Cyfeiriwyd Mrs K at Gyngor ar Bopeth er mwyn helpu llenwi ffurflenni a chael cyngor cyfreithiol
- Cyfeiriwyd Mrs K at I CAN er mwyn iddi dderbyn cefnogaeth emosiynol a meddyliol
- Cysylltwyd gyda Gofal a Thrwsio er mwyn gwneud y cartref mor ddiogel â phosib
- Cafwyd gwybodaeth a chysylltiadau ar gyfer asesiad cadair olwyn
- Derbyniwyd cyfeiriad asesiad symudedd ar gyfer cymorthyddion cerdded
- Trefnwyd bod Mrs K yn cael ei rhestru fel unigolyn angen blaenoriaeth gyda chwmniau iwtiliti a llenwyd ffurflen ar gyfer mesurydd dwr

Yn ogystal â'r uchod rhoddwyd Pecyn Gwybodaeth at ei gilydd i Mrs K gyda:

- Manylion am help llaw ymarferol ar gael yn lleol
- Manylion am gymorth tanwydd a thalebau bwyd
- Rhestr o weithgareddau yn yr ardal fyddai yn helpu gyda'i symudedd
- Gwybodaeth am sesiynau llesiant oedd yn cael eu cynnal yn yr ardal
- Teclynnau pwrpasol i helpu gyda thasgau o ddydd i ddydd

O ganlyniad i'r gefnogaeth yma gan y Swyddog Cymunedol mae Mrs K mewn sefyllfa llawer iawn gwell. Bu Cyngor ar Bopeth yn gymorth mawr i ddatrys ei sefyllfa gwaith ac adref. Cafodd ganllawiau eu gosod yn y tŷ gan Gofal a Thrwsio er mwyn helpu gyda symud o gwmpas yn ddiogel a chadw ei hannibynniaeth. Bu ICAN yn gefnogol gyda'i heriau iechyd meddwl a chafodd declyn pwrpasol i'w helpu i gerdded. Yn dilyn gosod mesurydd dwr hanerodd ei biliau dŵr. Mae Mrs K bellach yn mynd i ddosbarth ioga lleol i helpu gyda symudedd ac mae ganddi gymorth yn y tŷ i lanhau a chadw trefn. Mae hi hefyd wedi dweud ei bod yn awyddus i ddechrau gwirfoddoli rwan.

"Dwi mor ddiolchgar a dwi wedi cael gymaint o ryddhad yn dilyn eich ymweliad cyntaf ataf. Mi wnaethoch chi gael y gefnogaeth oeddwn wir ei angen er mwyn fy helpu i droi pethau rownd. Diolch"
Mrs K



Social Value Cymru

Ers 2016 mae Mantell Gwynedd wedi bod yn cyflawni gwaith arloesol yn y maes o fesur gwerth cymdeithasol.

Bellach mae 4 aelod staff yn gweithio i'r prosiect, pob un wedi cymhwyso gyda Social Value UK fel ymarferwyr wedi eu achredu. Yn ystod 2024 –25 gweithiodd tîm Social Value Cymru gyda mudiadau ar hyd Cymru i ddarparu gwasanaeth hyfforddiant a mentora, gwerthusiadau llawn a sefydlu fframwaith mesur.

Bu i 90% o'r mudiadau y buom yn gweithio gyda hwy ymateb i'n harolwg er mwyn ein helpu i adnabod effaith ein gwaith.

Deilliannau

- **77%** wedi gwella sgiliau i fesur gwerth cymdeithasol
- **89%** Yn fwy hyderus yn y maes gwerth cymdeithasol
- **100%** yn medru dangos eu heffaith yn well i gynulleidfa fewnol
- **88%** yn medru dangos eu heffaith yn well i gynulleidfa allanol
- **66%** gyda gwell cyfleoedd ariannu
- **66%** yn dweud bod y data yn helpu iddynt wneud penderfyniadau gwell











SOCIAL VALUE INTERNATIONAL ADVANCED PRACTITIONER 1 2 3

SOCIAL VALUE UK Pioneer

ASTUDIAETH ACHOS 1:
Cwmni Theatr Frân Wen

Mae Frân Wen yn gwmni theatr proffesiynol sy'n gweithredu fel elusen gofrestredig wedi ei lleoli yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae yn cydweithio gyda chymunedau, artistiaid a phobl ifanc.

Cafodd Cwmni Frân Wen arian i ddatblygu prosiect OLION sef prosiect aml-gelfyddydol wedi ei anelu at bobl ifanc a thrigolion y gymuned leol ym Mangor ac yn hyrwyddo pŵer y celfyddydau a chreadigrwydd fel ffordd i ddathlu a dod â chymunedau ac unigolion amrywiol ynghyd.

Roedd y cwmni yn awyddus i werthuso a dangos gwerth y prosiect yma a phenderfynwyd cydweithio gyda thîm gwerth cymdeithasol Mantell Gwynedd er mwyn datblygu sgiliau yn y maes yma a pharatoi gwerthusiad llawn.

"Roedd y cymorth a'r hyfforddiant o dan ofal medrus Mantell Gwynedd yn brofiad hollol amrhisiadwy, ac mae wedi bod yn gyfle i ni edrych ar sut i wreiddio egwyddorion gwerth cymdeithasol trwy ein gweithgarwch. Mae'r cydweithio hynaws a thrylwyr wedi'n rhoi ni mewn sefyllfa gref lle gallwn ni fynd ati'n hyderus i lunio adroddiadau ein hunain nid yn unig er mwyn parhau i werthuso penderfyniadau mewnol ond hefyd er mwyn sicrhau adnodd a thystiolaeth fydd yn cefnogi ceisiadau grant prosiectau cymunedol a chreadigol tebyg eto yn y dyfodol."
Elgan Rhys, Pennaeth Ymgysylltu Cwmni Fran Wen





ASTUDIAETH ACHOS 2:
Hwb Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru

Fel rhan o Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Wrth-hiliol, cafodd Tŷ Pawb, Cymuned Cydlyniad Gogledd Ddwyrain Cymru (WCBC) mewn partneriaeth â Race Council Cymru, £240,000 dros gyfnod o dair blynedd. Pwrpas y cyllid oedd cefnogi sefydlu HWB Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru sydd wedi'i leoli yn Tŷ Pawb.

Comisiynwyd tîm Social Value Cymru i werthuso'r prosiect gydag adroddiad interim yn Rhagfyr 2023 ac yna gwerthusiad llawn yn Rhagfyr 2024.

Dangosodd y gwaith o fesur gwerth cymdeithasol fod £3.06 wedi ei greu am bob £1 a fuddsoddwyd.

"Mae Hwb aml-ddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru yn cydnabod rôl allweddol gwirfoddoli …. ac mae gweithio efo Social Value Cymru wedi galluogi dealltwriaeth gynhwysfawr o'r effaith gymdeithasol sy'n cael ei greu gan dros 20 o grwpiau cymunedol sydd yn gysylltiedig hefo'r Hwb.

Yn ychwanegol at hyn mae gweithio hefo Social Value Cymru wedi cryfhau yn sylweddol gallu'r Hwb i gasglu tystiolaeth gadarn er mwyn arddangos gwerth. Mae hyn yn ei dro yn gwella cyfleoedd ariannu yn ogystal â meithrin perthynas well gydag amrywiaeth o randdeiliaid."
Emily Reddy, Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Grantiau









CRONFA SECTOR WIRFODDOL...

Y mudiadau fu'n llwyddiannus

ARFON

Seindorf Arian Dyffryn Nantlle
£120,350
Adnewyddu adeilad Cwt Band y Seindorf yn Nhalysarn gan gynnwys trin pydredd sych, gosod lloriau newydd, system wresogi ac awyru newydd, plastro, ail-weirio, cegin newydd a gosod paneli solar.

"Heb gwt, dim hanes, heb hanes, dim dyfodol - bandio'n mlaen hefo'n gilydd".

Sistema Cymru - Codi'r To
£22,639
Datblygu cyfleoedd tiwtora offerynnau pres yn ardal Arfon i blant a phobl ifanc.

"Nes i fwynhau pryd oedd y ni ar y drwm oherwydd bod y ni gyd efo ei gilydd pan o ni ar y drwm, roedd yn lot o hwyl cael dysgu yr offerynau taro"
Disgybl Ysgol Gynradd

Neuadd Bentref Rhiwlas
£40,995
Gosod paneli solar a batris yn y neuadd er mwyn lleihau costau ynni a gweithio tuag at fod yn net sero fel Neuadd.

"Mae'r grant ar gyfer paneli solar wedi gwneud Neuadd Bentref Rhiwlas yn wirioneddol gynaliadwy, o ran carbon a hefyd yn ariannol."

Banc Bwyd Arfon, Caernarfon
£17,334
Penodi Swyddog Cydlynu Gwirfoddolwyr i recriwtio a chefnogi mwy o wirfoddolwyr.

"Mae cael y Grant gan yr SPF wedi'n galluogi i recriwtio rhagor o wirfoddolwyr yn y Banc Bwyd, ac rydyn ni wedi gallu cefnogi, a chael cefnogaeth gan, dîm arbennig o fwy nag 84 o wirfoddolwyr. Mae hynny wedi'n galluogi ni i roi bwyd a chyngor i fwy na 300 o deuluoedd ac unigolion mewn argyfwng tlodi."

Community Arts Project, Bangor
£7,125
Creu arddangosfa gelf yn Pontio, Bangor.

"Mae cyfansoddi cerddoriaeth eto, ar ôl sawl blwyddyn o iechyd meddwl gwael, wedi rhoi'r cyfle i mi seinio fy llais fy hun a magu hyder. Edrychaf ymlaen yn awr at fynd â'r Prosiect i gynulleidfa ehangach fyth. Gobeithiwn wneud hyn trwy 'siopau chwarae' lle mae artistiaid (a rhai nad ydynt yn artistiaid) yn cydweithio'n greadigol i Swnio Eich Llais -Be Heard - Re-Connect - ADFER!"

Neuadd y Pentref Carmel
£11,250
Gosod paneli solar ar y Neuadd.

"Yn dilyn derbyn grant i osod paneli solar ar do'r Neuadd, mae'r pwyllgor wedi gweld gostyngiad yng nghostau rhedeg y neuadd. Rydym yn rhagweld y byddwn yn arbed tua £500 y flwyddyn. Mae'r arbediad hwn yn ein costau yn ein galluogi i gadw prisiau llogi'r Neuadd heb orfod cynyddu gyda chwyddiant, ac mae hyn wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd ariannol i'r Cylch Meithrin."

Tŷ Elidir, Deiniolen
£10,000
Gosod system wresogi newydd yn Nhŷ Elidir, Deiniolen.

"Mae darparu gwresogyddion yn ein hadeilad, Tŷ Elidir Deiniolen, wedi gwneud gwahaniaeth mawr gyda'r ystafelloedd yn llawer mwy clyd"

Neuadd Ogwen, Bethesda
£24,430
Darparu gweithgareddau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc ynghyd â chwblhau addasiadau i'r ymolchfa a'r lifft.

"Mae'r gefnogaeth ariannol wedi galluogi Neuadd Ogwen i wella ein cyfleusterau a gwneud ein canolfan yn fwy hygyrch. Mae hefyd wedi galluogi tanio gweithgaredd megis clwb drama, dawns ac ysgol roc yn dilyn Cofid-19. O ganlyniad i'r gefnogaeth mae'r gweithgareddau yma yn parhau ac yn ffynnu."

Neuadd Goffa Llanllyfni
£21,250
Gosod paneli solar, cwblhau addasiadau mewnol a gosod cegin newydd.

"Diolch i griw Mantell Gwynedd am y cyngor a'r arweiniad gawson ni fel pwyllgor wrth drio am grant i wella'r Neuadd. Erbyn hyn mae na gegin newydd sbon yma, ac mae'n edrych yn wych! Pawb yn brolio! Wedi codi calon y pwyllgor hefyd - diolch o galon!"

Neuadd Bentref Y Groeslon
£11,910
Gosod llawr newydd a pheintio'r neuadd.

"Llwyddodd Neuadd Bentref Y Groeslon i sicrhau arian grant ar gyfer prosiect i ail wynebu llawr a pheintio'r Neuadd. Mae hyn wedi cael effaith bositif iawn ar ddefnyddwyr y neuadd."

Caban Cynfi, Deiniolen
£79,872
Creu canolfan gymunedol aml-bwrpas o'r enw Caban Cynfi.

"Mae gallu gwireddu'r freuddwyd o greu canolfan aml-bwrpas Caban Cynfi yn gwbl amhrisiadwy. Mewn cymuned lle mae adnoddau yn brin bydd Caban Cynfi yn cynnig lloches, cynhaliaeth a chyfleoedd dirifedi i drigolion ardal Deiniolen a'r cylch."

Canolfan Tregarth
£7,442
Gosod ffenestri a phrynu cadeiriau newydd yn y ganolfan.

"Mae derbyn grant wedi bod yn drobwynt i Ganolfan Tregarth. Heb y cymorth ariannol allweddol hwn, ar gyfer gwelliannau hanfodol, byddai Canolfan Tregarth mewn sefyllfa llawer gwannach ar gyfer darparu'r adnodd gwerthfawr hwn i bobl Tregarth a'r fro."


Seindorf Arian Deiniolen
£6,950
Datblygu prosiect tiwtora i blant a phobl ifanc Deiniolen a'r cylch.

"Mae'r gwersi 'Band i Bawb' wedi bod o fudd mawr i'r unigolion sydd wedi cymryd rhan. Cawsom gyfanswm o 9 unigolyn yn penderfynu cymryd gwersi, ac maent i gyd wedi bod yn falch iawn o'r cyfle, wedi mwynhau'r gwersi yn fawr, ac wedi penderfynu parhau i chwarae. Byddant i gyd yn symud ymlaen i'r Band Cymunedol sydd gennym yma fel sefydliad."

Canolfan Gymdeithasol Talysarn
£9,966
Grant i osod paneli solar a batris.

"Mae cael y grant wedi ein galluogi i ni gael paneli solar a batri wedi rhoi hwb i ni fel pwyllgor. Rydym wedi cael tawelwch meddwl ar gyfnod gweddol ansicr gyda chostau ynni yn mynd i fyny yn aruthrol. Rydym hefyd yn gallu edrych ar gefnogi mwy o grwpiau sydd yn trefnu gweithgareddau yn Y Ganolfan, gan gadw costau llogi'n sefydlog ac yn fforddiadwy."





DWYFOR

Neuadd Goffa Penmorfa a'r Cylch
£97,900
Adnewyddu'r ganolfan yn cynnwys ail-doi, lloriau newydd, peintio, gwaith trydanol a gwella cyfleusterau snwcer y Neuadd.

"Mae'r gefnogaeth ariannol wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ni yn y pentref gan sicrhau fod y Neuadd yn gallu parhau i gynnig ystod o weithgareddau i drigolion Penmorfa a'r cylch. Heb y cymorth ariannol hwn roedd yn debygol y byddai wedi bod yn rhaid cau y neuadd. Mae'r neuadd bellach yn fwy effeithlon o ran defnydd o ynni ac mae'r cyfleusterau wedi eu huwchraddio yn sylweddol ac mae'n braf gweld y Neuadd yn cael defnydd unwaith eto yn arbennig gan bobl ifanc y pentref."

Clwb Rygbi Pwllheli
£27,070
Gosod goleuadau LED ar gaeau'r clwb.

"Mae'n sicr bydd y prosiect gosod goleuadau LED o fudd mawr i'r gymdeithas leol. Mae yn hanfodol bwysig i'r Clwb sicrhau fod ein plant a'n pobl ifanc yn cael yr adnoddau gorau posib i ddatblygu eu sgiliau. Bydd y system newydd yn gaffaeliad mawr i chwaraewyr rygbi o bob oedran ym Mhen Llŷn."





Ynni Llŷn
£35,317
Penodi Cynghorydd Ynni i ddarparu archwiliadau ynni yn y cartref a chyngor budd-daliadau wedi'u teilwra i anghenion penodol trigolion lleol.

"Mae'r grant wedi ein galluogi i recriwtio aelod o staff i'n Prosiect Gwres a Lles a'u hyfforddi i allu darparu cyngor budd-daliadau ac ynni. Mae hwn yn wasanaeth gwerthfawr ac rydym wedi cysylltu â phobl yn y gymuned sy'n agored i niwed, ac yn parhau i gysylltu â nhw, i'w helpu i gael gafael ar y budd-daliadau y maen nhw'n gymwys i'w cael, a hefyd eu helpu i ddefnyddio ynni mewn modd mor effeithlon â phosib yn eu cartrefi."

Hafod Ceiri, Llithfaen
£98,795
Addasu'r capel fel caffi.

"Mae'r grant wedi sicrhau adnoddau sef cegin, toiledau, gwres a golau mewn adeilad newydd sy'n gweithredu fel caffi ar gyfer y gymuned ac ymwelwyr â'r ardal. Diolch i'r grant, mae gennym sylfaen gref ar gyfer gwireddu breuddwyd ehangach y prosiect."

Cymdeithas Chwaraeon Bro Eifl
£80,000
Gosod offer ar gyfer cae chwarae newydd gydag offer cyfoes a hygyrch, a ffens i'w wahanu o'r cae chwarae mawr.

"Mae'r grant wedi ein galluogi i adnewyddu y parc chwarae yn y pentref i gyd-fynd efo dymuniadau'r gymuned. Mae'r parc ar ei newydd wedd yn adnodd cyfoes a diogel i blant yr ardal ymgynnull a chwarae yn yr awyr iach."





Cae Chwarae Rhydyclafdy
£86,445
Datblygu cae chwarae newydd i'r pentref.

"Mae'r prosiect yma wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i gymuned Rhydyclafdy. Mae mor braf fod gan y plant le diogel i chwarae a bod teuluoedd yn gallu mwynhau treulio amser yn yr awyr agored."

Canolfan Adloniant Aberdaron
£20,154
Gwella adnoddau a datblygu'r Ganolfan gan gynnwys peintio, boiler newydd a gwella'r stafell snwcer.

"Mae'r arian a dderbyniwyd wedi gwneud gwahaniaeth i Ganolfan Adloniant Aberdaron, trwy gael uwchraddio gwaith trydanol, plymio, peintio a thacluso fel arall! Rydym fel pwyllgor yn hynod ddiolchgar a gobeithio bydd pobl yr ardal yn cael defnydd o'r Ganolfan yn y dyfodol! "

MEIRIONNYDD

Oasis Nursery, Abermaw
£2460
Datblygu ysgol goedwig gyda'r plant yn mynychu'r ardd gymunedol yn y Abermaw.

"Mae wedi darparu cyfleoedd dysgu amhrisiadwy i'n plant. Mae wedi meithrin ynddynt gariad tuag at yr awyr agored, eu hamgylchedd a'r broses o edrych ar ôl ein hamgylchedd naturiol, a thyfu ffrwythau a llysiau ein hunain. Gyda'r grant yma rydym wedi gwir fedru rhoi sgiliau a gwybodaeth amhrisiadwy i'n plant ifanc."



Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont
£26,060
Gosod offer cae chwarae ar gyfer y gymuned gan gynnwys zipwire er mwyn cynyddu cyfleoedd chwarae i blant o bob oedran.

"Mae'r grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r cae chwarae gan fod mwy o blant y pentref yn ei ddefnyddio gan gynnwys rhai o ardaloedd cyfagos."

Friends of Wern Mynach, Abermaw
£2,487
Gosod system casglu dŵr glaw yn yr ardd gymunedol yn Abermaw.

"Prosiect gwych i fod yn rhan ohono, ac mae'n braf gweld yr holl wahanol bobl yn mwynhau ac yn cymryd rhan."

Clwb Rygbi Dolgellau
£47,475
Gosod goleuadau LED i'r caeau/adeilad y clwb ynghyd â ffenestri newydd.

"Mae'r chwaraewyr sy'n defnyddio'r llifoleuadau wedi sylwi ar y gwelliant mae'r goleuadau'n ei wneud ar gyfer gemau a hyfforddiant. Rydym hefyd wedi elwa o ffenestri newydd drwy'r adeilad, a dodrefn newydd yn yr ystafell gyfarfod. Mae'r grwpiau sy'n defnyddio'r cyfleusterau i gyd wedi sylwi faint cynhesach a chroesawgar yw'r adeilad, ac rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd ohono."





Y Capel Bach, Trawsfynydd
£129,304
Adnewyddu'r Capel Bach yn Nhrawsfynydd yn cynnwys ail-doi, ffenestri newydd, ail-blastro, system gwresogi, pwmp gwres o'r aer a chegin newydd.

"Mae'r grant wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'n grŵp. Roedd ein hadeilad yn hen, yn ddrud i'w redeg ac yn straen ar ein hadnoddau. Mae'r cyllid wedi ein galluogi i insiwleiddio'r adeilad a'i wneud yn llawer mwy effeithlon o ran ynni. Mae'r adeilad bellach yn ofod ecogyfeillgar, dymunol a chyfforddus ar gyfer pob un o'r grwpiau cymunedol sydd yn ei ddefnyddio."

Neuadd y Pentre, Bontddu
£83,540
Adnewyddu'r ganolfan yn cynnwys ffenestri, system wresogi a chegin newydd.

"Mae'r grant wedi bod yn achubiaeth i adeilad Neuadd y Pentre, ac i'r gymuned leol yn y Bontddu. Mae'r pentref wedi colli'i dafarn, ei ysgol a'i siop leol, felly'r Neuadd yw'r unig adeilad cymunedol sydd ar gael i ni. Mae'r gwaith ailwampio wedi rhoi balchder o'r newydd yn eu cymuned i drigolion, ynghyd â brwdfrydedd dros ddigwyddiadau cymunedol."

Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog
£123,030
Adnewyddu'r ganolfan drwy osod ffenestri, drysau a system wresogi newydd.

"Mae derbyn y grant Ffyniant Gyffredin drwy Mantell Gwynedd wedi bod yn newid anhygoel i'r Ganolfan Gymdeithasol ym Mlaenau Ffestiniog. Cawsom ffenestri a boiler newydd drwy'r adeilad ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ni a phellach yn adeilad llawer mwy cynnes a chartrefol. Yn dilyn y gwaith rydym yn cael dipyn mwy o defnydd gan grwpiau a thrigolion yr ardal a rwan yn cynnig croeso cynnes i bawb!"



Canolfan Cymuned Y Parc
£15,417
Comisiynu astudiaeth dichonoldeb a datblygu cynlluniau ar gyfer uwchraddio'r Ganolfan.

"Mae'r Grant wedi'n galluogi i symud ymlaen efo'n cynllun datblygu manwl ar gyfer y dyfodol i ddatblygu ac uwchraddio cyfleusterau'r Ganolfan sef hen Ysgol Gymuned y Parc. Ein gobaith yn awr yw medru symud ymlaen i geisio grant llawn ar gyfer gwireddu'r cynlluniau hyn."

Eglwys Bedyddwyr Tywyn
£25,890
Gosod paneli solar a gwresogyddion effeithlon yn y Capel/hwb cymunedol.

"Mae'r Gronfa Ffyniant Cyffredin wedi ein galluogi ni yn Eglwys Bedyddwyr Tywyn i osod paneli solar gyda batris storio 40kW. Hefyd, rydyn ni wedi gosod system wresogi arbenigol mewn rhan o'r adeilad sydd wedi'i ddynodi'n fan cynnes ac wedi croesawu pobl i ddefnyddio'r fan honno fel rhan o estyn allan yr Hwb Cymunedol."

Clwb Rygbi Bro Ffestiniog
£65,035
Gosod paneli solar, ffenestri a boiler newydd a thrwsio pileri'r fynedfa.

"Mae'r Clwb wedi cael budd o dderbyn grant wedi cael effaith anhygoel ar ein biliau trydan, ac ar gynhesrwydd y clwb. Mae ceisio cael y clwb yn sero net yn golygu ein bod yn gallu cymryd rhan yn yr agenda newid hinsawdd."





Fforwm Pobl Hŷn De Gwynedd, Tywyn
£3,040
Cynnal cyfres o weithgareddau ynghyd â phrynu offer newydd i'r fforwm.

"Mae'r grant wedi ein galluogi i ail-sefydlu sylfaen gadarn o gyfarfodydd rheolaidd, sy'n cael eu cefnogi'n dda gan y gymuned. Yn yr un modd, bydd yr offer ychwanegol sydd wedi'i gaffael ag arian y grant yn arwain at welliant syfrdanol yn ein rhaglen ddigwyddiadau gyda siaradwyr allanol, a byddant yn arbennig o ddefnyddiol mewn sesiynau rhyngweithiol. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr gyda thymor 2025 yn nesáu."

Sied Egryn, Llanegryn
£27,644
Prynu deunyddiau i wella ac ymestyn Sied Egryn gyda gwirfoddolwyr yn cwblhau'r gwaith.

"Mae'r grant gan Mantell Gwynedd ar gyfer ein prosiect wedi hwyluso'r broses o adeiladu gofod cymunedol newydd drwy ymdrech gwbl wirfoddol. Mae'r cyfle hwn wedi creu nod cyffredin – ac ymdeimlad o berthyn yn y gymuned. Bydd y gweithdy a'r gofod dan do y tu allan yn creu'r cyfle i gynnal gweithgareddau cymunedol am flynyddoedd i ddod."



GWYNEDD GYFAN

Partneriaeth Awyr Agored
£8,688
Hyfforddi a chefnogi Llysgenhadon gwirfoddol i weithio gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored i gryfhau cymunedau o fewn Gwynedd.

"Mae'r grant Ffyniant Cyffredin wedi ein galluogi i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn uniongyrchol efo ni, ar draws Gwynedd, i greu cyfleoedd a hybu pobl ar draws yr ardal i drio gweithgareddau awyr agored, er budd eu hiechyd a lles."

Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri
£9,600
Comisiynu arolwg proffesiynol ar gyfer cydymffurfio gyda safon Llwybrau Cenedlaethol.

"Mae'r grant eisoes wedi ein harwain i gyfrannu at rai prosiectau i wella mynediad ar hyd y Llwybr, ac i symud ymlaen â'n prosiect bydd byrddau gwybodaeth yn cael eu gosod yn yr Haf."

£1.5M

BETH YW CRONFA SECTOR WIRFODDOL MANTELL GWYNEDD?

Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi darparu £2.6 biliwn o gyllid ar draws y DU ac yn dod i ben fis Mawrth 2025. Dyrannwyd £24.4 miliwn i Wynedd gyda £4.2 miliwn o'r dyraniad wedi ei warchod ar gyfer codi lefelau rhifedd ymhlith oedolion.

Bu Mantell Gwynedd yn ffodus iawn o dderbyn **£1.5m** ar gyfer sefydlu a gweinyddu Cronfa Sector Wirfoddol er budd mudiadau trydydd sector yng Ngwynedd.

Penodwyd Swyddog Grantiau Cronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd ym mis Awst 2023 ac agorwyd y Gronfa i geisiadau ym mis Medi 2023. Derbyniwyd 88 o geisiadau gwerth £5.8m.

Hysbyswyd y 36 mudiad llwyddiannus yn ystod Tachwedd 2023 gydag amserlen dynn i ddod â gwariant i ben erbyn Rhagfyr 2024.

Cynlluniau i'r Dyfodol

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sef ein cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae Mantell Gwynedd yn un o aelodau o Bartneriaeth Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi'r sector a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r gwaith Partneriaeth sydd wedi digwydd rhwng Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd ers 23-24 er mwyn hwyluso arian Cronfa Ffyniant Gyffredin a sefydlu Cronfa Sector Wirfoddol wedi bod yn allweddol bwysig. Erbyn hyn, gyda phenodiadau newydd i uwch swyddi yn y Cyngor, mae'r cydweithio wedi ymestyn yn sylweddol a chanlyniad hyn yw prosiectau newydd sydd yn galluogi cydweithio gyda'r Cyngor er lles trigolion Gwynedd.

Trwy ein prosiect Social Value Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Trwy'r gwaith hwn rydym yn gallu dangos sut yr ydym fel sector yn datgloi potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, mae y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) wedi rhoi cyfrifoldebau newydd ar gyrff cyhoeddus. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ganlyniadau cymdeithasol cyfrifol trwy gadwyni cyflenwi. Mae hwn yn gam allweddol wrth i waith Social Value Cymru ddatblygu.

Byddwn yn ceisio ymestyn ein gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod mudiadau'r trydydd sector yn cael y cyfle i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu cefnogaeth i unigolion sydd heb anghenion clinigol. Gobeithiwn uchafu potensial mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu i'r agenda llesiant wrth wneud hyn, a thrwy hynny, yn gwireddu potensial Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn rhoi'r trydydd sector wrth galon darparu a chynllunio gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fesur gwerth cymdeithasol prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon er mwyn darparu tystiolaeth o'r angen am wasanaethau trydydd sector ac yn parhau i chwilio am gyfleodd ariannol i ehangu'r prosiect presennol.

Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd ymarferol o gefnogi'r trydydd sector i gydymffurfio gyda safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a byddwn yn manteisio ar bob cyfle posibl i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y trydydd sector, yn enwedig yn y maes Gwirfoddoli gan adeiladu ar y gwaith da mae Mantell Gwynedd eisoes wedi arwain arno.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r agenda newid hinsawdd a hyrwyddo ymarfer da o fewn y sector.

Wrth i'r wlad wynebu heriau economaidd aruthrol byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r creisis costau byw.


Crynodeb Ariannol

Sut mae Mantell Gwynedd yn cael ei ariannu


Pob blwyddyn mae Mantell Gwynedd yn llwyddo i ddenu arian o nifer o amrywiol ffynonellau e.e. Cyrff y Llywodraeth, Ymddiriedolaethau Elusennol a Chronfeydd Loteri.

Cyfanswm Incwm yn ystod 2024/25
£1,440,073

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2024/25
£1,339,229



CYMHARIAETH YNG NGWARIANT MANTELL GWYNEDD YN YSTOD 2023/24 a 2024/25



Cysylltwch â Mantell Gwynedd am gopi o Gyfrifon Ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2025

Bwrdd Rheoli 2024/2025

SWYDDOGION
Cadeirydd: Trystan Pritchard
Prif Weithredwr Canolfannau Byw'n Iach
Is-Gadeirydd: Meinir Evans
Prif Swyddog Canolfan Felin Fach
Trysorydd: Elwen Roberts
Menter Gymunedol Y Llew Gwyn
Is-Drysorydd: Annie Williams
Cyn Bennaeth Coleg Harlech WEA (wedi ymddeol)

AELODAU
Y Tad Deiniol
"Yn Ein Blaenau"
Betty Williams
Aelod Seneddol (wedi ymddeol)
Paul John Rowlinson
Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd

Staff 2024/2025

TÎM RHEOLI
Bethan Russell Williams
Prif Swyddog
Ceren Williams
Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu

DATBLYGU A GWASANAETHAU
Eleri Lloyd Roberts
Rheolwr Gwerth Cymdeithasol
Gareth Jâms
Swyddog Datblygu a Mesur Gwerth
Mathew Lewis
Swyddog Mesur Gwerth Cymdeithasol
Katie Jones
Swyddog Datblygu a Mesur Gwerth Cymdeithasol
Carys Williams
Swyddog Datblygu a Grantiau a Chynorthwy-ydd Cyllid
Carina Roberts
Swyddog Grantiau

IECHYD A LLESIANT
Sioned Llywelyn Roberts
Hwylusydd Iechyd a Llesiant
Rhian Griffiths
Swyddog Cyswllt Cymunedol Arfon

CYLLID A GWEINYDDOL
Tracy Lynne Rotheram
Swyddog Gweinyddol

CANOLFAN GWIRFODDOLI GWYNEDD
Carwyn Humphreys
Cydlynydd Canolfan Gwirfoddoli
Jordan Thomas
Swyddog Gafael Llaw i Wirfoddoli
Beca Gruffydd
Swyddog Prosiect Ffrindia' Newydd

Rhif y Cwmni 3420271

MANTELL GWYNEDD CYF.

(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

CYFRIFON ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

MANTELL GWYNEDD CYF.

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR (CYFARWYDDWYR)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Cyflwyna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025.

Prif Weithgaredd ac Adolygiad

Prif weithgaredd y Cwmni yn ystod y flwyddyn oedd hyrwyddo unrhyw ddibenion elusennol er lles trigolion Gwynedd ac yn arbennig trwy gynorthwyo a chefnogi dibenion elusennol a gwaith mudiadau gwirfoddol yn yr ardal les. Gweler yr Adroddiad Blynyddol am fwy o fanylion, mae hwn ar gael gan y cwmni.

Manylion Gweinyddol

Enw'r Elusen	Mantell Gwynedd Cyf.
Rhif Elusen Gofrestredig	1068851
Rhif Cwmni Cofrestredig	3420271
Cyfeiriad Cofrestredig	25 Y Bont Bridd Caernarfon Gwynedd LL55 1AB
Archwilwyr	WJ Matthews a'i Fab 11-15 Y Bont Bridd Caernarfon
Cyfreithwyr	Pritchard Jones Lane 37 Y Maes Caernarfon
Bancwyr	Banc Barclays Parc Menai Bangor
	Undeb Credyd Cambrian 144 Ffordd Conwy Cyffordd Llandudno Conwy
	The Charity Bank Limited Fosse House 182 High Street Tonbridge
	Santander Bridle Road Bootle Merseyside
	Flagstone Group Banc HSBC,Aldermore,Nationwide, Sainsburys, Hampshire Trust, Standard Chartered a Charter Savings 1st Floor Clareville House 26-27 Oxendon St London

MANTELL GWYNEDD CYF.

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR (CYFARWYDDWYR) - parhad

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, a'r rhai presennol yw:

Trystan Pritchard (Cadeirydd)
Elwen Roberts (Trysorydd)
Meinir Wyn Evans (Is – Gadeirydd)
Sydna Ann Williams (Is-Drysorydd)
Betty Williams
Y Tad Deiniol

Enwau'r prif aelodau o staff (Tîm Rheoli) yw:-

Bethan Russell Williams - Prif Swyddog
Ceren Williams - Dirprwy Prif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddol

Telir aelodau'r staff yn unol â'r trefn pwyntiau sydd yn berthnasol i'r llywodraeth leol.

Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Mae'r cwmni yn un cyfyngedig heb gyfranddaliadau ac yn elusen gofrestredig sy'n cael ei lywodraethu gan Femorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.

Mae apwyntiadau yn cael eu gwneud yn y cyfarfod blynyddol yn unol â Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.

Mae gan Mantell Gwynedd broses i anwytho ymddiriedolwyr newydd. Cyfrifoldeb y Prif Swyddog a'r Cadeirydd yw sicrhau fod ymddiriedolwyr newydd yn manteisio ar y broses o anwytho.

Rheolir busnes yr Elusen gan yr Ymddiriedolwyr. Y mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am strwythur polisïau'r Elusen a sicrhau fod y gwaith yn cael ei reoli'n effeithiol. Pwrpas y gwaith yw gwarchod lles yr elusen, felly'n caniatáu'r gwaith da barhau yn y dyfodol.

Y mae staff wedi eu hapwyntio, yn atebol i'r Ymddiriedolwyr ac yn goruchwylio'r gwaith dyddiol yn unol â'r polisi. Mae'r ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf pedair gwaith y flwyddyn, a gall cyfarfodydd ychwanegol gael eu galw pe bydd angen. Gall yr ymddiriedolwyr apwyntio un neu ragor o is-bwyllgorau yn unol â Memorandwm ac Erthyglau'r cwmni.

Risgiau yn wynebu Mantell Gwynedd yn ystod 2025-26

- Mae'r Cytundeb Partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru yn hanfodol i ddarparu arian craidd Mantell Gwynedd. Dros y blynyddoedd diwethaf mae perthynas gref a phwysig iawn wedi bod rhwng Uned Trydydd Sector Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Trydydd Sector Cymru. Mae ariannu'r dyfodol yn gwbl ddibynnol ar y berthynas unigryw hon. Gyda Etholiad ar y gorwel ym 2026 gall hyn gael effaith sylweddol ar y berthynas os bydd newid gwleidyddol yn y Llywodraeth.

- Mae swydd Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon wedi ei ariannu ers 2016 trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. 2025-26 yw'r flwyddyn olaf y bydd arian yn cael ei ddyrannu yn y dull presennol felly mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i adnabod ffyrdd o gefnogi'r gwaith. Er ein bod yn cyfrannu'n gadarn i'r drafodaeth ar bob lefel mae 'na risg gwirioneddol na fydd modd ariannu'r gwaith yn yr un ffordd yn y dyfodol.

Risgiau yn wynebu Mantell Gwynedd yn ystod 2025-26 - parhad

- Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Mantell Gwynedd wedi bod yn ffodus i ddenu arian allannol sylweddol i'r cwmni er enghraifft arian Cronfa Ffyniant Gyffredin (dros £2.2m ers 2023) a hefyd arian Loteri (dros £260k) yn ogystal â nifer o ffynonellau llai eraill. Fodd bynnag, rhaid nodi fod arian sydd ar gael yn lleihau a bydd rhaid cadw golwg barcud ar bob cyfle ddaw, gan derbyn y bydd llawer mwy o gystadleuaeth amdano.

- Mae gwaith Social Value Cymru wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd diwethaf. Buddsoddwyd mewn aelod staff ychwanegol yn ystod 2024 er mwyn cynyddu capasiti y tîm. Er bod digon o waith yn dod i mewn ar y funud bydd rhaid parhau i gadw golwg barcud am bob cyfle posib i gefnogi'r gwaith yma er mwyn parhau i gadw'r llif busnes.

- Mae Swyddfa Dolgellau yn parhau ym mherchnogaeth Mantell Gwynedd wrth i'r adroddiad yma gael ei gwblhau. Er bod y Bwrdd Rheoli wedi cymeradwyo yn unfrydol i werthu'r eiddo mae'r gwerthiant yn peri problem am nifer o resymau. Yn bennaf, mae na ffi o £62,843 yn daladwy (Parc Cenedlaethol) oherwydd newid defnydd o Swyddfa/masnachol i ddefnydd preswyl. Ar ben hyn mae Erthygl 4 (Article 4) sydd wedi ei gyflwyno yng Ngwynedd yn cyfyngu defnydd posib medru gosod yr eiddo fel lle gwyliau ar ôl ei brynu a'i adnewyddu. Mae'r ddau beth yma wedi rhoi y prynwr (oedd yn barod i gwblhau ar y pryniant) mewn sefyllfa anodd bellach. Gyda chyflwr yr adeilad yn dirywio mae Bwrdd Mantell Gwynedd wedi derbyn cyngor i symud ymlaen i roi y lle mewn ocsiwn. Yn y cyfamser mae gwneuthuriad yr adeilad yn dirywio. Mae'r safle yn risg sylweddol i'r cwmni erbyn hyn.

Amcanion a Gweithgareddau, Llwyddiannau a Pherfformiadau

Cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol, annog unigolion i wirfoddoli a bod yn llais cryf i'r trydydd sector yng Ngwynedd yw nod Mantell Gwynedd. Mae'n gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth leol ond yn rhan o rwydwaith o Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n gweithredu drwy Gymru. Daw'r arian craidd i redeg y cwmni oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r mudiad yn ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol i hyn ond i gyd gyda'r un nôd o hyrwyddo gwirfoddoli a'r trydydd sector yng Ngwynedd.

Mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:-

- Hyrwyddo, datblygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli.
- Cynrychioli'r trydydd sector a chydweithio ar bartneriaethau strategol.
- Rhoi cymorth i bobl a mudiadau i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda chyrff cyhoeddus.
- Rhoi cefnogaeth llywodraethol i fudiadau e.e. materion cyfansoddiadol ac ariannol.
- Rhoi cefnogaeth i fudiadau i fesur eu gwerth yn well, yn enwedig gwerth cymdeithasol.
- Gweithredu fel linc ar gyfer cyfeirio unigolion at wasanaethau trydydd sector e.e. Presgripsiwn Cymdeithasol.
- Rhoi cefnogaeth i redeg prosiectau a pheilota prosiectau ar gyfer y trydydd sector pan fo angen.
- Rheoli ffynhonellau grant a rhoi cyngor ar ariannu prosiectau.
- Hybu datblygiad mentrau cymdeithasol a chynaliadwyedd mudiadau.
- Annog datblygiad a chyd-lynu consortia darparwyr trydydd sector.
- Rhannu gwybodaeth gyda'r trydydd sector trwy newyddlenni, bwletinau, taflenni gwybodaeth, y wefan, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddulliau addas eraill.
- Cynnig rhaglen o hyfforddiant i gynorthwyo mudiadau a gwirfoddolwyr yn eu gwaith.
- Cynnig gwasanaethau ymarferol e.e. llogi offer, llogi uned symudol, llungopio, darparu ystafelloedd cyfarfod a gofod swyddfa.
- Cynnig gwasanaeth cyflogres.
- Annog cydweithio ar draws sectorau

Amcanion a Gweithgareddau, Llwyddiannau a Pherfformiadau - parhad

Y prif brosiectau yn y flwyddyn oedd:

Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd

Prif rôl Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yw hyrwyddo a dathlu gwirfoddoli, recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr, yn ogystal â chynghori a datblygu arferion da am wirfoddoli.

Mae gwaith y Ganolfan wedi cynyddu yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf gyda dau brosiect cymharol newydd yn y Ganolfan.

Mae **prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli** (ddechreuodd yn Ionawr 2024) yn cael ei ariannu trwy gronfa SPF yn ein galluogi i gyflogi Swyddog llawn amser i roi cefnogaeth i unigolion i fynd ati i wirfoddoli . Mae 134 o unigolion wedi cael cefnogaeth gan y Swyddog Gafael Llaw ers Ionawr 2024. Oherwydd llwyddiant y prosiect yma mae Mantell Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus gyda chais i'r Gronfa Loteri Gymunedol am £261,650 dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae **prosiect Ffindia' Newydd** hefyd wedi dechrau ers Gorffennaf 2025. Mae hwn yn cael ei ariannu trwy Gronfa SPF hyd Mawrth 2026 ac yn galluogi Mantell Gwynedd i sefydlu cynllun cyfeillio ar gyfer unigolion yn ardal Arfon. Mae'r prosiect hwn wedi digwydd trwy gydweithrediad â Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi llwyddo i ddenu arian o **Gronfa Newid** ar gyfer cyfarpar TG newydd (£4000) sydd yn golygu fod gennym rhywfaint o gyfarpar ar gael i'r sector ei ddefnyddio.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi gweinyddu **Cronfa Grant Gwirfoddoli Pobl Ifanc** gwerth £10,000.

Prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon

Mae presgripsiwn cymdeithasol yn galluogi meddygon teulu, nyrsus a gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes gofal sylfaenol i gyfeirio unigolion at amryw o wasanaethau lleol sydd ddim yn wasanaethau clinigol. Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol yn yr agenda ataliol e.e. codi ymwybyddiaeth am sgrinio, atal codymau a hybu cyrsiau iechyd a lles.

Dull sydd yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion mewn modd mwy holistig ydyw a'u hannog i gael gwell gafael ar eu llesiant a'u hiechyd eu hunain. Mae gweithgareddau Presgripsiwn Cymdeithasol yn gallu bod yn amrywiaeth enfawr o bethau ond, ar y cyfan, gweithgareddau ydynt sydd yn cael eu darparu gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol.

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn galluogi Mantell Gwynedd i gyflogi Swyddog llawn amser i wneud y gwaith yma.

Ers i'r prosiect gychwyn ym 2016 mae dros 1800 o unigolion wedi eu cefnogi trwy'r prosiect.

Amcanion a Gweithgareddau, Llwyddiannau a Pherfformiadau - parhad

Y prif brosiectau yn y flwyddyn oedd (parhad):

Prosiect Codi Pontydd Cadarn / Llesiant

Mae prosiect Codi Pontydd Cadarn yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ag yn galluogi Mantell Gwynedd i gyflogi Hwylusydd Llesiant llawn amser.

Mae'r swydd yn sicrhau pont rhwng y gwasanaeth iechyd a'r mudiadau trydydd sector sydd yn darparu gwasanaethau yn y maes iechyd a llesiant.

Mae'r Hwylusydd yn

- hwyluso cyfarfodydd a chefnogi fforymau a gweithdai
- codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddylanwadu
- sicrhau perspectif mudiadau trydydd sector mewn cyfarfodydd parteriaeth a digwyddiadau eraill
- cynnal cyfres o Rwydweithiau trwy'r flwyddyn

Yn ystod 2024-25 cynhaliwyd 11 cyfarfod Rhwydwaith Llesiant a Gwirfoddoli gyda phynciau amrywiol a pherthnasol yn cael eu trafod. 'Roedd rhai o'r cyfarfodydd rheiny wedi eu trefnu'n rhanbarthol gyda Hwyluswyr Llesiant eraill o Gynghorau Gwirfoddol y Gogledd a rhai ar y cyd gyda Chanolfan Gwirfoddoli Mantell Gwynedd.

Prif ddigwyddiad y flwyddyn yw Digwyddiad Iechyd Da yn Nolgellau sydd yn cael ei gynnal fis Hydref pob blwyddyn ers degawd. Mae'r digwyddiad yma wedi bod yn greiddiol bwysig dros y blynyddoedd ar gyfer aelodau cyhoedd a darparwyr gwasanaeth. Yn dilyn sawl galwad am ddigwyddiad tebyg yng Ngogledd y Sir mi drefnwyd Iechyd Da'r Ha' yng Nghaernarfon yn 2024 ac eto yn 2025 gan ddenu cynulleidfa sylweddol ar y ddau achlysur a chanmoliaeth mawr i'r datblygiad. Y gobaith yw y bydd hwn yn ennill ei blwy' a sefydlu yn ddigwyddiad blynyddol pwysig yn union fel mae digwyddiad Dolgellau wedi gwneud.

Eleni, am y tro cyntaf, derbyniwyd cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynnig cefnogaeth i'r sector gyda'r agenda Diogelu. Bu'r Hwylusydd yn cyd lynu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer y sector gan gynnwys comisiynu ffilm am ofynion diogelu.

Prosiect Social Value Cymru

Bu i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 osod seiliau cadarn i'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol trwy ofyn i sectorau (cyhoeddus, preifat a thrydydd sector) i weithio'n wahanol. I wneud hynny 'roedd angen meddwl beth oedd y pethau pwysig oedd angen eu mesur a'u rheoli. Dim ond trwy ddeall gwerth cymdeithasol y gallwn wir fynd ati'n effeithiol tuag at reoli y modd yr ydym yn creu llesiant. Erbyn hyn mae egwyddorion gwerth cymdeithasol wedi eu hatgyfnerthu yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Nod y Ddeddf yma yw gweithio gyda'n gilydd i wella'r dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yng Nghymru. Bydd mesur gwerth cymdeithasol yn greiddiol i'r cyfan.

Amcanion a Gweithgareddau, Llwyddiannau a Pherfformiadau -parhad

Y prif brosiectau yn y flwyddyn oedd (parhad):

Prosiect Social Value Cymru- parhad

Ers 2016 mae Mantell Gwynedd wedi bod yn cyflawni gwaith arloesol yn y maes mesur gwerth cymdeithasol. Dros gyfnod o saith mlynedd mae'r tim wedi datblygu i fod yn bedwar aelod staff sydd wedi cymhwyso trwy Social Value UK fel ymarferwyr achrededig yn y maes.

Ym 2019 enillodd Mantell Gwynedd farc ansawdd cenedlaethol am wreiddio gwerth cymdeithasol yn ei holl waith. Dyma'r tro cyntaf i gorff ymbarel ennill marc ansawdd o'r math yma. Yn ddiweddarach yn 2020 derbyniodd Mantell Gwynedd wobr gan Social Value UK am ei waith yn gweithio mewn Partneriaeth i gynyddu gwerth cymdeithasol. Bellach, mae un o'r tim Social Value Cymru gyda statws Hyfforddwr Rhyngwladol ac yn darparu hyfforddiant ar gyfer mudiadau ar draws y byd a'r gwaith yn mynd rhagddo i Mantell Gwynedd ennill marc ansawdd Lefel 3.

Mae Tim Social Value Cymru, Mantell Gwynedd yn gallu cynnig amrediad eang o wasanaethau yn y maes mesur gwerth cymdeithasol gan gynnwys adroddiadau SROI llawn a hyfforddiant wedi ei deilwro ar gyfer mudiadau unigol.

Gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd

Ers rhai blynyddoedd bellach mae Mantell Gwynedd yn darparu gwasanaeth cyflogres ar gyfer mudiadau trydydd sector yng Ngwynedd.

Gall materion ariannol a chyflogaeth fod yn gymhleth i fudiadau bychan sydd yn aml yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

Mae'r gwasanaeth cyflogres yn rhoi sicrwydd i fudiadau o daliadau a gweithdrefnau cywir ac yn golygu fod na rywun ochor arall i'r ffôn i gynnig cymorth a chefnogaeth fel bo angen.

Gweinyddu Grantiau

Mae gan Mantell Gwynedd hanes hir o reoli a gweinyddu cronfeydd grantiau.

Yn ystod 2023-24 derbyniodd Mantell Gwynedd dros £1.5m o Gronfa Ffyniant Cyffredin er mwyn sefydlu Cronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd.

Yn ystod 2023-24 gweinyddwyd y Gronfa gyntaf a derbyniwyd 88 o geisiadau gwerth £5.8m oedd yn chwilio am arian o'r Gronfa. Llwyddodd 36 o fudiadau gyda'u ceisiadau am arian o'r Gronfa.

Yn ystod 2025 derbyniwyd £640,000 o arian pellach o arian Cronfa Ffyniant Cyffredin er mwyn sefydlu ail Gronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd. Mae'r Gronfa hon hefyd bellach wedi ei gweinyddu a 24 o fudiadau ar draws Gwynedd wedi cael budd ohoni

Amcanion a Gweithgareddau, Llwyddiannau a Pherfformiadau -parhad

Adolygiad Ariannol

Mae'r elusen yn dangos gwarged o £100,844 y flwyddyn hon (2024: gwarged £54,211) cyn addasu am y cynllun pensiwn budd. Manylir mwy am y cronfeydd a'r cynllun pensiwn budd yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Polisi'r elusen ynglŷn â'r cronfeydd wrth gefn

Mae Mantell Gwynedd yn cydnabod ac yn derbyn ei gyfrifoldebau fel elusen a chyflogwr i ddiogelu eu dichonoldeb ariannol a pharhad y mudiad. Yn ôl canllawiau arfer da'r Comisiwn Elusennau, cytunwn fod arian yn cael eu clustnodi i gronfa wrth gefn.

Pwrpas y gronfa fydd:-

- I sicrhau llif arian (gwarchod rhag oediad derbyn arian refeniw);
- I warchod rhag unrhyw ddigwyddiad annisgwyl;
- I roi cyfle i ddenu/adnabod ffynonellau ariannol newydd pe bai ffynonellau presennol yn cael eu cwtogi;
- I sicrhau pe bai ariannu yn dod i ben, bod y mudiad yn gallu cwblhau ei ymrwymiadau ariannol a chyfreithiol wrth ddirwyn i ben.

Bydd lefel y gronfa wrth gefn yn cael ei hadolygu yn flynyddol gan y Bwrdd. Oni bai cytunir yn wahanol bydd y cwmni yn cadw o leiaf dau fis o gostau rhedeg y mudiad, a cheisio i gynyddu'r gronfa i swm sydd yn gyfartal i 4 mis o gostau rhedeg. Mae dadansoddiad o'r cronfeydd a sefyllfa'r cynllun pensiwn budd yn nodyn 11 o'r cyfrifon.

Cynlluniau i'r Dyfodol

- Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sef ein cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae Mantell Gwynedd yn un o aelodau o'r Bartneriaeth Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi'r sector a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol.

- Mae'r gwaith Partneriaeth sydd wedi digwydd rhwng Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd ers 2023-2024 er mwyn hwyluso arian Cronfa Ffyniant Cyffredin a sefydlu Cronfa Sector Wirfoddol wedi bod yn allweddol bwysig. Erbyn hyn, gyda phenodiau newydd i uwch swyddi yn y Cyngor, mae'r cydweithio wedi ymestyn yn sylweddol a chanlyniad hyn yw prosiectau newydd sydd yn galluogi cydweithio gyda'r Cyngor er lles trigolion Gwynedd.

- Trwy ein prosiect Social Value Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Trwy'r gwaith hwn rydym yn gallu dangos sut yr ydym fel sector yn datgloi potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, mae y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) wedi rhoi cyfrifoldebau newydd ar gyrff cyhoeddus. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol trwy gadwyni cyflenwi. Mae hwn yn gam allweddol wrth i waith Social Value Cymru ddatblygu.

Cynlluniau i'r Dyfodol - parhad

- Byddwn yn ceisio ymestyn ein gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod mudiadau'r trydydd sector yn cael cyfle i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu cefnogaeth i unigolion sydd heb anghenion clinigol. Gobeithiwn uchafu potensial mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu i'r agenda llesiant wrth wneud hyn, a thrwy hynny yn gwireddu potensial Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn rhoi'r trydydd sector wrth galon darparu a chynllunio gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fesur gwerth cymdeithasol prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon er mwyn darparu tystiolaeth o'r angen am wasanaethau trydydd sector ac yn parhau i chwilio am gyfleodd ariannol i ehangu'r prosiect presennol.

- Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd ymarferol o gefnogi'r trydydd sector i gydymffurfio gyda safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a byddwn yn manteisio ar bob cyfle posibl i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y trydydd sector, yn enwedig yn y maes gwirfoddoli gan adeiladu ar y gwaith da y mae Mantell Gwynedd eisoes wedi arwain arno.

- Byddwn yn gweithio gydag phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r agenda newid hinsawdd a hyrwyddo ymarfer da o fewn y sector.

- Wrth i'r wlad wynebu heriau economaidd aruthrol byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r creisis costau byw.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried adroddiad y Comisiwn Elusennau ynglŷn â Budd i'r Cyhoedd ac maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r prawf hwnnw.

Polisi ac Amcanion Buddsoddiadau

Yn unol â'r Memorandwm ac Erthyglau y mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pwêr i fuddsoddi pan maent yn credu fod y buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol gweladwy.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o Mantell Gwynedd Cyf. at bwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r adroddiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (UK GAAP).

Mae cyfraith cwmni yn ei wneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi Adroddiadau Ariannol am bob cyfnod ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac o incwm a gwariant y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu gweithredu yn gyson;
- dilyn egwyddorion a gweithdrefnau sydd yn y SORP elusennau (SORP 2019 (FRS 102));
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifo sydd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan os yw Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig berthnasol wedi eu dilyn, yn amodol i unrhyw newid materol sydd wedi eu datguddio a'u hegluro yn yr Adroddiadau Ariannol, a
- paratoi adroddiadau ariannol ar sail bod y busnes yn parhau oni bai nad yw yn addas i gymryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac i'w galluogi i sicrhau bod yr Adroddiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedion y cwmni elusennol a thrwy hynny cymryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cyn belled a bod yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:-

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohono, ac
- y mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd y camau sy'n ddyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn hysbys o unrhyw wybodaeth fyddai'n berthnasol i'r archwiliad, ac i sicrhau fod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hynny.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gofal a chywirdeb yr wybodaeth corfforedig ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar safle wê y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli, paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodau eraill.

Archwilwyr
Bydd yr archwilwyr, WJ Matthews a'i Fab, yn cael eu cynnig i'w hailbenodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni.

Trwy orchymyn y bwrdd ar 25/11/2025

..... Bethan Russell Williams (Ysgrifennydd)

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU

MANTELL GWYNEDD CYF.

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Mantell Gwynedd Cyf. am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth, 2025 sydd yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol yn cynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith ar gyfer Adroddiadau Ariannol sydd wedi ei ddefnyddio wrth baratoi'r cyfrifon yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (UK GAAP)

Yn ein barn ni mae'r cyfrifon:-

- yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg, o gyflwr ariannol y cwmni elusennol ar 31 Mawrth, 2025 a'r adnoddau mewnol ac adnoddau a ddefnyddiwyd, yn cynnwys ei incwm a gwariant am y flwyddyn;
- wedi eu paratoi yn gywir yn unol ag Egwyddorion Cyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail i'r farn roddwyd

Gwnaethpwyd yr archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Gyfunol) (ISAs (UK)) a'r gyfraith perthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu manylu'n bellach yn y datganiad am gyfrifoldebau'r archwilwyr yn ein hadroddiad. Yr ydym yn annibynnol yn unol â gofynion moesegol y Deyrnas Gyfunol sydd yn berthnasol i'n archwiliad o'r cyfrifon, yn cynnwys Safonau Moesegol y FRC, ac yr ydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hynny. Yr ydym o'r farn fod y dystiolaeth gasglwyd yn briodol ac yn ddigonol i'n galluogi i ffurfio barn.

Casgliadau yn ymwneud a sail busnes byw

Wedi archwilio'r cyfrifon yr ydym wedi dod i'r canlyniad ei bod yn briodol i'r ymddiriedolwyr baratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Yn seiliedig ar y gwaith wnaethpwyd, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol fyddai, yn unigol neu ar y cyd , yn creu amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i hawlio sail busnes byw am o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad pryd mae'r cyfrifon yn cael eu awdurdodi.

Mae ein cyfrifoldebau fel archwilwyr a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr yn ymwneud â sail busnes byw wedi ei fanylu yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad.

Gwybodaeth Ychwanegol

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am yr wybodaeth ychwanegol, sydd yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiadau ariannol, ac eithrio'r cyfrifon a'n adroddiad. Nid ydyw ein barn ar yr adroddiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth ychwanegol hwn, ar wahân ein bod yn manylu hynny yn ein hadroddiad, ac felly nid ydym yn datgan unrhyw farn arno. Yng nghyswllt ein archwiliad o'r adroddiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ydyw i ddarllen yr wybodaeth ychwanegol ac ystyried os ydyw'n faterol wahanol i'r adroddiadau, neu'r wybodaeth yr ydym wedi ei gasglu yn ystod yr archwiliad, neu ei fod yn ymddangos wedi ei gam ddatgan. Os ydym yn darganfod unrhyw anghysondeb neu gamddatganiad materol, y mae'n gyfrifoldeb arnom i asesu os ydyw'n gamddatganiad yn yr adroddiadau ariannol neu'r wybodaeth ychwanegol. Os yr ydym yn casglu fod camddatganiad yn yr wybodaeth ychwanegol mae'n ofynnol arnom i ddatgan hynny. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth i'w ddatgan yn y cyswllt hwn.

Barn ar fater arall a argymhellir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr yn unol â chyfraith cwmni) am y flwyddyn ariannol yn gyson gyda'r Adroddiadau Ariannol, ac wedi ei baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Yng nghyswllt ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r cwmni elusennol, nid ydym wedi darganfod unrhyw gam ddatgeliadau materol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn ôl ynglŷn â'r materion canlynol, ble mae'n ofynnol i ni adrodd i chwi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, os yn ein barn ni:-

- nad yw cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw na dogfennau digonol ar gyfer ein harchwiliad wedi eu derbyn gan y safleoedd nad ydym wedi ymweld â hwy;
- nid yw'r Datganiadau Ariannol yn cytuno gyda'r cofnodion cyfrifo na'r dogfennau;
- nid yw datgeliadau o daliadau i'r Ymddiriedolwyr sy'n ofynnol i'w ddatgelu yn ôl y gyfraith wedi eu gwneud;
- nid ydym wedi derbyn y cyfan o'r wybodaeth a'r esboniadau yr oedd eu hangen er mwyn gwneud yr archwiliad; neu
- nad oedd gan yr Ymddiriedolwyr yr hawl i baratoi'r cyfrifon yn unol â threfniadau cwmnïau bychain na chymryd mantais o ryddhadau cwmni bychain wrth baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a pheidio paratoi adroddiad strategol.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel sydd wedi ei esbonio yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr (ar dudalen 9), mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr y Cwmni Elusennol ar gyfer pwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiadau Ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi golwg cywir a theg.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr - parhad

Maent hefyd yn gyfrifol am ffurfio rheoliadau mewnol er mwyn sicrhau fod yr Adroddiadau Ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiad materol, boed hynny yn sgil camgymeriad neu dwyll.

Wrth baratoi'r adroddiadau mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau ar sail busnes hyfyw, neu ddatgelu gwybodaeth i'r gwrthwyneb os yn berthnasol.

Cyfrifoldebau'r Archwilwyr

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon a bodloni ein hunain eu bod yn rhydd o unrhyw gamddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu anghysonderau eraill, a chyhoeddi adroddiad sydd yn cynnwys ein barn. Ni allwn sicrhau y bydd archwiliad sydd wedi ei wneud yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Gyfunol) yn darganfod camddatganiad materol ym mhob achos. Gall camddatganiad ddigwydd oherwydd twyll neu anghysondeb arall, a caiff ei ystyried yn faterol os, yn unigol, neu mewn cyfanswm, y byddai'n ddigonol i ddylanwadu penderfyniadau sydd wedi eu selio ar y cyfrifon hyn.

Yr ydym wedi cynllunio'r archwiliad i gyd fynd â'r cyfrifoldebau uchod er mwyn adnabod camddatganiadau materol o ganlyniad i anghysonderau neu dwyll.

Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod anghysonderau, yn cynnwys twyll:

Mae anghysonderau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag anghysonderau, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol ar gael i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys
- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol trwy drafodaethau â'r ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithgareddau'r Cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac amgylcheddol.
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gyda'r rheolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Cyfleu y deddfau a rheoliadau a nodwyd o fewn y tim archwilio yn rheolaidd gan sicrhau ymwybyddiaeth gyson drwy'r archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y Cwmni i gamddatganiad materol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:

- Wneud ymholiadau ynglŷn â'r tueddiad i dwyll, gwybodaeth am dwyll gwirioneddol, amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn a diystyru rheolaethau, rydym yn:

- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;

Gweithdrefnau – parhad

- Asesu a oedd dyfyrniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl,
- Ymchwilio i'r rhesymeg tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin

Mewn ymateb i'r risg o anghysonderau a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cytuno datgeliadau'r datganiadau ariannol i ddogfennau atebol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethau;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu'r gohebiaeth â Chyllid a Thollau EF, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y Cwmni os yn berthnasol.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio ddisgrifiwyd uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol ydyw y byddwn yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad gan fod bosib iddynt gynnwys elfen o guddiad neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Mae mwy o wybodaeth am gyfrifoldebau archwilwyr ar gael ar safle wê y Financial Reporting Council (FRC) (www.frc.org.uk/auditors/audit-assurance/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n adroddiad.

Defnydd o'r adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r cwmni yn unig yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Gwnaethpwyd y gwaith archwilio er mwyn ein galluogi i adrodd yr hyn yr oedd cyfrifoldeb arnom i gynnwys yn Adroddiad yr Archwilydd yn unig, ac i ddim pwrpas ychwanegol. Hyd eithaf yr hyn ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw gorff yn ychwanegol i'r cwmni a'r aelodau am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad a'r farn a ffurfiwyd gennym.

David Chidley
Prif Archwiliwr Statudol
Dros ac ar ran:
WJ Matthews a'i Fab
CYFRIFWYR SIARTREDIG
ARCHWILWR STATUDOL

11-15 Y Bont Bridd
CAERNARFON
25/11/2025

MANTELL GWYNEDD CYF.

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL

(DATGANIAD CYNHWYSFAWR O INCWM A GWARIANT)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Incwm a gwaddolion o:					
Rhoddion					
Incwm gwirfoddol	2	276,875	-	276,875	262,713
Weithgareddau elusennol					
Cefnogi'r Trydydd Sector	2	129,036	1,005,124	1,134,160	1,005,926
Llôg banc		29,038	-	29,038	12,978
Cyfanswm		434,949	1,005,124	1,440,073	1,281,617
Gwariant ar weithgareddau elusennol					
Cefnogi'r Trydydd Sector	2	324,664	1,014,565	1,339,229	1,227,406
Cyfanswm		324,664	1,014,565	1,339,229	1,227,406
Incwm Net cyn enillion a cholledion cydnabyddedig		110,285	(9,441)	100,844	54,211
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		(8)	8	-	-
		110,277	(9,433)	100,844	54,211
Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill					
Enillion/(colledion) actiwaraidd ar gynllun pensiwn budd	9	280,000	-	280,000	243,000
Symudiadau yn y cronfeydd		390,277	(9,433)	380,844	297,211
Cyfanswm cronfeydd d/y		2,068,477	35,304	2,103,781	1,806,570
Cyfanswm cronfeydd c/y	11	2,458,754	25,871	2,484,625	2,103,781

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae Cyfarwyddwyr y cwmni yn dymuno tynnu sylw at y ffaith fod y gronfa bensiwn wedi dylanwadu ar y ffigyrau ariannol terfynol. Maent yn awyddus i nodi fod sefyllfa Cronfa Bensiwn Gwynedd tu hwnt i reolaeth y cwmni.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 29 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

MANTELL GWYNEDD CYF.

DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL

AR 31 MAWRTH 2025

	Nodyn	2025 £	2024 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau Gweladwy a ddefnyddir gan yr Elusen	5	116,110	119,507
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	6	17,942	28,752
Arian yn y banc ac mewn llaw		736,874	676,079
CYFANSWM ASEDAU CYFREDOL		754,816	704,831
CREDYDWYR: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	(32,301)	(22,557)
ASEDAU CYFREDOL NET		722,515	682,274
Cyfanswm asedau llai credydwyr cyfredol		838,625	801,781
Ased/Rhwymedigaeth cynllun pensiwn budd	9	1,646,000	1,302,000
ASEDAU NET YN CYNNWYS CYNLLUN PENSIWN		2,484,625	2,103,781
CRONFEYDD			
Cronfeydd Anghyfyngedig	11		
- Cronfa Gyffredinol		696,170	703,518
- Cronfa Benodol		116,584	62,959
- Cronfa Pensiwn		1,646,000	1,302,000
Cronfa Gyfyngedig	11	25,871	35,304
CYFANSWM CRONFEYDD		2,484,625	2,103,781

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Bwrdd ac arwyddwyd ar eu rhan ar 25/11/2025 gan:-

..... Trystan Pritchard (Cyfarwyddwr)

Rhif Cofrestredig 3420271

Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 29 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

MANTELL GWYNEDD CYF

DATGANIAD LLIF ARIAN

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

	2025 £	2024 £
Llif arian o weithgareddau gweithredol (datganiad o symudiadau ariannol)	380,844	297,211
Addasu am		
Dibrisio	2,870	3,587
Llogau dderbyniwyd	(29,038)	(12,978)
	354,676	287,820
Newid yn y:		
Dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill	10,810	(11,891)
Credydwyr masnachol a chredydwyr eraill	9,744	2,605
Cynllun pensiwn budd	(344,000)	(289,000)
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	31,230	(10,466)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Gwerthiant asedau sefydlog	527	-
Llôg dderbyniwyd	29,038	12,978
Llif arian net o weithgareddau yn y cyfnod	60,795	2,512
Newid net mewn arian a'r hyn sydd yn cyfateb i arian	60,795	2,512
Ar gychwyn y flwyddyn	676,079	673,567
Ar ddiwedd y flwyddyn	736,874	676,079

Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 29 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

MANTELL GWYNEDD CYF.

NODIADAU I'R CYFRIFON

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

1. **Polisïau Cyfrifo**
Gwybodaeth Gyffredinol

Mae'r elusen yn gwmni cyfyngedig preifat heb gyfranddaliadau wedi ei gofrestru yng Nghymru, ac yn elusen gofrestredig yng Nghymru. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw 25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd.

Y mae'r elusen yn cwrdd a diffiniad FRS 102 o endid sydd yn rhoi budd i'r cyhoedd.

Sail Cyfrifo/Datganiad Cydymffurfio
Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi o dan y ddefod cost hanesyddol a'r Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a'r SORP FRS102 ar gyfer elusennau a'r Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi mewn sterling, sef arian swyddogaethol y cwmni elusennol.

Busnes Hyfyw
Ym marn yr ymddiriedolwyr nid oes unrhyw ansicrwydd ynglŷn â gallu'r elusen i barhau mewn busnes.

Dyfarniadau a phrif ansicrwydd parthed amcangyfrifon
Wrth baratoi'r Adroddiadau Ariannol mae'n ofynnol gwneud dyfarniadau, amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y ffigyrau a roddwyd. Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau yma yn cael eu hadolygu'n gyson ac maent wedi eu selio ar brofiad o ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau a digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Dibrisio/Amhariad gwerth asedau sefydlog
Mae'r asedau sefydlog wedi eu dangos yn ôl eu cost (ble mae'r gost yn fwy na £1000) a'u dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ar y graddfeydd canlynol:-

Tir ac Eiddo	- 1% pob blwyddyn
Offer Cyffredinol	- 25% pob blwyddyn
Offer Cyfrifiadurol	- 25% i 33% pob blwyddyn

Cynhelir adolygiad blynyddol ar gyfer adnabod unrhyw nam ar werth yr asedau sefydlog, a pan fo'r gwerth yn fwy na'r swm y gellir ei adennill gwneir cofnod cyfrifo o'r amhariad. Adolygir unrhyw amhariad blaenorol a'i wrthdroi os yn berthnasol.

Cyfrifo ar gyfer y cronfeydd
Mae'r cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu nôd elusennol y cwmni.

Mae cronfeydd penodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu clustnodi gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer pwrpas penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi eu cyfyngu yn ôl eu defnydd i gynlluniau priodol yn unol ac amodau'r arianwyr.

Incwm
Mae'r holl incwm yn cael ei gynnwys yn y datganiad o symudiadau ariannol pan mae'r hawl i'r incwm wedi trosglwyddo i'r elusen; y mae'n debygol y bydd y manteision economaidd sy'n gysylltiedig yn llifo i'r elusen, gall y swm gael ei fesur yn ddibynadwy a bod unrhyw amodau wedi eu cwrdd, neu o fewn gallu'r elusen i'w cwrdd.

Prif elfen incwm yw grantiau a chytundebau o wahanol ffynonellau.

1. **Polisïau Cyfrifo - parhad**

Incwm - parhad

Caiff incwm cyfyngedig ei gynnwys mewn cronfa gyfyngedig a'i gyfatebu â'r gwariant.

Mae'r incwm wedi ei rannu rhwng y gwahanol gronfeydd. Mae'r arian craidd yn cael ei ddangos fel incwm gwirfoddol. Mae incwm eraill yn cael ei ddangos fel incwm o weithgareddau'r elusen, sy'n cynnwys cytundebau gyda gwahanol arianwyr a gwasanaethau sydd yn ran o weithgareddau'r cwmni er mwyn hybu ei nôd elusennol yn unol â'r SORP, fel y nodir yn nodyn 2. Mae incwm yn cael ei ohirio ble mae wedi ei dderbyn ymlaen llaw.

Mae rhai cytundebau cyfyngedig yn gadael y cwmni ail ddosbarthu costau rhedeg fel costau'r cytundebau ac mae'r incwm yn cael ei ddangos fel incwm anghyfyngedig. Mae'r trafodion yma yn cael eu dangos ar wahân yn y Datganiad o Symudiadau Ariannol. Cyfanswm 2025 oedd £ 30,811 (2024: £23,709).

Derbyniwyd grantiau gan Llywodraeth Cymru drwy law Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) fel y'i manylir yn nodyn 2.

Costau

Cynhwysir holl gostau'r elusen yn natganiad y symudiadau ariannol yn unol â'r drefn o gronni costau, ble mae dyletswydd gyfreithiol yn bodoli. Mae'r gwariant yn cynnwys unrhyw Treth ar Werth gan na ellir ei adennill.

Manylwyd y costau yn ôl canllawiau'r Datganiad o Arferion ac Argymhellion (SORP) ble mae nôd yr elusen yn cael ei ddangos fel costau gweithgareddau'r elusen, wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hynny sydd yn hyrwyddo ei nodau elusennol er budd ei buddiolwyr. Mae costau llywodraethu yn cynnwys costau cefnogol llywodraethu'r elusen, ac yn ffurfio rhan o gostau'r gweithgareddau elusennol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadrodd wrth natur y gwariant. Mae gwariant cyfyngedig yn cael ei ddyrannu i gronfa gyfyngedig.

Costau cefnogol
Y mae'r costau wedi eu manylu yn y datganiad o symudiadau ariannol a'r nodiadau. Gan mai gweithgareddau elusennol yn unig sydd, a dim gweithgareddau codi arian, nid oes rhaniad pellach wedi ei wneud o'r costau cefnogol.

Cynllun Grantiau

Mae'r cwmni yn gweithredu cynlluniau grantiau a gweler yn nodyn 2.

Cynlluniau Pensiwn

Mae'r cwmni yn aelod o gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd sydd yn gynllun budd wedi ei ddiffinio. Mae'r cynllun yn cael ei reoli gan y "Local Government Pension Scheme Regulations 1997".

Mae'r symiau sydd wedi eu codi yn erbyn yr elw gweithredol yn cynrychioli cost lefel bresennol o'r gwasanaeth ynghyd a'r elw neu'r colledion ar y setliadau a'r cwtogiadau lle yn berthnasol. Maent wedi eu cynnwys fel rhan o gostau staff. Mae costau gwasanaeth yn y gorffennol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Symudiadau Ariannol yn syth os yw'r buddiannau mewn meddiant.

Os nad yw'r buddiannau mewn meddiant yn syth, yna mae'r costau yn cael eu cydnabod dros gyfnod tan fod y buddiannau yn dod i feddiant. Mae'r llog ar adenillion ar yr asedau yn cael eu netio i ffwrdd o gostau cyllido a chredits tebyg o dan llog. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth yn natganiad yr enillion a'r colledion cydnabyddiedig.

Mae'r cynllun wedi ei gyllido, gyda'r asedion o'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedion y cwmni, mewn cronfeydd sydd wedi eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr.

1. Polisïau Cyfrifo - parhad

Cynlluniau Pensiwn - parhad

Mae asedion y cynllun pensiwn wedi eu mesur yn ôl gwerth teg ac mae'r rhwymedigaethau yn cael eu mesur ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau ac wedi eu disgowntio ar gyfradd sy'n cyfateb i hynny a geir ar fond corfforaethol o safon uchel, yn yr un cyfred ariannol a'r un cyfnod a dyledion y cynllun.

Mae'r prisiadau actiwaraidd yn cael eu paratoi o leiaf bob tair blynedd ac maent yn cael eu hadolygu ar bob pen blwyddyn. Mae'r gwarged neu ddyled budd diffiniedig a geir wedyn yn cael ei gyflwyno ar wahân i weddill yr asedion ar wyneb y Fantolen.

Mae'r cwmni wedi dechrau cynllun pensiwn arall gyda "The Pension Trust" i aelodau newydd, ble mae'r cyflogwr yn talu 10%. Cynllun pensiwn cyfraniad ydyw ble mae'r gôst yn cael ei rannu yn unol â swyddogaeth yr unigolion.

Les Gweithredol

Mae lesi gweithredol yn cael eu dangos yn y datganiad o symudiadau ariannol fel y maent yn codi.

Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl unrhyw ddisgownt perthnasol

Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys arian a symiau wedi eu buddsoddi tymor byr, ble mae'r gwerth yn wybyddus a'r risg o newid yn isel.

Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt

Asedau Ariannol

Mae ased neu rhwymedigaeth ariannol yn cael ei adnabod pan fydd yr elusen yn barti i ddarpariaeth cytundebol.

Mae asedau neu rhwymedigaethau sylfaenol yn cael eu cydnabod ar y swm derbyniadwy neu sy'n daladwy gan gynnwys unrhyw gostau trafodion cysylltiedig, oni bai bod y trefniant yn gyfystyr a chytundeb ariannu, lle caiff ei gydnabod ar werth presennol taliadau y dyfodol wedi'i addasu ar gyfradd llog y farchnad ar ddyled tebyg.

2. Datganiad o Symudiadau Ariannol

Mae'r gwarged (2024:gwarged) (cyn addasu am y cynllun pensiwn) am y flwyddyn ar ôl codi am y canlynol:-

	2025 £	2024 £
Dibrisio	2,870	3,587
Ffioedd yr Archwilwyr - Archwilio	5,000	5,000
Tâl a phensiwn Ymddiriedolwyr	-	-
	=====	=====

2. **Datganiad o Symudiadau Ariannol - parhad**

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Incwm - Rhoddion				
WCVA - arian craidd	276,875	-	276,875	262,713
	276,875	-	276,875	262,713
Incwm - Gweithgareddau Elusennol				
Adeiladu Pontydd Cadarn	-	47,256	47,256	44,557
WCVA - GwirVol	-	6,650	6,650	6,650
Gwynedd - Cytundeb gwasanaeth	8,880	-	8,880	8,880
Ffi Asiantaeth	9,830	-	9,830	7,650
Ffi Gweinyddol	20,981	-	20,981	16,059
Incwm arall - Gwasanaethau a chyrsiau	9,845	-	9,845	16,018
Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd	-	-	-	9,300
Incwm SROI	79,500	-	79,500	43,071
Presgripsiwn Cymdeithasol/Hwylusydd Iechyd	-	61,917	61,917	60,900
Cyngor Gwynedd - Cronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd	-	-	-	45,454
Cronfa Grantiau Ffyniant Bro	-	824,444	824,444	735,387
Cyngor Gwynedd – Gafael Llaw	-	62,457	62,457	12,000
WCVA Cyfrifiaduron	-	2,400	2,400	-
	129,036	1,005,124	1,134,160	1,005,926
Gwariant - Gweithgareddau Elusennol				
Cyflogau a theithio	293,736	171,112	464,848	403,003
Hysbysebu a hyrwyddo	3,294	16,324	19,618	18,626
Hyfforddiant a recriwtio staff	3,999	1,280	5,279	1,185
Costau rhedeg y swyddfa	18,551	2,109	20,660	21,009
Costau gweinyddol	-	20,981	20,981	15,584
Gwasanaethau a chyrsiau	43	10,164	10,207	3,856
Costau safle	52,623	1,580	54,203	38,752
Costau banc	375	-	375	801
Costau (incwm) cyllid net	(61,418)	-	(61,418)	(46,406)
Dibrisio	2,870	-	2,870	3,587
Colled wrth werthu'r Uned Symudol	-	27	27	-
Grantiau	-	756,158	756,158	753,672
Costau rhedeg prosiectau	-	9,830	9,830	7,650
Costau gwerthuso	5,530	25,000	30,530	-
Costau Llywodraethu:-				
Archwilio a chyfrifo	5,000	-	5,000	6,000
Costau teithio'r Ymddiriedolwyr	61	-	61	87
	324,664	1,014,565	1,339,229	1,227,406

2. **Datganiad o Symudiadau Ariannol - parhad**

	2025 £	2024 £
Grantiau - Mudiadau		
WCVA Grantiau dan arweiniad -2 (2024:2)	5,000	5,000
Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol (2024:26)	-	40,000
Grantiau Ffyniant Bro – 35 (2024:36)	751,158	708,672
	756,158	753,672

Ceir mwy o fanylion am y mudiadau a'r grantiau yn yr Adroddiad Blynyddol sydd i'w gael ar www.mantellgwynedd.com. Yn unol â'r polisi cyfrifo mae elfen o'r costau cefnogol yn cael ei ail ddosbarthu a'i gynnwys fel incwm.

Y swm perthnasol eleni oedd £5,587 (2024: £6,654)

3. **Staff**

	2025	2024
Cyfartaledd nifer y staff yn ystod y flwyddyn:-		
Cefnogi'r Trydydd Sector	14	13

	2025 £	2024 £
Cyfanswm Cyflogau	373,066	322,370
Yswiriant Gwladol	30,592	24,935
Pensiwn Budd - 3 aelod o staff (2024: 3)	29,582	28,594
Pensiwn Cyfraniad - 9 aelod o staff (2024: 10)	24,370	19,754
	457,610	395,653

Ni enillodd yr un staff cyflog o £60,000 neu fwy'r flwyddyn (2024:dim). Nid oedd unrhyw daliadau diswyddo yn y flwyddyn (2024:dim)

Talwyd £118,659 (2024: £115,200) i'r tîm rheoli, yn cynnwys yswiriant gwladol cyflogwr a chyfraniadau pensiwn, yn unol â'r drefn pwyntiau sydd yn berthnasol i wasanaethau'r llywodraeth leol. Mae'r cyflogau wedi eu rhannu yn y datganiad o symudiadau ariannol yn ôl swyddogaeth yr unigolyn.

4. **Treth Corfforaeth**

Y mae'r elusen yn cael ei eithrio rhag talu treth gan fod yr incwm yn gysylltiedig a'i amcanion elusennol.

5. **Asedau Sefydlog Gweladwy**

	Eiddo Rhydd-ddaliad (Dolgellau)	Uned Symudol	MESMAC	Offer Cyffredinol	Offer Cyfrifiadurol	Cyfanswm
Cost	£	£	£	£	£	£
Ar 1.4.24	125,000	23,691	408	47,757	31,177	228,033
Ychwanegwyd	-	-	-	-	-	-
Gwerthwyd	-	(23,691)	-	-	-	(23,691)
Ar 31.3.25	125,000	-	408	47,757	31,177	204,342
Dibrisio						
Ar 1.4.24	12,500	23,164	408	41,281	31,173	108,526
Am y flwyddyn	1,250	-	-	1,619	1	2,870
Ar werthiant	-	(23,164)	-	-	-	(23,164)
Ar 31.3.25	13,750	-	408	42,900	31,174	88,232
Gwerth yn y Llyfrau						
Ar 31.3.25	111,250	-	-	4,857	3	116,110
Ar 31.3.24	112,500	527	-	6,476	4	119,507

Defnyddir yr holl asedau i bwrpas elusennol.

6. **Dyledwyr** - Symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn

	2025 £	2024 £
Dyledwyr masnachol	11,942	22,752
Talwyd ymlaen llaw	6,000	6,000
	17,942	28,752

7. **Credydwyr** - Symiau'n daladwy ymhen blwyddyn

	2025 £	2024 £
Credydwyr Masnachol	12,728	4,000
Trethiant a nawdd chymdeithasol	8,432	7,908
Costau wedi cronni ac incwm gohiriedig	5,000	5,000
Credydwr Pensiwn	6,141	5,649
	32,301	22,557

8. Trafodion gyda Phartïon Perthynol

Mae'r cwmni yn cael ei reoli gan y Bwrdd a enwir ar dudalen 2. Talwyd costau teithio o £61 i 2 o aelodau'r Bwrdd eleni (2024: £87). Ni chafodd yr Ymddiriedolwyr ffioedd am eu gwaith fel Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn (2024: £dim).

Bu'r prif swyddog yn aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fel cynrychiolydd o'r trydydd sector am gyfnod o dair mlynedd. Ymddiswyddodd ar ddiwedd Chwefror 2019. Mae'r cwmni wedi derbyn cyllid ar gyfer dau gynllun gan y Bwrdd Iechyd eleni, sef Adeiladu Pontydd Cadarn a Presgripsiwn Cymdeithasol/Hwylusydd Iechyd (2024: 2).

9. Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd

Mae'r cwmni yn rhan o gynllun Cyngor Gwynedd, sydd yn gynllun budd. Mae'r prisiad ystadegol yn cael ei wneud gan gyfrifydd proffesiynol. Cafodd y cynllun ei brisio diwethaf ar 31 Mawrth 2022 ond mae diweddariad yn cael ei wneud ar bob pen blwyddyn yn unol â FRS 102. Mae costau'r pensiwn am y cyfnod wedi ei ddangos isod.

Paratowyd adroddiad at bwrpas y cyfrifon yma gan Hymans Robertson:-

Symudiad yn Asedau, Rhwymedigaethau a Diffyg y Cynllun Pensiwn Budd

	Asesau £000	Rhwymedigaethau £000	(Diffyg)Gwarged £000
d/y ar 1.4.24	3,100	1,798	1,302
Cost yn y Datganiad o Symudiadau Ariannol			
Cost gwasanaeth cyfredol	-	27	
Llôg ar asedau'r cynllun	150	-	
Llôg ar rwymedigaethau'r cynllun	-	87	
	150	114	36
Llif Arian			
Cyfraniadau'r aelodau	7	7	-
Cyfraniadau'r cyflogwr	28	-	28
Buddion dalwyd	(39)	(39)	-
Gwerthoedd disgwyliedig	3,246	1,880	1,366
Colledion/Enillion Cydnabyddedig			
Newid yn y rhagdybiaethau ariannol	-	(275)	
Newid yn y rhagdybiaethau demograffig	-	(3)	
Profiadau eraill	-	(16)	
Ad-ennill ar asedau ac eithrio'r swm wedi ei gynnwys fel llôg	(14)	-	
	(14)	(294)	280
c/y ar 31.3.25	3,232	1,586	1,646

9. **Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd - parhad**

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

	31 Mawrth 2025 £000	31 Mawrth 2024 £000
Ecwiti	2,101	1,953
Eiddo	162	217
Arian	678	682
Bondiau	291	248
	3,232	3,100

Asedau Pensiwn Net

	31 Mawrth 2025 £000	31 Mawrth 2024 £000
Asedau'r Cynllun	3,232	3,100
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(1,586)	(1,798)
Gwarged Pensiwn Net	1,646	1,302

Symudiad yn y Gwarged/Diffyg) am y flwyddyn:-	31 Mawrth 2025 £	31 Mawrth 2024 £
Gwarged(Diffyg) d/y	1,302,000	1,013,000
Cost gwasanaeth cyfredol	(27,000)	(29,000)
Cyfraniad y cyflogwr	29,582	28,594
Enillion net ar asedau	61,418	46,406
Enillion/(Colledion) actiwaraidd	280,000	243,000
Gwarged/(Diffyg) c/y	1,646,000	1,302,000

- Mae prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon yn cael ei ariannu trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r ffynhonell ariannu bresennol o fewn y Bwrdd Iechyd yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2024 felly mae yna risg sylweddol i ddyfodol y prosiect oherwydd newyddion fod y Gweinidog Iechyd ym Medi 2023 wedi rhoi holl Fyrddau Iechyd Cymru dan y chwyddwydr o safbwynt cynllunio ag ariannu. Mae yna gystadleuaeth gref am arian i gynnal prosiectau presgripsiwn cymdeithasol ac rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r agenda Presgripsiwn Cymdeithasol a bydd rhaid bod yn barod i ymgeisio o unryw gronfa newydd pan ddaw. Ein mantais mawr ar hyn o bryd yw ein bod wedi gwerthuso y prosiect yn drylwyr ers dros bum mlynedd gan ddefnyddio model mesur gwerth cymdeithasol. Byddwn yn parhau i werthuso yn drylwyr fel ein bod mewn lle da i barhau gyda'r gwaith yma. Methiant fu ein hymgais i ddenu cyllid o Gronfa RIF (Regional Integration Fund) er i ni gael ein hannog gan Swyddog o Cyngor Gwynedd i wneud cais.

- Ar ol cyfnod Covid mae staff wedi dychwelyd i'r swyddfeydd yng Nghaernarfon a Dolgellau ac mae trefniadau gwaith "hybrid" yn eu lle sydd yn sicrhau fod y swyddfeydd ar agor yn ddyddiol ond sydd hefyd yn galluogi staff i weithio hyd at 50% o'u hamser adref. Er bod y trefniadau hyn yn eu lle ers Chwefror 2022 mae y nifer sydd yn "galw'i fewn" i'r swyddfeydd e.e. i chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli, yn parhau yn isel a'r ôl troed cyhoeddus ar y stryd fawr yn gyffredinol hefyd yn isel. Er fod hyn tu hwnt i Mantell fedru gwneud dim amdano bydd yn rhaid ail edrych ar y ffyrdd yr ydym yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd a bydd yn rhaid ail afael mewn ymdrechion i farchnata. Mae Swyddfa Dolgellau yn enwedig wedi bod yn dawel er gwaetha ymdrechion i gynnal hyfforddiant ag amrywiol ddigwyddiadau eraill yno. Bydd rhaid meddwl yn ofalus iawn am ddyfodol yr adeilad yn Nolgellau.

Amcanion a Gweithgareddau, Llwyddiannau a Pherfformiadau

Cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol, annog unigolion i wirfoddoli a bod yn llais cryf i'r trydydd sector yng Ngwynedd yw nod Mantell Gwynedd. Mae'n gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth leol ond yn rhan o rwydwaith o Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n gweithredu drwy Gymru. Daw'r arian craidd i redeg y cwmni oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r mudiad yn ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol i hyn ond i gyd gyda'r un nôd o hyrwyddo gwirfoddoli a'r trydydd sector yng Ngwynedd.

Mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:-

- Hyrwyddo, datblygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli.
- Cynrychioli'r trydydd sector a chydweithio ar bartneriaethau strategol.
- Rhoi cymorth i bobl a mudiadau i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda chyrff cyhoeddus.
- Rhoi cefnogaeth llywodraethol i fudiadau e.e. materion cyfansoddiadol ac ariannol.
- Rhoi cefnogaeth i fudiadau i fesur eu gwerth yn well, yn enwedig gwerth cymdeithasol.
- Gweithredu fel linc ar gyfer cyfeirio unigolion at wasanaethau trydydd sector e.e. Presgripsiwn Cymdeithasol.
- Rhoi cefnogaeth i redeg prosiectau a pheilota prosiectau ar gyfer y trydydd sector pan fo angen.
- Rheoli ffynhonellau grant a rhoi cyngor ar ariannu prosiectau.
- Hybu datblygiad mentrau cymdeithasol a chynaliadwyedd mudiadau.
- Annog datblygiad a chyd-lynu consortia darparwyr trydydd sector.
- Rhannu gwybodaeth gyda'r trydydd sector trwy newyddlenni, bwletinau, taflenni gwybodaeth, y wefan, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddulliau addas eraill.
- Cynnig rhaglen o hyfforddiant i gynorthwyo mudiadau a gwirfoddolwyr yn eu gwaith.
- Cynnig gwasanaethau ymarferol e.e. llogi offer, llogi uned symudol, llungopio, darparu ystafelloedd cyfarfod a gofod swyddfa.
- Cynnig gwasanaeth cyflogres.
- Annog cydweithio ar draws sectorau.

Y prif brosiectau yn y flwyddyn oedd:

Prosiectau Mantell Gwynedd yn ystod 22-23

Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd

Prif rôl Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yw hyrwyddo a dathlu gwirfoddoli, recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr, yn ogystal â chynghori a datblygu arferion da am wirfoddoli.
Pob blwyddyn mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn trefnu ystod o weithgareddau yn ystod 'Wythnos Gwirfoddolwyr' sef wythnos genedlaethol i ddathlu gwirfoddoli.

Yn 2022 dychwelodd uchafbwynt yr Wythnos gyda'n 'Digwyddiad Dathlu a Diolch' a gafodd ei gynnal wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers 2019. Bu oddeutu 100 o unigolion yn Y Galeri yng Nghaernarfon i ddathlu llwyddiannau gwirfoddolwyr Gwynedd, gyda phwyslais ar waith gwirfoddolwyr oedd wedi cefnogi ein cymunedau yn ystod y pandemig.

Yn sgil y rhyfel a chynllun Cartrefi i Wcráin gan Lywodraeth Cymru, croesawyd nifer o deuluoedd ac unigolion i Wynedd. Sefydlodd Mantell Gwynedd rhwydwaith o fudiadau gwirfoddol oedd yn cefnogi'r ymdrech yn lleol ac er mwyn galluogi unigolion i gamu ymlaen i gefnogi'r ffoaduriaid. Daeth rôl y sector wirfoddol yn hollbwysig trwy ddarparu cefnogaeth ymarferol i'r ymdrech a gwelwyd nifer o grwpiau a chymunedau ar draws Gwynedd yn trefnu digwyddiadau a recriwtio gwirfoddolwyr.

Un o brif themâu ar ddiwedd y flwyddyn oedd yr argyfwng costau byw. Daeth pwysau enfawr ar fywydau unigolion yn yr Hydref ac i'r Gaeaf, a gwelwyd unwaith yn rhagor rôl allweddol y trydydd sector wrth i bobl geisio am gyngor a chymorth. Trefnodd y Ganolfan Wirfoddoli chwe gweithdy gyda'r nod o hyfforddi gwirfoddolwyr cymunedol gyda'r wybodaeth diweddaraf o'r cefnogaeth sydd ar gael fel eu bod yn medru cefnogi eraill o fewn eu cymunedau.

Mae Mantell Gwynedd yn parhau i weinyddu Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd sy'n cael ei redeg gan banel o bobl ifanc. Y syniad tu ôl i'r model yma o roi pobl ifanc mewn rheolaeth o'r gronfa yw er mwyn rhoi sgiliau newydd iddynt ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, fe gefnogwyd gwirfoddolwyr o Ysgol Dyffryn Nantlle fel aelodau o'r panel grant. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rhithiol a dyrannwyd £5,322 i 7 o brosiectau er mwyn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc yng Ngwynedd.

Meddai Dylan Evans, gafodd gefnogaeth Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd:
"Ers i mi ddechra gwirfoddoli dwi wedi sylwi fy mod yn llawer mwy hyderus ac eisiau trio pethau newydd. Wnes i rioed feddwl y buaswn yn mwynhau a gweld newid yn fy hun. Mae gwirfoddoli wedi helpu lot a dwi'n edrych mlaen medru dechrau yn Boston Lodge yn Porthmadog".

Prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon

Mae presgripsiwn cymdeithasol yn galluogi meddygon teulu, nyrsus a gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes gofal sylfaenol i gyfeirio unigolion at amryw o wasanaethau lleol sydd ddim yn wasanaethau clinigol. Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol yn yr agenda ataliol e.e. codi ymwybyddiaeth am sgrinio, atal codymau a hybu cyrsiau iechyd a lles.

Dull sydd yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion mewn modd mwy holistig ydyw a'u hannog i gael gwell gafael ar eu llesiant a'u hiechyd eu hunain. Mae gweithgareddau Presgripsiwn Cymdeithasol yn gallu bod yn amrywiaeth enfawr o bethau ond, ar y cyfan, gweithgareddau ydynt sydd yn cael eu darparu gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol.

Mae sawl model gwahanol o Bresgripsiwn Cymdeithasol ond mae'r rhan fwyaf yn fodelau sydd yn cynnwys Swyddog Cyswllt Cymunedol sy'n derbyn cyfeiriadau a wedyn yn gweithio gyda'r unigolion i adnabod cyfleoedd addas ar eu cyfer. Mae Mantell Gwynedd mewn lle unigryw i ddarparu gwasanaeth Presgripsiwn Cymdeithasol gan ein bod yn gorff ymbarel trydydd sector gyda chronfa ddata enfawr o fudiadau a gan nad ydym yn darparu gwasanaeth rheng flaen ein hunain nid oes unrhyw wrthdaro wrth i ni gyfeirio unigolion at wasanaethau.

Prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon - parhad

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ers i'r prosiect gychwyn ym 2016 mae 1520 o unigolion wedi eu cefnogi trwy'r prosiect.

Yn ystod 2022-23 mae 171 o unigolion wedi eu cefnogi. Dyma oedd gan rai gafodd gefnogaeth I'w ddweud am y prosiect a'r gwasanaeth :

Dywedodd Mr A

"Roeddwn eisiau i chi wybod fod fy mywyd yn ôl mewn trefn rwan. Roeddwn yn fregus dros ben pan gysylltodd fy Meddyg Teulu hefo chi. 'Rwy'n hynod ddiolchgar i chi am droi fy mywyd rownd"

Dywedodd Mrs B

"Dwi mor falch fod hyn wedi cael ei ddatrys. Mae wedi bod yn gyfnod pryderus iawn i mi ac 'rwy'n ddiolchgar i chi am fy nghefnogi fi unwaith eto "

Prosiect Codi Pontydd Cadarn / Llesiant

Mae prosiect Codi Pontydd Cadarn yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ag yn galluogi Mantell Gwynedd i gyflogi Hwylusydd Llesiant llawn amser.

Mae'r swydd yn sicrhau pont rhwng y gwasanaeth iechyd a'r mudiadau trydydd sector sydd yn darparu gwasanaethau yn y maes iechyd a llesiant.

Mae'r Hwylusydd yn

- hwyluso cyfarfodydd a chefnogi fforymau a gweithdai
- codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddylanwadu
- sicrhau perspectif mudiadau trydydd sector mewn cyfarfodydd parteriaeth a digwyddiadau eraill
- cynnal cyfres o Rwydweithiau trwy'r flwyddyn

Yn ystod 2022-23 cynhaliwyd pump cyfarfod Rhwydwaith Llesiant a Gwirfoddoli gyda phynciau amrywiol a pherthnasol yn cael eu trafod.

Ymgysylltwyd gyda thros 400 o fudiadau yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ystod y flwyddyn bu i'r Hwylusydd Iechyd a Llesiant gyfrannu at strategaeth Tlodi Plant yng Nghymru gan hwyluso digwyddiad ar y cyd gyda Ynys Môn. Ymgysylltwyd gyda thros 80 o fudiadau er mwyn sicrhau fod llais mudiadau trydydd sector yn cael lle canolog wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant yng Nghymru.

Ym mis Hydref 2022 cynhliwyd digwyddiad Iechyd Da yn Nolgellau a bu i dros 200 o unigolion fynychu'r digwyddiad. 'Roedd yn gyfle i fudiadau ddod at ei gilydd ac i aelodau'r cyhoedd ganfod gwybodaeth am wasanaethau yng Ngwynedd.

'Roedd adborth o'r digwyddiad yn cynnwys:

"*Roedd rhwydweithio gydag asiantaethau eraill yn ddefnyddiol ac rydym wedi mwynhau cynghori pobl hŷn am ein gwasanaethau"*
Wendy , Age Cymru

"Defnyddiol iawn i rannu syniadau"
Melissa, Small Woods

"Cawsom sgyrsiau difyr iawn gyda mynychwyr"
Julie, British Liver Trust

Prosiect Social Value Cymru

Bu i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 osod seiliau cadarn i'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol trwy ofyn i sectorau (cyhoeddus, preifat a thrydydd sector) i weithio'n wahanol. I wneud hynny 'roedd angen meddwl beth oedd y pethau pwysig oedd angen eu mesur a'u rheoli. Dim ond trwy ddeall gwerth cymdeithasol y gallwn wir fynd ati'n effeithiol tuag at reoli y modd yr ydym yn creu llesiant.

Erbyn hyn mae egwyddorion gwerth cymdeithasol wedi eu hatgyfnerthu yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Nod y Ddeddf yma yw gweithio gyda'n gilydd i wella'r dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yng Nghymru. Bydd mesur gwerth cymdeithasol yn greiddiol i'r cyfan.

Ers 2016 mae Mantell Gwynedd wedi bod yn cyflawni gwaith arloesol yn y maes mesur gwerth cymdeithasol. Dros gyfnod o saith mlynedd mae'r tim wedi datblygu i fod yn dri aelod sydd wedi cymhwyso trwy Social Value UK fel ymarferwyr achrededig yn y maes.

Ym 2019 enillodd Mantell Gwynedd farc ansawdd cenedlaethol am wreiddio gwerth cymdeithasol yn ei holl waith. Dyma'r tro cyntaf i gorff ymbarel ennill marc ansawdd o'r math yma. Yn ddiweddarach yn 2020 derbyniodd Mantell Gwynedd wobr gan Social Value UK am ei waith yn gweithio mewn Partneriaeth i gynyddu gwerth cymdeithasol. Bellach, mae un o'r tim Social Value Cymru gyda statws Hyfforddwr Rhyngwladol ac yn darparu hyfforddiant ar gyfer mudiadau ar draws y byd.

Mae Tim Social Value Cymru, Mantell Gwynedd yn gallu cynnig amrediad eang o wasanaethau yn y maes mesur gwerth cymdeithasol gan gynnwys adroddiadau SROI llawn a hyfforddiant wedi ei deilwro ar gyfer mudiadau unigol.

Dyma oedd gan rai i ddweud am y gwasanaeth maent wedi ei dderbyn gan Social Value Cymru :
Roedd gweithio gyda Social Value Cymru yn brofiad positif iawn i ni yn GISDA. Mae'r wybodaeth a'r casgliadau wedi agor ein llygaid a gwneud i ni adlewyrchu a sylweddoli gwerth ein gwaith yn fwy....buasem yn annog unryw un i fynd trwy'r broses yma"

Sian Tomos , Prifweithredwraig GISDA

"We see Social Value as a major vehicle for change and improvement driven from the base up via our stakeholders and staff. Training all our staff has already brought a clear focus on our core themes through value maps. This wouldn't have been possible without the guidance and support of Mantell Gwynedd "

Social Value Champion and member of the Board of Directors, Y Bartneriaeth Awyr Agored.

Prosiect Maes Ni

Ers 2018 mae Mantell Gwynedd wedi cyflogi Swyddog Datblygu Cymunedol yn Maesgeirchen sydd wedi gweithio'n agos hefo'r gymuned er mwyn adnabod blaenoriaethau ac ehangu ar weithgareddau o fewn y gymuned.

Trwy gyflogi Gweithiwr Datblygu Cymunedol mae Mantell Gwynedd wedi medru darparu cefnogaeth barhaus i'r prosiect a'r gymuned.

Mae prosiect MaesNi yn cael ei ariannu gan y Rhaglen Buddsoddi'n Lleol a ariennir gan y Loteri Fawr ac a reolir gan Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau.

Mae'r rhaglen Buddsoddi'n Lleol yn gweithredu mewn 13 o gymunedau ar draws Cymru gyfan ac mae'n cynnig cyfle i bobl yn y cymunedau hynny eu gwneud yn llefydd gwell a mwy dymunol i fyw ynddynt.

Prosiect Maes Ni - parhad

Yn ystod y flwyddyn mae'r Gweithiwr Datblygu Cymunedol wedi chwarae rhan bwysig yn y datblygiadau canlynol :

- Helpu sicrhau cynrychiolaeth ar Grwp Llywio MaesNi
- Cefnogi grwpiau er mwyn i'r grwpiau rheiny wedyn ddechrau cefnogi ei gilydd
- Gweithio gyda Caffi Hive sydd yn paratoi hyd at 70 o brydau bwyd yn wythnosol ac yn tyfu llawer o'u cynnyrch eu hunain trwy'r Clwb Garddio
- Helpu gyda'r astudiaeth dichonoldeb a sgopio ar gyfer Canolfan Gymunedol newydd
- Helpu gyda'r gwaith o drosgwlyddo adeilad y Clwb Ieuenctid o Cyngor Gwynedd i'r gymuned
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu MaesNi yn ffurfiol fel endyd er mwyn rhedeg adeiladau
- Gweithio gyda'r gymuned a "Reconnection Tour" y Grassroots Advsiory Network a chymryd rhan mewn "Policy Summit" gydag 16 o gymunedau ledled Prydain ar thema costau byw
- Cydweithio gyda ICAN yn MaesNi er mwyn integreiddio cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant yn y gymuned gyda chyfleon tymor hir i ymuno â grwpiau a bod yn rhan o gymuned
- Cefnogi'r HWB ac adeiladu ar gefnogaeth gymunedol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- Helpu gyda chael dros £100,000 o arian grant ychwanegol i mewn I'r gymuned tuag at weithgareddau a phrosiectau gwahanol

Prosiect Compassionate Cymru

Yn 2018, nododd Llywodraeth Cymru ei ddyhead i Gymru ddod yn 'wlad dosturiol' gyntaf y byd. Ers hynny mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ledaenu'r ymagwedd dosturiol ledled Cymru.

Gweledigaeth Cymru Garedig yw bod yn genedl ystyriol a gofalgar sy'n dod ynghyd i ddatblygu dulliau tosturiol i gefnogi iechyd a lles pobl. Mae Cymru Garedig yn gweithio gydag unigolion, sefydliadau a chymunedau i wella sut mae pobl yng Nghymru yn marw, yn gofalu ac yn galaru.

Nôd Cymru Garedig yw helpu pobl i gyrchu a chynnig gwybodaeth, gofal a chefnogaeth mewn modd tosturiol yn eu cymunedau. Mae yn canolbwyntio'n benodol ar ofal a chefnogaeth ar ddiwedd oes pobl, pryd bynnag y bydd hynny'n digwydd.

Mae Mantell Gwynedd yn falch o fod yn rhan o'r datblygiad unigryw yma a thrwy gydweithrediad gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhawyd y cyllid angenrheidiol i gyflogi Swyddog Compassionate Cymru sydd yn cael ei chyflogi gan Mantell Gwynedd ac yn gweithio ar draws Gwynedd, Môn a Chonwy.

Prif waith y Swyddog yw :

- Hyrwyddo agweddau tosturiol
- Cefnogi rhwydweithiau lleol sydd yn hyrwyddo agweddau tosturiol
- Mapio gwasanaethau gofal diwedd oes a gwasanaethau galar a chreu Map Gwasanaeth gyda'r bwriad o fynd ati i geisio llenwi bylchau gwasanaeth sydd wedi eu hadnabod. Bydd hyn yn ei dro yn ceisio sicrhau gwasanaeth diwedd oes cyflawn ac addas o fewn ein cymunedau.
- Cefnogi mannau gwaith i fabwysiadu polisïau ar gyfer cefnogi unigolion sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd sy'n lleihau bywyd a chefnogi unigolion sy'n delio gyda marwolaeth a phrofedigaeth

Yn ystod 2022- 2023 mae'r Swyddog wedi cysylltu gyda sefydliadau ar draws Cymru er mwyn adnabod pa wasanaethau gofal a chefnogaeth diwedd oes sydd ar gael i blant, pobl ifanc ac oedolion yng Ngwynedd, Conwy ac Ynys Môn. Bellach mae Cyfeirlyfr cynhwysfawr wedi ei greu sydd yn cynnwys holl fanylion yr amrywiol wasanaethau.

Yn dilyn cwblhau'r cyfeirlyfr, a chyda trafodaethau pellach yn parhau i gael eu cynnal, mae bylchau cychwynnol mewn gwasanaeth wedi eu hadnabod. Un enghraifft o adnabod bwlch mewn gwasanaeth a gweithio gyda'r gymuned i'w lenwi yw Caffi Colled, Bethesda.

Gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd

Ers rhai blynyddoedd bellach mae Mantell Gwynedd yn darparu gwasanaeth cyflogres ar gyfer mudiadau trydydd sector yng Ngwynedd.

Gall materion ariannol a chyflogaeth fod yn gymhleth i fudiadau bychan sydd yn aml yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

Mae'r gwasanaeth cyflogres yn rhoi sicrwydd i fudiadau o daliadau a gweithdrefnau cywir ac yn golygu fod na rywun ochor arall i'r ffôn i gynnig cymorth a chefnogaeth fel bo angen.

Dyma sydd gan rai o'r mudiadau i ddweud am y gwasanaeth cyflogres maent wedi ei dderbyn :

Mae'r gwasanaeth paratoi cyflogau yn fudd mawr i ni fel cwmni, mae'n lleihau y baich o baratoi'r cyflogau yn fisol, ac rydym yn gwybod fod y manylion yn gywir bob amser. Nid ydym wedi cael dim trafferthion o gwbl wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn gan Mantell Gwynedd, ac yn ddiolchgar iawn i'r staff sydd ben arall y ffôn bob amser i ateb unrhyw gwestiwn sydd ganddom. Pum Plwy' Penllyn

Mae cael Mantell i baratoi cyflogau wedi bod o fudd i'n gwasanaeth ni. Mae cysylltiad agos gyda'r adran cyflogau ac maent yna o hyd i helpu. Clwb Plant Segontiwm

Mae'r gwasanaeth o fudd mawr i ni fel Cylch Meithrin. Mae'n wasanaeth hollol ddidrafferth ac mae'r Swyddogion yn barod bob amser i gynghori a rhoi arweiniad. Mae hyn yn bwysig iawn i Drysoryddion sy'n wirfoddolwyr ac yn aml heb unrhyw brofiad o dalu cyflog a delio gyda Chyllid y Wlad. Trwy ddefnyddio'r gwasanaeth mae rhywun yn dawel ei feddwl bod y prosesau cywir wedi cael eu dilyn.
Delyth Jones, Cylch Meithrin Talysarn

Mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wedi defnyddio gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd i baratoi y cyflogau ers bron i ddeng mlynedd ac wedi ei gael yn hynod o werthfawr.
Mae'r gofynion ar Swyddog Ariannol yn cynyddu o hyd ac mae gwybod bod rhywun yr ochr arall i e-bost neu ffôn i gynorthwyo gydag ymholiad am y cyflogau yn gymorth mawr.
Parod iawn yw staff Mantell Gwynedd i roi'r cymorth unrhyw amser a diolch iddynt i gyd.
Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Gweinyddu Grantiau

Mae gan Mantell Gwynedd hanes hir o reoli a gweinyddu cronfeydd grantiau. Dyma enghraifft o ddwy gronfa weinyddwyd yn ystod y flwyddyn :

- Grant Unigrwydd ac Ynysigrwydd

Ym mis Chwefror 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth gyntaf ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd. Sefydlwyd Cronfa Unigrwydd er mwyn helpu i greu mwy o gyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd.

Derbyniodd Mantell Gwynedd £20,000 er mwyn ei ddyrannu yng Ngwynedd yn ystod 2022-23.
Derbyniodd 13 o fudiadau arian o'r Gronfa

- Cronfa Grant Croeso Cynnes

Yn ystod 2022 bu i Lywodraeth Cymru ehangu'r gefnogaeth ar gyfer unigolion a theuluoedd yn ystod cyfnod o greisis costau byw.

Gan gydnabod ei bod yn amser anodd i lawer bu i'r Llywodraeth roi £1m ar gyfer Cymru gyfan er mwyn darparu lleoliadau cymunedol cynnes a chysurus. Roedd yn ran o becyn ehangach Lywodraeth Cymru i gynnig cefnogaeth mewn cyfnod oedd yn un heriol i lawer.

Gweinyddu Grantiau – parhad

Derbyniodd Mantell Gwynedd £45,000 i'w ddosbarthu fel cronfa grant ar gyfer mudiadau yng Ngwynedd.

Bu i 19 o fudiadau yng Ngwynedd gael budd o'r Gronfa Croeso Cynnes gan ddarparu gofod cynnes a chroesawus ar gyfer y gymuned.

Yn 2023-24 bydd Mantell Gwynedd yn gweinyddu £1.5m o Gronfa Grant Sector Wirfoddol fel rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Adolygiad Ariannol

Mae'r elusen wedi gwneud diffyg o £45,274 y flwyddyn hon (2022: diffyg £47,632) cyn addasu am y cynllun pensiwn budd. Manylir mwy am y cronfeydd a'r cynllun pensiwn budd yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Polisi'r elusen ynglŷn â'r cronfeydd wrth gefn

Mae Mantell Gwynedd yn cydnabod ac yn derbyn ei gyfrifoldebau fel elusen a chyflogwr i ddiogelu eu dichonoldeb ariannol a pharhad y mudiad. Yn ôl canllawiau arfer dda'r Comisiwn Elusennau, cytunwn fod arian yn cael eu clustnodi i gronfa wrth gefn.

Pwrpas y gronfa fydd:-

- I sicrhau llif arian (gwarchod rhag oediad derbyn arian refeniw);
- I warchod rhag unrhyw ddigwyddiad annisgwyl;
- I roi cyfle i ddenu/adnabod ffynonellau ariannol newydd pe bai ffynonellau presennol yn cael eu cwtogi;
- I sicrhau pe bai ariannu yn dod i ben, bod y mudiad yn gallu cwblhau ei ymrwymiadau ariannol a chyfreithiol wrth ddirwyn i ben.

Bydd lefel y gronfa wrth gefn yn cael ei hadolygu yn flynyddol gan y Bwrdd. Oni bai cytunir yn wahanol bydd y cwmni yn cadw o leiaf dau fis o gostau rhedeg y mudiad, a cheisio i gynyddu'r gronfa i swm sydd yn gyfartal i 4 mis o gostau rhedeg. Mae dadansoddiad o'r cronfeydd a sefyllfa'r cynllun pensiwn budd yn nodyn 11 o'r cyfrifon.

Cynlluniau i'r Dyfodol

- Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sef ein cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae Mantell Gwynedd yn un o aelodau o'r Bartneriaeth Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi'r sector a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Bydd Mantell Gwynedd yn cyflawni'r Cytundeb trwy ddarparu cefnogaeth mewn pedwar maes, sef Llywodraethu Da, Gwirfoddoli, Cyllid Cynaliadwy ac Ymgysylltu a Dylanwadu.

- Rhoddodd COVID-19 ffocws newydd ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac ar draws sectorau. Byddwn yn parhau i gyd weithio mewn partneriaeth er lles poblogaeth Gwynedd ac yn gobeithio bydd y partneriaethau rheiny yn parhau i ffynnu a thyfu.

- Trwy ein prosiect Social Value Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Trwy'r gwaith hwn rydym yn gallu dangos sut yr ydym fel sector yn datgloi potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, bydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar gyrff cyhoeddus ac yn sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol trwy gadwyni cyflenwi. Mae hwn yn gam allweddol wrth i waith Social Value Cymru ddatblygu.

- Byddwn yn ceisio ymestyn ein gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod mudiadau'r trydydd sector yn cael y cyfle i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu cefnogaeth i unigolion sydd heb anghenion clinigol. Gobeithiwn uchafu potensial mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu i'r agenda llesiant wrth wneud hyn, a thrwy hynny, yn gwireddu potensial Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn rhoi'r trydydd sector wrth galon darparu a chynllunio gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fesur gwerth cymdeithasol y prosiect er mwyn darparu tystiolaeth o'r angen am wasanaethau trydydd sector.

- Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd ymarferol o gefnogi'r trydydd sector i gydymffurfio gyda safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a byddwn yn manteisio ar bob cyfle posibl i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y trydydd sector, yn enwedig yn y maes Gwirfoddoli gan adeiladu ar y gwaith da mae Mantell Gwynedd eisioes wedi arwain arno.

- Byddwn yn gweithio gydag phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r agenda newid hinsawdd a hyrwyddo ymarfer da o fewn y sector.

- Wrth i'r wlad wynebu heriau economaidd aruthrol byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r creisis costau byw.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried adroddiad y Comisiwn Elusennau ynglŷn â Budd i'r Cyhoedd ac maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r prawf hwnnw.

Polisi ac Amcanion Buddsoddiadau

Yn unol â'r Memorandwm ac Erthyglau y mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pwêr i fuddsoddi pan maent yn credu fod y buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol gweladwy.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o Mantell Gwynedd Cyf. at bwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r adroddiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (UK GAAP).

Mae cyfraith cwmni yn ei wneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi Adroddiadau Ariannol am bob cyfnod ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac o incwm a gwariant y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu gweithredu yn gyson;
- dilyn egwyddorion a gweithdrefnau sydd yn y SORP elusennau (SORP 2019 (FRS 102));
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifo sydd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan os yw Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig berthnasol wedi eu dilyn, yn amodol i unrhyw newid materol sydd wedi eu datguddio a'u hegluro yn yr Adroddiadau Ariannol, a
- paratoi adroddiadau ariannol ar sail bod y busnes yn parhau oni bai nad yw yn addas i gymeryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac i'w galluogi i sicrhau bod yr Adroddiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedion y cwmni elusennol a thrwy hynny cymeryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cyn belled a bod yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:-

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohono, ac
- y mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymeryd y camau sy'n ddyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn hysbys o unrhyw wybodaeth fyddai'n berthnasol i'r archwiliad, ac i sicrhau fod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hynny.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gofal a chywirdeb yr wybodaeth corfforedig ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar safle wê y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli, paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodau eraill.

Trwy orchymyn y bwrdd ar Hydref 9fed 2023

..... Bethan Russell Williams (Ysgrifennydd)

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU

MANTELL GWYNEDD CYF.

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Mantell Gwynedd Cyf. am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth, 2023 sydd yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol yn cynnwys crynodeb o'r polisiau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith ar gyfer Adroddiadau Ariannol sydd wedi ei ddefnyddio wrth baratoi'r cyfrifon yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (UK GAAP)

Yn ein barn ni mae'r cyfrifon:-

- yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg, o gyflwr ariannol y cwmni elusennol ar 31 Mawrth, 2023 a'r adnoddau mewnol ac adnoddau a ddefnyddiwyd, yn cynnwys ei incwm a gwariant am y flwyddyn;

- wedi eu paratoi yn gywir yn unol ag Egwyddorion Cyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig; ac

- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail i'r farn roddwyd

Gwnaethpwyd yr archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Gyfunol) (ISAs (UK)) a'r gyfraith perthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu manylu'n bellach yn y datganiad am gyfrifoldebau'r archwilwyr yn ein hadroddiad. Yr ydym yn annibynnol yn unol â gofynion moesegol y Deyrnas Gyfunol sydd yn berthnasol i'n archwiliad o'r cyfrifon, yn cynnwys Safonau Moesegol y FRC, ac yr ydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hynny. Yr ydym o'r farn fod y dystiolaeth gasglwyd yn briodol ac yn ddigonol i'n gallugoi i ffurfio barn.

Casgliadau yn ymweud a sail busnes byw

Wedi archwilio'r cyfrifon yr ydym wedi dod i'r canlyniad ei bod yn briodol i'r ymddiriedolwyr baratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Yn seiliedig ar y gwaith wnaethpwyd, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol fyddai, yn unigol neu ar y cyd , yn creu amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i hawlio sail busnes byw am o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad pryd mae'r cyfrifon yn cael eu awdurdodi.

Mae ein cyfrifoldebau fel archwilwyr a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr yn ymwneud â sail busnes byw wedi ei fanylu yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad.

Gwybodaeth Ychwanegol

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am yr wybodaeth ychwanegol, sydd yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiadau ariannol, ac eithrio'r cyfrifon a'n adroddiad. Nid ydyw ein barn ar yr adroddiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth ychwanegol hwn, arwahan ein bod yn manylu hynny yn ein hadroddiad, ac felly nid ydym yn datgan unrhyw farn arno. Yng nghyswllt ein archwiliad o'r adroddiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ydyw i ddarllen yr wybodaeth ychwanegol ac ystyried os ydyw'n faterol wahanol i'r adroddiadau, neu'r wybodaeth yr ydym wedi ei gasglu yn ystod yr archwiliad, neu ei fod yn ymddangos wedi ei gam ddatgan. Os ydym yn darganfod unrhyw anghysondeb neu gamddatganiad materol, y mae'n gyfrifoldeb arnom i asesu os ydyw'n gamddatganiad yn yr adroddiadau ariannol neu'r wybodaeth ychwanegol. Os yr ydym yn casglu fod camddatganiad yn yr wybodaeth ychwanegol mae'n ofynnol arnom i ddatgan hynny. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth i'w ddatgan yn y cyswllt hwn.

Barn ar fater arall a argymhellir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr yn unol â chyfraith cwmni) am y flwyddyn ariannol yn gyson gyda'r Adroddiadau Ariannol, ac wedi ei baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Yng nghyswllt ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r cwmni elusennol, nid ydym wedi darganfod unrhyw gam ddatgeliadau materol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn ôl ynglŷn â'r materion canlynol, ble mae'n ofynnol i ni adrodd i chwi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, os yn ein barn ni:-

- nad yw cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw na dogfennau digonol ar gyfer ein harchwiliad wedi eu derbyn gan y safleoedd nad ydym wedi ymweld â hwy;
- nid yw'r Datganiadau Ariannol yn cytuno gyda'r cofnodion cyfrifo na'r dogfennau;
- nid yw datgeliadau o daliadau i'r Ymddiriedolwyr sy'n ofynnol i'w ddatgelu yn ôl y gyfraith wedi eu gwneud;
- nid ydym wedi derbyn y cyfan o'r wybodaeth a'r esboniadau yr oedd eu hangen er mwyn gwneud yr archwiliad; neu
- nad oedd gan yr Ymddiriedolwyr yr hawl i baratoi'r cyfrifon yn unol â threfniadau cwmnïau bychain na chymeryd mantais o ryddhadau cwmni bychain wrth baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a pheidio paratoi adroddiad strategol.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel sydd wedi ei esbonio yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr (ar dudalen 11), mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr y Cwmni Elusennol ar gyfer pwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiadau Ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi golwg cywir a theg.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr - parhad

Maent hefyd yn gyfrifol am ffurfio rheoliadau mewnol er mwyn sicrhau fod yr Adroddiadau Ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiad materol, boed hynny yn sgil camgymeriad neu dwyll.

Wrth baratoi'r adroddiadau mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau ar sail busnes hyfyw, neu ddatgelu gwybodaeth i'r gwrthwyneb os yn berthnasol.

Cyfrifoldebau'r Archwilwyr

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon a bodloni ein hunain eu bod yn rhydd o unrhyw gamddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu anghysonderau eraill, a chyhoeddi adroddiad sydd yn cynnwys ein barn. Ni allwn sicrhau y bydd archwiliad sydd wedi ei wneud yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Gyfunol) yn darganfod camddatganiad materiol ym mhob achos. Gall camddatganiad ddigwydd ohewydd twyll neu anghysondeb arall, a caiff ei ystyried yn faterol os, yn unigol, neu mewn cyfanswm, y byddai'n ddigonol i ddylanwadu penderfyniadau sydd wedi eu selio ar y cyfrifon hyn.

Yr ydym wedi cynllunio'r archwiliad i gyd fynd â'r cyfrifoldebau uchod er mwyn adnabod camddatganiadau materol o ganlyniad i anghysonderau neu dwyll.

Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod anghysonderau, yn cynnwys twyll:

Mae anghysonderau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag anghysonderau, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol ar gael i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys
- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol trwy drafodaethau â'r ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithgareddau'r Cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmniau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac amgylcheddol.
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gyda'r rheolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol,a
- Cyfleu y deddfau a rheoliadau a nodwyd o fewn y tim archwilio yn rheolaidd gan sicrhau ymwybyddiaeth gyson drwy'r archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y Cwmni i gamddatganiad materol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:

- Wneud ymholiadau ynglyn â'r tueddiad i dwyll, gwybodaeth am dwyll gwirioneddol, amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn a diystyru rheolaethau, rydym yn:

- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;

Gweithdrefnau – parhad

- Asesu a oedd dyfyrniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl,
- Ymchwilio i'r rhesymeg tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin

Mewn ymateb i'r risg o anghysonderau a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cytuno datgeliadau'r datganiadau ariannol i ddogfennau atebol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethau;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu'r gohebiaeth â Chyllid a Thollau EF, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y Cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio ddisgrifiwyd uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol ydyw y byddwn yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad gan fod bosib iddynt gynnwys elfen o guddiad neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Mae mwy o wybodaeth am gyfrifoldebau archwilwyr ar gael ar safle wê y Financial Reporting Council (FRC) (www.frc.org.uk/auditors/audit-assurance/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n adroddiad.

Defnydd o'r adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r cwmni yn unig yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Gwnaethpwyd y gwaith archwilio er mwyn ein galluogi i adrodd yr hyn yr oedd cyfrifoldeb arnom i gynnwys yn Adroddiad yr Archwilydd yn unig, ac i ddim pwrpas ychwanegol. Hyd eithaf yr hyn ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymeryd cyfrifoldeb i unrhyw gorff yn ychwanegol i'r cwmni a'r aelodau am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad a'r farn a ffurfiwyd gennym.

Iona Hughes
Prif Archwiliwr Statudol
Dros ac ar ran:
OWAIN BEBB A'I GWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
ARCHWILWR STATUDOL

32 Y MAES
CAERNARFON

19.12.23

MANTELL GWYNEDD CYF.

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL

(DATGANIAD CYNHWYSFAWR O INCWM A GWARIANT)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Incwm a gwaddolion o:					
Rhoddion					
Incwm gwirfoddol	2	246584	-	246584	215025
Weithgareddau elusennol					
Cefnogi'r Trydydd Sector	2	113567	241104	354671	527802
Llôg banc		2238	-	2238	1348
Cyfanswm		362389	241104	603493	744175
Gwariant ar weithgareddau elusennol					
Cefnogi'r Trydydd Sector	2	407963	240804	648767	791807
Cyfanswm		407963	240804	648767	791807
Incwm Net cyn enillion a cholledion cydnabyddedig		(45574)	300	(45274)	(47632)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		-	-	-	-
		(45574)	300	(45274)	(47632)
Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill					
Enillion/(colledion) actiwaraidd ar gynllun pensiwn budd	9	841000	-	841000	415000
Symudiadau yn y cronfeydd		795426	300	795726	367368
Cyfanswm cronfeydd d/y		965871	44973	1010844	643476
Cyfanswm cronfeydd c/y	11	1761297	45273	1806570	1010844

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae Cyfarwyddwyr y cwmni yn dymuno tynnu sylw at y ffaith fod y gronfa bensiwn wedi dylanwadu ar y ffigyrau ariannol terfynol. Maent yn awyddus i nodi fod sefyllfa Cronfa Bensiwn Gwynedd tu hwnt i reolaeth y cwmni.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 30 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

MANTELL GWYNEDD CYF.

DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL

AR 31 MAWRTH 2023

	Nodyn	2023 £	2022 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau Gweladwy a ddefnyddir gan yr Elusen	5	123094	116000
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	6	16861	87331
Arian yn y banc ac mewn llaw		673567	641926
CYFANSWM ASEDAU CYFREDOL		690428	729257
CREDYDWYR: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	(19952)	(24413)
ASEDAU CYFREDOL NET		670476	704844
Cyfanswm asedau llai credydwyr cyfredol		793570	820844
Ased/Rhwymedigaeth cynllun pensiwn budd	9	1013000	190000
ASEDAU NET YN CYNNWYS CYNLLUN PENSIWN		1806570	1010844
CRONFEYDD			
Cronfeydd Anghyfyngedig	11		
- Cronfa Gyffredinol		685338	675287
- Cronfa Benodol		62959	100584
- Cronfa Pensiwn		1013000	190000
Cronfa Gyfyngedig	11	45273	44973
CYFANSWM CRONFEYDD		1806570	1010844

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Bwrdd ac arwyddwyd ar eu rhan ar Hydref 9fed 2023 gan:-

G. Griffith ..... Gwen Griffith (Cyfarwyddwr)

Rhif Cofrestredig 3420271

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 30 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

MANTELL GWYNEDD CYF

DATGANIAD LLIF ARIAN

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

	2023 £	2022 £
Llif arian o weithgareddau gweithredol (datganiad o symudiadau ariannol)	795726	367368
Addasu am		
Dibrisio	4366	1585
Llogau dderbyniwyd	(2238)	(1348)
	797854	367605
Newid yn y:		
Dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill	70470	(75543)
Credydwyr masnachol a chredydwyr eraill	(4461)	1518
Cynllun pensiwn budd	(823000)	(387000)
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	40863	(93420)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Pryniant asedau sefydlog	(11460)	(-)
Llôg dderbyniwyd	2238	1348
Llif arian net o weithgareddau yn y cyfnod	31641	(92072)
Newid net mewn arian a'r hyn sydd yn cyfateb i arian	31641	(92072)
Ar gychwyn y flwyddyn	641926	733998
Ar ddiwedd y flwyddyn	673567	641926

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 30 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

MANTELL GWYNEDD CYF.

NODIADAU I'R CYFRIFON

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

1. **Polisïau Cyfrifo**
Gwybodaeth Gyffredinol

Mae'r elusen yn gwmni cyfyngedig preifat heb gyfranddaliadau wedi ei gofrestru yng Nghymru, ac yn elusen gofrestredig yng Nghymru. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw 25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd.

Y mae'r elusen yn cwrdd a diffiniad FRS 102 o endid sydd yn rhoi budd i'r cyhoedd.

Sail Cyfrifo/Datganiad Cydymffurfio
Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi o dan y ddefod cost hanesyddol a'r Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a'r SORP FRS102 ar gyfer elusennau a'r Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi mewn sterling, sef arian swyddogaethol y cwmni elusennol.

Busnes Hyfyw
Ym marn yr ymddiriedolwyr nid oes unrhyw ansicrwydd ynglyn â gallu'r elusen i barhau mewn busnes.

Dyfarniadau a phrif ansicrwydd parthed amcangyfrifon
Wrth baratoi'r Adroddiadau Ariannol mae'n ofynnol gwneud dyfarniadau, amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y ffigyrau a roddwyd. Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau yma yn cael eu hadolygu'n gyson ac maent wedi eu selio ar brofiad o ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau a digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Dibrisio/Amhariad gwerth asedau sefydlog
Mae'r asedau sefydlog wedi eu dangos yn ôl eu cost (ble mae'r gost yn fwy na £1000) a'u dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ar y graddfeydd canlynol:-

Tir ac Eiddo	- 1% pob blwyddyn
Offer Cyffredinol	- 25% pob blwyddyn
Offer Cyfrifiadurol	- 25% i 33% pob blwyddyn

Cynhelir adolygiad blynyddol ar gyfer adnabod unrhyw nam ar werth yr asedau sefydlog, a pan fo'r gwerth yn fwy na'r swm y gellir ei adennill gwneir cofnod cyfrifo o'r amhariad. Adolygir unrhyw amhariad blaenorol a'i wrthdroi os yn berthnasol.

Cyfrifo ar gyfer y cronfeydd
Mae'r cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu nôd elusennol y cwmni.

Mae cronfeydd penodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu clustnodi gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer pwrpas penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi eu cyfyngu yn ôl eu defnydd i gynlluniau priodol yn unol ac amodau'r arianwyr.

Incwm
Mae'r holl incwm yn cael ei gynnwys yn y datganiad o symudiadau ariannol pan mae'r hawl i'r incwm wedi trosglwyddo i'r elusen; y mae'n debygol y bydd y manteision economaidd sy'n gysylltiedig yn llifo i'r elusen, gall y swm gael ei fesur yn ddibynadwy a bod unrhyw amodau wedi eu cwrdd,neu o fewn gallu'r elusen i'w cwrdd.

Prif elfen incwm yw grantiau a chytundebau o wahanol ffynonellau.

1. **Polisïau Cyfrifo - parhad**

Incwm - parhad

Caiff incwm cyfyngedig ei gynnwys mewn cronfa gyfyngedig a'i gyfatebu â'r gwariant.

Mae'r incwm wedi ei rannu rhwng y gwahanol gronfeydd. Mae'r arian craidd yn cael ei ddangos fel incwm gwirfoddol. Mae incwm eraill yn cael ei ddangos fel incwm o weithgareddau'r elusen, sy'n cynnwys cytundebau gyda gwahanol arianwyr a gwasanaethau sydd yn ran o weithgareddau'r cwmni er mwyn hybu ei nôd elusennol yn unol â'r SORP, fel y nodir yn nodyn 2. Mae incwm yn cael ei ohirio ble mae wedi ei dderbyn ymlaen llaw.

Mae rhai cytundebau cyfyngedig yn gadael y cwmni ail ddosbarthu costau rhedeg fel costau'r cytundebau ac mae'r incwm yn cael ei ddangos fel incwm anghyfyngedig. Mae'r trafodion yma yn cael eu dangos ar wahân yn y Datganiad o Symudiadau Ariannol. Cyfanswm 2023 oedd £32,239 (2022: £48,939).

Derbyniwyd grantiau gan Llywodraeth Cymru drwy law Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) fel y'i manylir yn nodyn 2.

Costau

Cynhwysir holl gostau'r elusen yn natganiad y symudiadau ariannol yn unol â'r drefn o gronni costau, ble mae dyletswydd gyfreithiol yn bodoli. Mae'r gwariant yn cynnwys unrhyw Treth ar Werth gan na ellir ei adennill.

Manylwyd y costau yn ôl canllawiau'r Datganiad o Arferion ac Argymhellion (SORP) ble mae nôd yr elusen yn cael ei ddangos fel costau gweithgareddau'r elusen, wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hynny sydd yn hyrwyddo ei nodau elusennol er budd ei buddiolwyr. Mae costau llywodraethu yn cynnwys costau cefnogol llywodraethu'r elusen, ac yn ffurfio rhan o gostau'r gweithgareddau elusennol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadrodd wrth natur y gwariant. Mae gwariant cyfyngedig yn cael ei ddyrannu i gronfa gyfyngedig.

Costau cefnogol
Y mae'r costau wedi eu manylu yn y datganiad o symudiadau ariannol a'r nodiadau. Gan mai gweithgareddau elusennol yn unig sydd, a dim gweithgareddau codi arian, nid oes rhaniad pellach wedi ei wneud o'r costau cefnogol.

Cynllun Grantiau

Mae'r cwmni yn gweithredu cynlluniau grantiau a gweler yn nodyn 2.

Cynlluniau Pensiwn

Mae'r cwmni yn aelod o gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd sydd yn gynllun budd wedi ei ddiffinio. Mae'r cynllun yn cael ei reoli gan y "Local Government Pension Scheme Regulations 1997".

Mae'r symiau sydd wedi eu codi yn erbyn yr elw gweithredol yn cynrychioli cost lefel bresennol o'r gwasanaeth ynghyd a'r elw neu'r colledion ar y setliadau a'r cwtogiadau lle yn berthnasol. Maent wedi eu cynnwys fel rhan o gostau staff. Mae costau gwasanaeth yn y gorffennol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Symudiadau Ariannol yn syth os yw'r buddiannau mewn meddiant.

Os nad yw'r buddiannau mewn meddiant yn syth, yna mae'r costau yn cael eu cydnabod dros gyfnod tan fod y buddiannau yn dod i feddiant. Mae'r llog ar adenillion ar yr asedau yn cael eu netio i ffwrdd o gostau cyllido a chredits tebyg o dan llog. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth yn natganiad yr enillion a'r colledion cydnabyddiedig.

Mae'r cynllun wedi ei gyllido, gyda'r asedion o'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedion y cwmni, mewn cronfeydd sydd wedi eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr.

1. Polisïau Cyfrifo - parhad

Cynlluniau Pensiwn - parhad

Mae asedion y cynllun pensiwn wedi eu mesur yn ôl gwerth teg ac mae'r rhwymedigaethau yn cael eu mesur ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau ac wedi eu disgowntio ar gyfradd sy'n cyfateb i hynny a geir ar fond corfforaethol o safon uchel, yn yr un cyfred ariannol a'r un cyfnod a dyledion y cynllun.

Mae'r prisiadau actiwaraidd yn cael eu paratoi o leiaf bob tair blynedd ac maent yn cael eu hadolygu ar bob pen blwyddyn. Mae'r gwarged neu ddyled budd diffiniedig a geir wedyn yn cael ei gyflwyno ar wahân i weddill yr asedion ar wyneb y Fantolen.

Mae'r cwmni wedi dechrau cynllun pensiwn arall gyda "The Pension Trust" i aelodau newydd, ble mae'r cyflogwr yn talu 10%. Cynllun pensiwn cyfraniad ydyw ble mae'r gôst yn cael ei rannu yn unol â swyddogaeth yr unigolion.

Les Gweithredol

Mae lesi gweithredol yn cael eu dangos yn y datganiad o symudiadau ariannol fel y maent yn codi.

Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl unrhyw ddisgownt perthnasol

Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys arian a symiau wedi eu buddsoddi tymor byr, ble mae'r gwerth yn wybyddus a'r risg o newid yn isel.

Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt

Asedau Ariannol

Mae ased neu rhwymedigaeth ariannol yn cael ei adnabod pan fydd yr elusen yn barti i ddarpariaeth cytundebol.

Mae asedau neu rhwymedigaethau sylfaenol yn cael eu cydnabod ar y swm derbyniadwy neu sy'n daladwy gan gynnwys unrhyw gostau trafodion cysylltiedig, oni bai bod y trefniant yn gyfystyr a chytundeb ariannu, lle caiff ei gydnabod ar werth presennol taliadau y dyfodol wedi'i addasu ar gyfradd llog y farchnad ar ddyled tebyg.

2. Datganiad o Symudiadau Ariannol

Mae'r diffyg (cyn addasu am y cynllun pensiwn) am y flwyddyn ar ôl codi am y canlynol:-

	2023 £	2022 £
Dibrisio	4366	1585
Ffioedd yr Archwilwyr - Archwilio	4750	4750
Tâl a phensiwn Ymddiriedolwyr	-	-
	=====	=====

2. **Datganiad o Symudiadau Ariannol - parhad**

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Incwm - Rhoddion				
WCVA - arian craidd	246584	-	246584	215025
	246584	-	246584	215025
Incwm - Gweithgareddau Elusennol				
Adeiladu Pontydd Cadarn	-	39663	39663	39662
WCVA - GwirVol	-	6650	6650	6650
Gwynedd - Cytundeb gwasanaeth	8880	-	8880	8880
Ffi Asiantaeth	8650	-	8650	7797
Ffi Gweinyddol	23589	-	23589	41142
Incwm arall - Gwasanaethau a chyrsiau	22983	-	22983	22369
Cyngor Gwynedd - Cronfa Iechyd Meddwl	-	-	-	10000
Bwrdd Iechyd – Cronfa Iechyd Meddwl ac Anableddau	-	-	-	100000
Incwm SROI	49465	-	49465	41072
Presgripsiwn Cymdeithasol/Hwylusydd Iechyd	-	60000	60000	58140
Cyngor Gwynedd/Adra - Datblygu Maesgeirchen	-	25186	25186	24486
Cyngor Môn - Trawsnewid Plant	-	-	-	34000
WCVA - Comic Relief	-	-	-	2826
Grant Croeso Cynnes	-	50000	50000	-
Grant Trafnidiaeth Cymru	-	11878	11878	-
Cyngor Gwynedd - Cronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd	-	22727	22727	22727
WCVA – Pwysa'r Gaeaf	-	-	-	83051
Swydd Gymru Garedig	-	25000	25000	25000
	113567	241104	354671	527802
Gwariant - Gweithgareddau Elusennol				
Cyflogau a theithio	303208	122369	425577	394003
Hysbysebu a hyrwyddo	5235	1014	6249	1930
Hyfforddiant a recriwtio staff	666	1576	2242	875
Costau rhedeg y swyddfa	15026	739	15765	20802
Costau gweinyddol	-	21407	21407	41142
Gwasanaethau a chyrsiau	5516	400	5916	1429
Costau safle	68844	2083	70927	53244
Costau banc	278	-	278	100
Costau cyllid net	(3766)	-	(3766)	4911
Dibrisio	4366	-	4366	1585
Grantiau	-	81200	81200	236185
Costau Uned Symudol	-	91	91	91
Costau rhedeg prosiectau	-	8650	8650	7797
Costau gwerthuso	-	1275	1275	22000
Drwg ddyledwyr	867	-	867	-
Costau Llywodraethu:-				
Archwilio a chyfrifo	5700	-	5700	5700
Costau proffesiynol	2023	-	2023	13
	407963	240804	648767	791807

2. **Datganiad o Symudiadau Ariannol - parhad**

	2023 £	2022 £
Grantiau - Mudiadau		
WCVA Grantiau dan arweiniad -7 (2022:4)	5322	5000
Mae Mantell Gwynedd yn falch o fod yn rhan o'r datblygiad unigryw yma a thrwy gydweithrediad gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhawyd y cyllid angenrheidiol i gyflogi Swyddog Compassionate Cymru sydd yn cael ei chyflogi gan Mantell Gwynedd ac yn gweithio ar draws Gwynedd, Mon a Chonwy.

Mae'r gwaith cychwynnol o fapio gwasanaethau gofal diwedd oes a chreu Map Gwasanaeth wedi cychwyn gyda'r bwriad o fynd ati i lenwi bylchau er mwyn sicrhau gwasanaeth diwedd oes cyflawn ac addas o fewn ein cymunedau.

Presgripsiwn Cymdeithasol

Mae Presgripsiwn Cymdeithasol yn galluogi meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes gofal sylfaenol i gyfeirio unigolion at amryw o wasanaethau lleol sydd ddim yn wasanaethau clinigol. Hefyd mae'n chwarae rhan allweddol yng ngwaith ataliol e.e. codi ymwybyddiaeth sgrinio, atal codymau, a hybu cyrsiau iechyd.

Dull sydd yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion unigolion mewn modd mwy holistig ydyw, a'u hannog i gael gwell gafael ar eu llesiant a'u hiechyd eu hunain. Mae gweithgareddau Presgripsiwn Cymdeithasol yn gallu bod yn amrywiaeth enfawr o bethau, ond, ar y cyfan, gweithgareddau ydynt yn cael eu darparu gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol.


Mae sawl model gwahanol o bresgripsiwn cymdeithasol ond mae'r rhan fwyaf o fodelau yn cynnwys Swyddog Cyswllt Cymunedol sy'n derbyn cyfeiriadau ac wedyn yn gweithio gyda'r unigolion i adnabod cyfleoedd addas ar eu cyfer. Mae Mantell Gwynedd yn gorff ymbarél trydydd sector gyda chronfa ddata enfawr o fudiadau, ac felly mae gennym wybodaeth fanwl am gyfleoedd cymunedol i gyfeirio unigolion atynt.

Ariennir y cynllun gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rôl y Swyddog Cyswllt Cymunedol:

- Grymuso'r unigolion i ail-gysylltu gyda'u cymunedau lleol
- Magu hyder a gwydnwch
- Gwella iechyd a lles
- Gwella ansawdd bywyd yr unigolion
- Lleihau'r nifer o apwyntiadau meddygol a'r defnydd o feddyginiaeth
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o beth sydd ar gael i gynorthwyo a chefnogi unigolion
- Lleihau unigrwydd
- Cynorthwyo unigolion i gymryd gwell rheolaeth o'u bywydau

Ers i'r prosiect ddechrau fis Hydref 2016 mae dros 1,300 o unigolion wedi eu cyfeirio at y prosiect am gymorth. Yn ystod 2021-22 cyfeiriwyd 192 o unigolion at y prosiect.



CYSWLLT CYMUNEDOL ARFON: CYFEIRIADAU O 1AF EBRILL 2021 - 31AIN O FAWRTH 2022

ASTUDIAETH ACHOS 'A'

Cysylltodd Mrs A gyda'r Swyddog Cyswllt Cymunedol gan ei bod yn stryglo yn dilyn colli ei thad a hefyd effaith y pandemig. Tua deufis cyn y cyfnod clô 'roedd Mrs A wedi penderfynu gwerthu ei thŷ a symud yn ôl i ardal wledig iawn yng Nghymru i helpu gofalu am ei thad oedrannus. Ei thad oedd yr unig aelod oedd ganddi ar ôl o'i theulu.

Cynllun Mrs A oedd canfod gwaith rhan amser a threulio amser gyda'i thad. Ond wedi iddi gyrraedd Cymru daeth y cyfnod clô cyntaf i rym. Newidiodd hyn popeth gan fod ei thad mewn oed ac yn fregus gydag amryw o gymhlethdodau iechyd a chonsyrn am ei ddiogelwch. Bu i'r ddau ymdopi hefo'i gilydd trwy'r cyfnod clô ond heb unrhyw waith rhan amser bu i Mrs A ddefnyddio'r holl arian o werthiant ei thŷ er mwyn byw o ddydd i ddydd.

Dirywiodd iechyd ei thad a chanslwyd apwyntiau meddygol oherwydd y Covid. Bu'n rhaid wedyn rhyddhau ecwiti o'r cartref teuluol er mwyn talu am ofal meddygol yn Lloegr. Blwyddyn yn ddiweddarach bu farw ei thad a hynny ar ei ben ei hun yn yr ysbyty oherwydd rheolau Covid.
Roedd Mrs A yn stryglo gyda marwolaeth ei thad a'r ffaith iddo farw ar ei ben ei hun ond ar ben hyn oll 'roedd yn rhaid chwilio am ffordd i ad dalu y bethyciad ecwiti er mwyn diogelu y cartref teuluol neu byddai yn colli ei chretref hefyd.

Helpodd y Swyddog Cyswllt Cymunedol Mrs A i edrych ar ei holl opsiynau. Cafodd ei chyfeirio am gwnsela galar yn ogystal ag am gefnogaeth gan y Tîm Iechyd Meddwl. Gyda chymorth mae wedi canfod gwaith ac wedi ymuno efo clwb cerdded er mwyn gwneud ffrindiau a chysylltiadau newydd.

Meddai Mrs A

"Mae'r cymorth dwi'n ei gael rwan wedi fy helpu yn fawr. 'Roeddwn yn teimlo'n euog am fod fy nhad wedi marw ar ei ben ei hun. 'Rwy'n sylweddoli rwan fod hyn allan o fy nwylo ac fy mod wedi gwneud popeth o fewn fy ngallu i ofalu amdano a'i gefnogi at y diwedd. Mae'r Swyddog Cyswllt Cymunedol ac eraill wedi gwneud i mi sylweddoli na ddylwn weld bai arnaf fy hun. Dwi'n symud ymlaen"

"Doedd gen i ddim syniad fod yr holl gymorth allan yna i mi ar fy stepan drws"

"Mi wnaeth eich geiriau caredig wneud i mi sylweddoli fy mod yn ddigon cryf, gyda chymorth, i ddechrau delio gyda fy mhroblemau a fusd symud ymlaen hefo fy mywyd"

ASTUDIAETH ACHOS 'B'

Cyfeiriwyd Mrs B at y Swyddog Cyswllt Cymunedol gan ei Meddyg Teulu. Roedd mewn cyflwr bregus a phryderus gan ei bod yn wynebu colli ei chartref am fod y landlord yn gwerthu'r eiddo. 'Roedd yn wynebu digaretrefedd ac efo'r broblem ychwanegol fod ganddi anifail anwes oedd yn gwneud cael hyd i gartref arall yn anoddach.

Cyfeiriwyd Mrs B at Shelter a nifer o fudiadau eraill am gefogaeth. Gyda'i gilydd bu iddynt sicrhau fod Mrs B yn cael y gefnogaeth bwrpasol, amserol ac angenrheidiol i ganfod cartref newydd iddi.

Dywedodd Mrs B

"Cefais help i lenwi'r holl ffurflenni perthnasol yn gywir a cefais gefnogaeth iawn i symud ymlaen. Derbyniais y cyngor iawn i wneud yn siwr nad oeddwn yn ddigartref "

Social Value Cymru

Dechreuodd Mantell Gwynedd ar yr ymarfer o fesur gwerth cymdeithasol yn 2016. 'Roedd hyn mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddfwriaeth honno yn gofyn i sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector weithio'n wahanol, ac i wneud hynny roedd angen meddwl beth oedd y pethau pwysig oedd angen eu mesur a'u rheoli. Dim ond trwy ddeall gwerth cymdeithasol gweithgareddau y gallwn yn wir fynd ati'n effeithiol i weithio tuag at reoli'r modd yr ydym yn creu llesiant.

Erbyn hyn mae'r agenda cenedlaethol gwerth cymdeithasol wedi cynyddu gyda Llywodraeth Cymru yn trafod Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Mae'r Bil yn rhoi cyfrifoldeb newydd ar gyrff cyhoeddus penodol i gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau fod sylw yn cael ei roi i ganlyniadau cymdeithasol trwy gadwyni cyflenwi.

Oherwydd datblygiadau deddfwiraethol unigryw Cymru mae gwaith Social Value Cymru wedi cynyddu ac wedi dod yn fwyfwy pwysig.

- **Yn 2019 llwyddodd Mantell Gwynedd i ennill marc ansawdd COMMIT gan Social Value UK am wreiddio gwerth cymdeithasol i holl waith y cwmni. Mantell Gwynedd yw'r corff ymbarel cyntaf yn y Deyrnas Unedig i ennill y marc ansawdd unigryw yma.**
- **Yn 2020 llwyddodd Mantell Gwynedd i ennill gwobr arbennig gan Social Value UK am weithio mewn partneriaeth er mwyn cynyddu gwerth cymdeithasol.**

Erbyn hyn mae'r Tim Social Value Cymru o fewn Mantell Gwynedd yn cynnwys tri aelod staff sydd wedi cymhwyso trwy Social Value UK i ymgymryd â'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol.

Mae Rheolwr Social Value Cymru yn Ymarferydd Achrededig ac yn Hyfforddwr cydnabyddedig i Social Value International.

Mae hyn yn golygu fod Mantell Gwynedd yn medru cynnig gwaith o safon uchel a bellach yn un o brif chwaraewyr yr agenda gwerth cymdeithasol yng Nghymru.





SOCIAL VALUE COMMIT 1 CERTIFICATE
AWARDED BY SOCIAL VALUE INTERNATIONAL

Gwerth

SOCIAL VALUE UK Pioneer

ASTUDIAETH ACHOS
Encor, Bangor

Derbyniodd cor cymunedol Encor £2,490.96 gan Mantell Gwynedd allan o'r Gronfa Unigrwydd er mwyn prynu offer a chynnal digwyddiadau. Crewyd y Gronfa Grant i gefnogi mwy o gyfleoedd i ddod â phobl at ei gilydd i gymdeithasu.

Sefydlwyd Encôr fel côr cymunedol pedwar llais ym Mangor yn Rhagfyr 2020. Mae'n agored i bawb dros 18 oed beth bynnag yw eu gallu cerddorol/lleisiol. Nod y côr yw creu cyfle i unigolion o bob rhan o gymdeithas i ddod at ei gilydd i gymdeithasu a mwynhau cyd-ganu caneuon sy'n codi'r ysbryd er lles meddyliol a chorfforol. Fe wneir hyn drwy gynnal ymarferion wythnosol yng Nghapel Berea Newydd, Bangor. Mae'r pwyslais ar gymdeithasu, a chynnal perfformiadau o dro i dro i godi arian i elusennau ac achosion da. Ymgymrodd Social Value Cymru â darn o waith i fesur gwerth cymdeithasol y Grant Unigrwydd oedd Encor wedi ei dderbyn.

Canfyddiadau'r asesiad:

- Bod £4.12 o Werth Cymdeithasol wedi'i greu am bob £1 o werth a fuddsoddwyd
- Mae pryderon cynyddol ynghylch iechyd meddwl ac unigedd yn ein cymunedau Llwyddodd y prosiect i gefnogi unigolion ar adeg dyngedfennol i leddfu rhywfaint o'u pryderon ac i'w grymuso i wneud dewisiadau cadarnhaol
- Y deilliannau a brofwyd gan yr unigolion oherwydd y prosiect hwn oedd teimlo'n llai ynysig, gwell iechyd meddwl a gwell iechyd corfforol.

ASTUDIAETH ACHOS
Dysynni Dogs, Fairbourne

Derbyniodd Dysynni Dogs £4194.81 gan Mantell Gwynedd allan o Gronfa Pwysau'r Gaeaf er mwyn prynu cyfarpar hyfforddi . Sefydlwyd y gronfa hon er mwyn mynd i'r afael â rhywfaint o'r pwysau oedd mudiadau yn debyg o'I wynebu dros gyfnod y Gaeaf.

Clwb cymdeithasol yw Dysynni Dogs ac mae'n cynnig cyfle i berchnogion cŵn gymdeithasu, mynd am dro ac ymarfer. Ymunodd llawer gyda'r clwb yn 2020 fel ffordd i ymdopi gydag unigrwydd a diffyg cyfleoedd cymdeithasu.

Ymgymrodd Social Value Cymru a darn o waith i fesur gwerth cymdeithasol y Grant Pwysau'r Gaeaf oedd Dysynni Dogs wedi ei dderbyn.

Canfyddiadau'r asesiad:

- Bod £4.02 o werth cymdeithasol wedi ei greu am bob £1 o werth a fuddsoddwyd
- Llwyddodd y prosiect i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol
- Gwelwyd gwelliant mewn iechyd meddwl a iechyd corfforol



Prosiect Maes Ni Maesgeirchen



Mae prosiect MaesNi yn cael ei ariannu gan y rhaglen Buddsoddi'n Lleol a ariennir gan Gronfa'r Loteri Fawr ac a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau.

Mae'r Rhaglen Buddsoddi'n Lleol yn gweithredu mewn 13 o gymunedau ar draws Cymru gyfan ac mae'n cynnig cyfle i bobl y cymunedau hynny eu gwneud yn llefydd gwell a mwy dymunol i fyw ynddynt.

Mae'n Rhaglen dros gyfnod o 10 mlynedd sy'n defnyddio cryfderau, sgiliau a thalentau pobl, grwpiau a chymdeithasau'r cymunedau i newid pethau er gwell a hynny yn barhaol. Gyda £1m i wario ar flaenoriaethau lleol cymuned Maesgeirchen sydd yn penderfynu sut i ddefnyddio'r arian, pa gyrff mae nhw am gydweithio â nhw a sut caiff penderfyniadau eu gwneud.

Trwy gyflogi Gweithiwr Datblygu Cymunedol ar ran MaesNi mae Mantell Gwynedd yn medru darparu cefnogaeth barhaus i'r prosiect a'r gymuned.

Cychwynodd y Gweithiwr Datblygu yn ei swydd fis Rhagfyr 2018 ac mae wedi gweithio yn agos gyda'r gymuned dros y bedair blynedd ddiwethaf er mwyn adnabod blaenoriaethau ac ehangu ar weithgareddau o fewn y gymuned.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Gweithiwr Datblygu wedi chwarae rhan allweddol yn y datblygiadau canlynol:

- Ardal chwarae FUNZONE wedi ei ddatblygu a'i agor
- Mae gwaith yn mynd yn ei flaen gyda 'r Ganolfan Gymunedol arfaethedig newydd ac mae astudiaeth dichonoldeb y pensaer yn ei le erbyn hyn.
- Mae grwpiau cymunedol wedi parhau i dderbyn cefnogaeth gan gynnwys grwpiau celfyddydau perfformio, grŵp rap, pel droed, paffio, garddio, ynni cymunedol a grŵp mam a'i babi.
- Mae gweithwyr newydd wedi eu penodi gan gynnwys Gweithiwr Project Amgylcheddol a Gweithiwr ICAN.
- Mae Lês wedi ei sicrhau ar gofod MATRA sydd yn darparu lleoliad ar gyfer gwasanaeth galw'i fewn , gofod i weithwyr MaesNi a gofod i gynnal digwyddiadau
- Mae Caffi Hive wedi ail agor
- Mae Trwydded wedi ei sicrhau ar ran o adeilad y Clwb Ieuenctid sydd yn darparu gofod ar gyfer digwyddiadau penwythnos a gyda'r nos
- Mae gwaith wedi parhau i adeiladu ar yr ymarfer da a welwyd yn ystod cyfnod Covid-19 gan gynnwys cydweithio efo Bwyd Da Bangor, darparu gwasanaeth llogi gliniaduron, cymorth tlodi tanwydd, darparu cyngor arbenigol gan CAB , DWP ac ICAN. Mae dros 200 o bobl yn cael cefnogaeth pob wythnos.





MaesNi

Roedd Maesgeirchen yn un o 6 o hybiau cefnogaeth fu'n peilota ffyrdd o gefnogi cymunedau ol Covid.

Maesgeirchen oedd yr hwb cyntaf i gael ei arwain gan grwp cymunedol. Mae bellach yn fodel cymru gyfan.

Derbyniodd MaesNi wobr TPAS 2022 am "Gefnogi Cymunedau"



Rhai o'r grwpiau dderbyniodd gefnogaeth gan y Gweithiwr Datblygu yn ystod y flwyddyn oedd:

- **SHOWZONE**
- **Letters Grow**
- **Grwp Mam & Babi**
- **Clwb peldroed 1876**
- **Clwb paffio**
- **Rhandiroedd**
- **Hive Café**
- **Prosiect solar Greener than Green**
- **Prosiect Grwoing for Change**
- **Grwp peldroed cymunedol**
- **Grwpiau cerdded a garddio cymunedol**

Mae dros 200 o unigolion yn cael cymorth pob wythnos trwy prosiect MaesNi





Grantiau



Yn ystod y flwyddyn gweinyddwyd pump Cronfa Grant gan Mantell Gwynedd a thrwy'r cronfeydd darparwyd nawdd a chefnogaeth bwysig i fudiadau yng Ngwynedd.

CRONFA GRANT IECHYD MEDDWL
£100,000

Daeth y gronfa i Mantell Gwynedd trwy law Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cefnogwyd 15 o fudiadau gyda'r Gronfa Grant Iechyd Meddwl a phwrpas y grant oedd cefnogi unigolion sydd yn byw gyda heriau iechyd meddwl. Derbyniodd y mudiadau canlynol gyllid trwy'r gronfa:

- **Youth Shedz, Blaenau Ffestiniog** i gynnal gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer unigolion oedran 13-25 oedd wedi datgysylltu o'u cymuned.
- **Menter Fachwen, Cwm y Glo** i ddarparu llyfryn o deithiau cerdded yn cynnig cyfleoedd i ymarfer meddwlgarwch a datblygu stesion dywydd solar.
- **Menter y Plu, Llanystumdwy** i ddatblygu rhandiroedd cymunedol sydd yn rhan o brosiect y dafarn gymunedol yn Llanystumdwy.
- **Yr Orsaf, Penygroes** i gynnal cyfres o weithdai traws genedlaethau gyda'r ffocws ar gerddoriaeth ac offer cerddorol.
- **Y Dref Werdd, Blaenau Ffestiniog** i ehangu rhaglen presgripsiwn gwyrdd cymunedol trwy gynnwys sesiynau meddylgarwch a cherdded.
- **Tir Dewi** i brynu cyflenwad o ddeunyddiau i hyrwyddo gwasanaeth Tir Dewi sydd yn cefnogi'r gymuned amaethyddol i daclo heriau iechyd meddwl.
- **Snowdonia Donkeys, Moel y Ci** i ddarparu arian refeniw i gyflogi Staff er mwyn sicrhau parhad rhai o'r gwasanaethau mae'r mudiad yn eu darparu.
- **Age Cymru Gwynedd a Môn** i ddatblygu gardd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn eu canolfan ym Montnewydd.
- **Ffermwyr Ifanc Meirionnydd** i dalu am swyddog i roi rhaglen o ddigwyddiadau yn eu lle ar gyfer oedolion ifanc er mwyn ail afael ym mywyd cymdeithasol y gymued amaethyddol yn dilyn cyfnod segur Covid-19.
- **Home Start Cymru** i dalu am focsys llesiant oedd wedi eu teilwro yn arbennig ar gyfer pob teulu.
- **Canolfan Lon Abaty, Bangor** i dalu am gyfres o weithdai a phecyn i gynnal iechyd meddwl a llesiant unigolion.
- **Menter Ty'n Llan, Llandwrog** i ddatblygu rhandir ar gyfer tyfu llysiau ar safle tafarn gymunedol Llandwrog.
- **Tros Gynnal Plant** i wella capasiti ac argaeledd staff i ddarparu cefnogaeth iechyd meddwl ac ehangu'r ddarpariaeth honno ar gyfer plant a phobl ifanc.
- **Canolfan Felin Fach, Pwllheli** i wella ansawdd nifer o ystafelloedd cymunedol yng nghanolfan Felin Fach Pwllheli i'w gwneud yn fwy cyfforddus a chroesawus.
- **Menter Llŷn, Nefyn** i brynu deunyddiau TG a band eang cyflym ar gyfer Siop Siarad Nefyn.







CRONFA GRANT PWYSAU'R GAEAF
£56,000

Yn dilyn trafodaethau rhwng Adran Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Trydydd Sector Cymru dyrannwyd £1.5m i gynghorau gwirfoddol Cymru er mwyn mynd i'r afael â rhywfaint o'r pwysau oedd mudiadau yn debyg o'i wynebu dros gyfnod y Gaeaf.

Derbyniodd Mantell Gwynedd £56,000 ar gyfer mudiadau yng Ngwynedd a dosbarthwyd yr arian rhwng 15 mudiad:

Y mudiadau dderbyniodd nawdd o'r Gronfa Grant oedd:

- **Partneriaeth Maesgeirchen** i wella'r amgylchedd trwy ddatblygu gardd wyllt natur gyfeillgar.
- **MaesG Showzone** i gefnogi prosiect ffilmio "County Lines" mewn cydweithrediad efo Heddlu Gogledd Cymru.
- **Menter Ty'n Llan, Llandwrog** i gefnogi Clwb Cinio dros y gaeaf yn y dafarn gymunedol.
- **Antur Aelhaearn, Llanaelhaearn** i gynnal gweithgareddau amrywiol yn y ganolfan yn Llanaelhaearn ac i atgyweirio cyfarpar y cae chwarae.
- **Wild Elements, Bangor** i gefnogi clwb gwaith coed ar gyfer unigolion bregus a di waith.
- **Menter Llŷn, Nefyn** i gyflenwi bocsys bwyd ar gyfer y teuluoedd mwya' anghenus yn yr ardal.
- **Snowdonia Donkeys, Moel y Ci** i logi ystafell yn ystod y gaeaf er mwyn parhau gyda gwasanaeth cefnogi unigolion.
- **Ffrindiau Dysynni Dogs** i dalu am offer newydd fyddai yn ehangu gweithgareddau a denu aelodau newydd.
- **Royal Voluntary Service** i ddarparu pecynnau i gleifion oedd yn gadael yr ysbyty.
- **TGP Cymru** i ariannu cyfarpar ar gyfer pobl ifanc bregus.
- **Canolfan Felin Fach, Pwllheli** i brynu cyfarpar i hwyluso gwasanaeth pryd ar glyd ar gyfer cleientau Felin Fach.
- **Cyfeillion Croesor** i ariannu gweithgareddau a chyfres o ddigwyddiadau rhithiol i gynnal y gymuned trwy'r gaeaf.
- **Cwmni'r Frân Wen** i ehangu prosiect Llwybrau Llachar ar gyfer pobl ifanc gydag anableddau.
- **Bethesda Athletic Juniors** i dalu costau llogi lleoliad aml bwrpas ar gyfer gweithgareddau.
- **Porthi Pawb (Caernarfon)** i ddatblygu'r gofod yn siop yng Nghaernarfon.





Grantiau







CRONFA COVID 19
£26,000

Daeth yr arian ar gyfer y gronfa yma o Lywodraeth Cymru trwy Bartneriaeth Trydydd Sector Cymru. Y pwrpas oedd cefnogi ail sefydlu ac ail afael mewn gweithgareddau yn dilyn cyfnod o segurdod yn ystod Covid-19.

Derbyniodd 12 o fudiadau o arian o'r gronfa:

- **Cylch Meithrin Nefyn** i gefnogi darparu man chwarae allanol ar gyfer y Cylch Meithrin.
- **Menter y Plu, Llanystumdwy** i gefnogi datblygiad prosiect gardd gymunedol yn y dafarn er mwyn hwyluso cymdeithasu.
- **Tafarn yr Heliwr, Nefyn** i gefnog i prynu offer er mwyn sicrhau diogelwch digwyddiadau cymunedol.
- **Neuadd Dyfi, Aberdyfi** i gefnogi digwyddiadau cymdeithasol yn y neuadd yn dilyn cyfnod Covid.
- **Friends of Bangor Garth Pier** i ddarparu cefnogaeth i wirfoddolwyr newydd ar y pier er mwyn sicrhau eu diogelwch.
- **MaesG Showzone** i gefnogi hyfforddiant i bobl ifanc i greu a chymryd rhan mewn ffilmiau.
- **Canolfan Gymuned Llanbedr** i gefnogi gwella'r amgylchedd o gwmpas y Ganolfan gymdeithasol.
- **Arch Noa, Penrhyndeudraeth** i gefnogi creu adnodd ar gyfer plant oedd wedi eu hynysu yn ystod cyfnod covid.
- **Gwallgofiaid, Blaenau Ffestiniog** i gefnogi cynllun cymunedol ceflyddydol ar gyfer pobl ifanc.
- **Cyfeillion Cybi, Llangybi** i gefnogi datblygu gardd tu allan i ysgol Llangybi.
- **Menter Fachwen, Cwm y Glo** i gefnogi datblygu mynediad anabl a datblygu gardd tu allan i Tŷ Elidir Deiniolen.
- **Cae Chwarae Morfa Bychan** i gefnogi datblygu mynediad anabl i gae chwarae Morfa Bychan.









CRONFA GRANT TRAWSNEWID
£30,000

Trwy Fwrdd Rhanbarthol Partneriaeth Gogledd Cymru derbyniodd Mantell Gwynedd gronfa i hyrwyddo iechyd lles a gwytnwch emosiynol plant a phobl ifanc. Prif ffocws y grant oedd canolbwyntio ar gydnerthu cymunedol er mwyn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd wyth mudiad nawdd o'r gronfa sef:

- **Y Dref Werdd, Blaenau Ffestiniog** i gefnogi gweithgareddau awyr agored i blant rhwng 8 a 12 oed.
- **Bwyd am Byth, Dyffryn Ogwen** i gefnogi cyfleoedd awyr agored gan gynnwys garddio a choedwigaeth ar gyfer plant a theuluoedd.
- **Antur Aelhaearn, Llanaelhaearn** i gefnogi cyfres o weithgareddau yn ystod yr Haf i blant Llanaelhaearn a Threfor.
- **North Wales Africa Society** i gefnogi gweithgareddau cymunedol i blant o leiafrifoedd ethnig.
- **Cymdeithas Chwaraeon Bro'r Eifl, Trefor** i brynu ac uwchraddio offer er mwyn cefnogi gweithgareddau awyr agored yn Nhrefor.
- **Ecodyfi, Machynlleth** i gefnogi gwasanaeth presgripsiwn cymdeithasol ar gyfer ardal Tywyn, Meirionnydd.
- **MaesNi** i ddarparu pecynnau bwyd argyfwng ar gyfer teuluoedd anghenus Maesgeirchen .
- **Cylch Meithrin Dolgellau** i wella gofod chwarae allanol i blant y Cylch Meithrin.

CRONFA GRANT UNIGRWYDD
£20,000

Ym mis Chwefror 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth gyntaf ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd. Sefydlwyd Cronfa Unigrwydd er mwyn helpu i greu mwy o gyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd.

Derbyniodd Mantell Gwynedd £20,000 er mwyn i ddyrannu yng Ngwynedd yn ystod 2021-22. Derbyniodd 10 o fudiadau arian o'r gronfa:

- **Encor, Bangor** i brynu offer ar gyfer y côr er mwyn sicrhau fod y gweithgreddau yn parhau ac yn cynyddu.
- **Menter Ty'n Llan, Llandwrog** i gefnogi sesiynau celf, ymarfer corff a gweithgareddau cymunedol eraill ar gyfer pob oedran.
- **Cwmni Bro Ffestiniog** i gefnogi gweithgareddau cymunedol i nifer o fudiadau gwirfoddol yn ardal Stiniog.
- **Yr Orsaf, Penygroes** i ehangu rhaglen o weithgareddau cymunedol.
- **Adra** i gefnogi gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer tenantiaid unig.
- **Eryri Cydweithredol** i gefnogi Caffis Cymunedol mewn ardaloedd gwledig er mwyn lleihau unigrwydd.
- **Seren Ffestiniog Cyf** i gefnogi gweithgareddau fin nos ar gyfer cleientau Seren Cyf.
- **Bangor Gymnastics Club** i brynu offer i ddenu bechgyn i ymgymeryd a gweithgareddau gymnasteg.
- **Menter y Plu, Llanystumdwy** i ail gychwyn gweithgareddau cymunedol yn y dafarn yn dilyn cyfnod Covid.
- **Circo Arts, Llanberis** i gefnogi dosbarthiadau yn cynnig cyfle i ddysgu crefftwaith.

Cynlluniau i'r Dyfodol

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sef ein cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae Mantell Gwynedd yn un o aelodau o'r Bartneriaeth Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi'r sector a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Bydd Mantell Gwynedd yn cyflawni'r Cytundeb trwy ddarparu cefnogaeth mewn pedwar maes, sef Llywodraethu Da, Gwirfoddoli, Cyllid Cynaliadwy ac Ymgysylltu a Dylanwadu.

Rhoddodd COVID-19 ffocws newydd ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac ar draws sectorau. Byddwn yn parhau i gyd weithio mewn partneriaeth er lles poblogaeth Gwynedd ac yn gobeithio bydd y partneriaethau rheiny yn parhau i ffynnu a thyfu.

Trwy ein prosiect Social Value Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Trwy'r gwaith hwn rydym yn gallu dangos sut yr ydym fel sector yn datgloi potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar gyrff cyhoeddus ac yn sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Bydd gofyniad ar i gyrff cyhoeddus penodol gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol trwy gadwyni cyflenwi. Mae hwn yn gam allweddol wrth i waith Social Value Cymru ddatblygu.

Byddwn yn ceisio ymestyn ein gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod mudiadau'r trydydd sector yn cael y cyfle i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu cefnogaeth i unigolion sydd heb anghenion clinigol. Gobeithiwn uchafu potensial mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu i'r agenda llesiant wrth wneud hyn, a thrwy hynny, yn gwireddu potensial Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn rhoi'r trydydd sector wrth galon darparu a chynllunio gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fesur gwerth cymdeithasol y prosiect er mwyn darparu tystiolaeth o'r angen am wasanaethau trydydd sector.

Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd ymarferol o gefnogi'r trydydd sector i gydymffurfio gyda safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a byddwn yn manteisio ar bob cyfle posibl i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y trydydd sector, yn enwedig yn y maes Gwirfoddoli gan adeiladu ar y gwaith da mae Mantell Gwynedd eisioes wedi arwain arno.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r agenda newid hinsawdd a hyrwyddo ymarfer da o fewn y sector.

Wrth i'r wlad wynebu heriau economaidd aruthrol byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r creisis costau byw.


Crynodeb Ariannol

Sut mae Mantell Gwynedd yn cael ei ariannu


Pob blwyddyn mae Mantell Gwynedd yn llwyddo i ddenu arian o nifer o amrywiol ffynonellau e.e. Cyrff y Llywodraeth, Ymddiriedolaethau Elusenol a Chronfeydd Loteri.

Cyfanswm Incwm yn ystod 2021/22 oedd **£744,175**

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2021/22 oedd **£791,807**



CYMHARIAETH YNG NGWARIANT MANTELL GWYNEDD YN YSTOD 2020/21 a 2021/22



Cysylltwch â Mantell Gwynedd am gopi o Gyfrifon Ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2022

Bwrdd Rheoli 2021/2022

SWYDDOGION
Cadeirydd: Gwen Griffith
Ymddiriedolaeth Hawliau Lles Anabledd
Is-Gadeirydd: Annie Williams
Cyn Bennaeth Coleg Harlech WEA wedi ymddeol
Trysorydd: Elwen Roberts
Creu Menter
Is-Drysorydd: Trystan Pritchard
Prif Swyddog Hosbis Dewi Sant

AELODAU
Y Tad Deiniol
"Yn Ein Blaenau"
Betty Williams
Aelod Seneddol wedi ymddeol
Cyng. Paul John Rowlinson
Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd

Staff 2021/2022

TÎM RHEOLI
Bethan Russell Williams
Prif Swyddog
Ceren Williams
Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu

DATBLYGU A GWASANAETHAU
Eleri Lloyd
Rheolwr Gwerth Cymdeithasol
Mathew Lewis
Swyddog Mesur Gwerth Cymdeithasol
Gareth James
Swyddog Datblygu a Mesur Gwerth
Carys Williams
Swyddog Datblygu a Cynorthwy-ydd Cyllid
Jess Mead Silvester
Gweithiwr Datblygu Maesgeirchen (MaesNi)

IECHYD A LLESIANT
Sioned Llwyd Larsen
Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Sioned Llywelyn Roberts
Hwylusydd Iechyd a Llesiant (o Gorffennaf 2022)
(hyd at Gorffennaf 2022)
Rhian Griffiths
Swyddog Cyswllt Cymunedol Arfon
Carina Roberts
Cydlynydd Cymunedol (o Mai 2022)

CYLLID A GWEINYDDOL
Tracy Lynne Rotheram
Swyddog Gweinyddol
Arwen Elysteg Evans
Cynorthwy-ydd Gweinyddol

CANOLFAN GWIRFODDOLI GWYNEDD
Carwyn Humphreys
Cydlynydd Canolfan Gwirfoddoli

Rhif y Cwmni 3420271

MANTELL GWYNEDD CYF.

(CYFYNGEDIG DRWY WARANT)

CYFRIFON ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

MANTELL GWYNEDD CYF.

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR (CYFARWYDDWYR)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Cyflwyna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

Prif Weithgaredd ac Adolygiad

Prif weithgaredd y Cwmni yn ystod y flwyddyn oedd hyrwyddo unrhyw ddibenion elusennol er lles trigolion Gwynedd ac yn arbennig trwy gynorthwyo a chefnogi dibenion elusennol a gwaith mudiadau gwirfoddol yn yr ardal les. Gweler yr Adroddiad Blynyddol am fwy o fanylion, mae hwn ar gael gan y cwmni.

Manylion Gweinyddol

Enw'r Elusen	Mantell Gwynedd Cyf.
Rhif Elusen Gofrestredig	1068851
Rhif Cwmni Cofrestredig	3420271
Cyfeiriad Cofrestredig	25 Y Bont Bridd Caernarfon Gwynedd LL55 1AB
Archwilwyr	Owain Bebb a'i Gwmni 32 Y Maes Caernarfon
Cyfreithwyr	Pritchard Jones Lane 37 Y Maes Caernarfon
Bancwyr	Banc Barclays Parc Menai Bangor
	Undeb Credyd Cambrian 144 Ffordd Conwy Cyffordd Llandudno Conwy
	The Charity Bank Limited Fosse House 182 High Street Tonbridge
	Santander Bridle Road Bootle Merseyside
	Shawbrook Bank Limited Lutea House Warley Hill Business Park Great Warley Brentwood

Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, a'r rhai presennol yw:

Gwen Griffith (Cadeirydd)
Sydna Ann Williams (Is-Gadeirydd)
Betty Williams
Elwen Roberts (Trysorydd)
Trystan Pritchard (Is-Drysorydd)
Y Tad Deiniol

Enwau'r prif aelodau o staff (Tîm Rheoli) yw:-

Bethan Russell Williams - Prif Swyddog
Ceren Williams - Dirprwy Prif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddol

Telir aelodau'r staff yn unol â'r trefn pwyntiau sydd yn berthnasol i'r llywodraeth leol.

Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Mae'r cwmni yn un cyfyngedig heb gyfranddaliadau ac yn elusen gofrestredig sy'n cael ei lywodraethu gan Femorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.

Mae apwyntiadau yn cael eu gwneud yn y cyfarfod blynyddol yn unol â Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.

Mae gan Mantell Gwynedd broses i anwytho ymddiriedolwyr newydd. Cyfrifoldeb y Prif Swyddog a'r Cadeirydd yw sicrhau fod ymddiriedolwyr newydd yn manteisio ar y broses o anwytho.

Rheolir busnes yr Elusen gan yr Ymddiriedolwyr. Y mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am strwythur polisïau'r Elusen a sicrhau fod y gwaith yn cael ei reoli'n effeithiol. Pwrpas y gwaith yw gwarchod lles yr elusen, felly'n caniatáu'r gwaith da barhau yn y dyfodol.

Y mae staff wedi eu hapwyntio, yn atebol i'r Ymddiriedolwyr ac yn goruchwylio'r gwaith dyddiol yn unol â'r polisi. Mae'r ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf pedair gwaith y flwyddyn, a gall cyfarfodydd ychwanegol gael eu galw pe bydd angen. Gall yr ymddiriedolwyr apwyntio un neu ragor o is-bwyllgorau yn unol â Memorandwm ac Erthyglau'r cwmni.

Risgiau yn wynebu Mantell Gwynedd yn ystod 2022-2023

- Mae'r Cytundeb Partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru yn ei le hyd Mawrth 2023. Bydd unrhyw gyllid craidd yn y dyfodol yn ddibynnol ar ganlyniad trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ran Partneriaeth Trydydd Sector Cymru.

- Mae'r arian craidd ychwanegol a gafwyd yn ystod 2021-22 wedi sicrhau fod gwaith Social Value Cymru wedi gallu parhau gyda 2.3 aelod staff yn y tim. Er bod diddordeb sylweddol o sawl cyfeiriad i gomisiynu gwasanaethau gan Social Value Cymru mae dyfodol y tim yn gwbl ddibynnol ar fedru denu y cyllid angenrheidiol o waith wedi ei gomisiynu. Ar hyn o bryd mae gwaith yn argoeli'n dda gyda thendrau wedi eu hennill ac eraill ar y gweill, ond rhaid cofio fod mudiadau/cwmnïau eraill yn edrych ar fesur gwerth cymdeithasol fel gwasanaeth posib i'w gynnig ac y gall fod cystadleuaeth o'r tu allan am ddarparu y gwasanaeth. Mae Mantell Gwynedd yn y broses o addasu y Ddogfen Lywodraethol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau Social Value Cymru yn cael parhau tu allan i Wynedd ac yn cynnwys y Deyrnas Unedig gyfan fel maes gwaith. Bydd hyn yn ein helpu gan y gallwn chwilio am waith yn ehangach. Rydym yn disgwyl adborth gan y Comisiwn Elusennau er mwyn cyflwyno'r addasiad fel "Special Resolution" a bydd hyn yn digwydd mewn cyfarfod cyffredinol arbennig fydd yn cael ei alw cyn gynted ag y daw adborth o'r Comisiwn Elusennau.

- Fel pob blwyddyn arall, bydd Mantell Gwynedd angen ymgeisio o gronfeydd allanol eraill er mwyn medru cyflawni gwaith sydd yn ymateb i ofynion y sector. Gyda chronfeydd allanol yn prinhau a llawer mwy o gystadleuaeth amdano byddwn angen bod yn barod am hyn a bod yn greadigol ac ymarferol wrth gyflwyno ceisiadau.

Risgiau yn wynebu Mantell Gwynedd yn ystod 2022-2023 - parhad

- Mae prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon yn cael ei ariannu trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r ffynhonnell ariannu bresennol o fewn y Bwrdd Iechyd yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2023 felly mae yna risg sylweddol i ddyfodol y prosiect. Mae yna gystadleuaeth am arian i gynnal prosiectau presgripsiwn cymdeithasol ac rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r agenda Presgripsiwn Cymdeithasol a bydd rhaid bod yn barod i ymgeisio o unrhyw gronfa newydd pan ddaw. Ein mantais mawr ar hyn o bryd yw ein bod wedi gwerthuso y prosiect yn drylwyr ers dros bedair blynedd gan ddefnyddio model mesur gwerth cymdeithasol. Byddwn yn parhau i werthuso yn drylwyr fel ein bod mewn lle da i barhau gyda'r gwaith yma.

- Ar ôl cyfnod Covid mae staff wedi dychwelyd i'r swyddfeydd yng Nghaernarfon a Dolgellau ac mae trefniadau gwaith "hybrid" yn eu lle sydd yn sicrhau fod y swyddfeydd ar agor yn ddyddiol ond sydd hefyd yn galluogi staff i weithio hyd at 50% o'u hamser adref. Er bod y trefniadau hyn yn eu lle ers Chwefror 2022 mae y nifer sydd yn "galw'i fewn" i'r swyddfeydd e.e. i chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli, yn parhau yn isel a'r ôl troed cyhoeddus ar y stryd fawr yn gyffredinol hefyd yn isel. Er fod hyn tu hwnt i Mantell fedru gwneud dim amdano bydd yn rhaid ail edrych ar y ffyrdd yr ydym yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd a bydd yn rhaid ail afael mewn ymdrechion i farchnata e.e. mewn sioeau a digwyddiadau ac ati

- Dros y blynyddoedd mae Mantell Gwynedd wedi bod yn ffodus o fedru cadw staff am gyfnodau maith o amser – degawdau yn aml ! Fodd bynnag, yn ystod 2022 gwelwyd ymddeoliad un o'r swyddi allweddol o fewn y cwmni. Er fod Mantell Gwynedd wedi llwyddo i benodi yn gynnar i'r swydd , mae'n rhaid cofio fod cyflogai sydd gyda hanes hir o weithio i Mantell gyda strwythurau cydweithio agos a phersonol gydag asiantaethau, mudiadau ac unigolion. Mae colli y cysylltiadau personol, tymor hir yma yn gallu bod yn risg i'r maes gwaith.

- Mae creisis economaidd sydd yn debyg o achosi creisis costau byw sylweddol yn mynd i gael effaith ar sut bydd Mantell Gwynedd yn mynd ati i ddarparu gwasanaethau cefnogol gan y bydd y galw am gefnogaeth yn debyg o fod yn ddyrys ac yn dra argyfyngus.

Amcanion a Gweithgareddau, Llwyddiannau a Pherfformiadau

Cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol, annog unigolion i wirfoddoli a bod yn llais cryf i'r trydydd sector yng Ngwynedd yw nod Mantell Gwynedd. Mae'n gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth leol ond yn rhan o rwydwaith o Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n gweithredu drwy Gymru. Daw'r arian craidd i redeg y cwmni oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r mudiad yn ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol i hyn ond i gyd gyda'r un nôd o hyrwyddo gwirfoddoli a'r trydydd sector yng Ngwynedd.

Mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:-

- Hyrwyddo, datblygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli.
- Cynrychioli'r trydydd sector a chydweithio ar bartneriaethau strategol.
- Rhoi cymorth i bobl a mudiadau i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda chyrff cyhoeddus.
- Rhoi cefnogaeth llywodraethol i fudiadau e.e. materion cyfansoddiadol ac ariannol.
- Rhoi cefnogaeth i fudiadau i fesur eu gwerth yn well, yn enwedig gwerth cymdeithasol.
- Gweithredu fel linc ar gyfer cyfeirio unigolion at wasanaethau trydydd sector e.e. Presgripsiwn Cymdeithasol.
- Rhoi cefnogaeth i redeg prosiectau a pheilota prosiectau ar gyfer y trydydd sector pan fo angen.
- Rheoli ffynhonellau grant a rhoi cyngor ar ariannu prosiectau.
- Hybu datblygiad mentrau cymdeithasol a chynaliadwyedd mudiadau.
- Annog datblygiad a chyd-lynu consortia darparwyr trydydd sector.
- Rhannu gwybodaeth gyda'r trydydd sector trwy newyddlenni, bwletinau, taflenni gwybodaeth, y wefan, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddulliau addas eraill.
- Cynnig rhaglen o hyfforddiant i gynorthwyo mudiadau a gwirfoddolwyr yn eu gwaith.
- Cynnig gwasanaethau ymarferol e.e. llogi offer, llogi uned symudol, llungopio, darparu ystafelloedd cyfarfod a gofod swyddfa.
- Cynnig gwasanaeth cyflogres.
- Annog cydweithio ar draws sectorau.

Y prif brosiectau yn y flwyddyn oedd:

Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd

Bu gwaith y Ganolfan Wirfoddoli yn greiddiol yn ystod cyfnod Covid-19. Sefydlwyd Banc Gwirfoddolwyr Covid-19, ac mewn dim o amser, 'roedd 514 o unigolion wedi cofrestru ar y Banc. Bu'n waith sylweddol yn ystod cyfnod Covid-19 i gadw cyswllt gyda'r unigolion oedd wedi cofrestru, adnabod cyfleoedd gwirfoddoli iddynt, ac wedyn cyfeirio'r unigolion at y cyfleoedd addas ar eu cyfer. Bu cyfraniad yr unigolion hyn yn greiddiol i gynnal cymunedau yn ystod cyfnod Covid.

Mae'r gwaith o gynnal Banc Argyfwng wedi parhau yn ystod 21-22 yn y cyfnod ôl covid ac mae'r Ganolfan bellach yn cynnal Banc Argyfwng fydd yn bosib ei ddefnyddio mewn unrhyw argyfwng yn y dyfodol, boed hwnnw yn argyfwng iechyd cyhoeddus, argyfwng hinsawdd ayyb.

Yn ystod 2021-22 derbyniwyd 223 o ymholiadau am wirfoddoli, cofrestrwyd 104 o unigolion newydd o Wynedd ar wefan Gwirfoddoli Cymru a chofrestrwyd 827 o oriau o wirfoddoli ar y wefan. Nid yw ffigyrau'r wefan genedlaethol yn wir adlewyrchu gweithgaredd yng Ngwynedd gan fod llawer heb gofrestru ar y wefan genedlaethol ac eraill yn amharod i'w defnyddio. Mae gwefan genedlaethol newydd ar y gweill fydd yn darparu gwell safle i gofrestru ayyb.

Un o'r unigolion sydd wedi derbyn cefnogaeth o'r Ganolfan yw Patricia Whitfield (Trish). Bu i'r Ganolfan ganfod cyfle gwirfoddoli iddi gyda Snowdonia Donkeys ac meddai Trish :

"Mae gwirfoddoli wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i mi. Dechreuais trwy feddwl fy mod i yn helpu eraill ond sylweddolais yn fuan bod gwirfoddoli yn cael effaith arnaf i fi fy hun hefyd. Mae rhoi a gwneud i eraill wedi bod yn gymaint o hwb i fy lles. Rwyf wedi dysgu sgiliau newydd, wedi gwneud ffrindiau anhygoel ac fy niwrnod gwirfoddoli yw'r diwrnod gorau'r wythnos. Unwaith y byddaf yn dechrau siarad am wirfoddoli a'r buddion ni allaf roi'r gorau iddi. Ni allaf ddiolch digon am gael cynnig y cyfle anhygoel hwn!"

Mae cydlynydd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn y swydd ers 2010.

Presgrispiwn Cymdeithasol Arfon

Ariennir y gwaith trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r prosiect yn mynd ers 2016 gyda thros 1,300 o unigolion wedi cael budd o'r prosiect ers iddo gychwyn bum mlynedd yn ôl.

Yn ystod 21-22 cafodd 192 o unigolion gefnogaeth gan y prosiect. Gwnaed darn o waith i fesur Gwerth Cymdeithasol y prosiect ac yn ystod 21-22 am bob £1 a fuddsoddwyd crëwyd £4.38 o werth cymdeithasol. Mae'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol y prosiect yn parhau.

Mae unigolion yn cael eu cyfeirio i'r prosiect gan Feddygon Teulu, Therapyddion, gweithwyr iechyd meddwl a gweithwyr cymunedol , ond hefyd gall unigolion hunan gyfeirio.

"All the help and changes would have not happened without Rhian. I had tried for years and failed. The service is vital" ***geiriau Defnyddiwr gwasanaeth Presgrispiwn Cymdeithasol Arfon***

Mae'r Swyddog Presgripsiwn Cymdeithasol yn ei swydd ers cychwyn y prosiect yn 2016.

Prosiect Hwylusydd Llesiant

Mae'r Hwylusydd Llesiant yn cael ei hariannu trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
Derbyniodd yr Hwylusydd 1370 o ymholiadau yn ystod 2021-22

Yn ystod y flwyddyn bu'r Hwylusydd yn cynnal cyfarfodydd /gweithdai a chefnogi fforymau a rhwydweithiau lleol gan sicrhau llais i fudiadau trydydd sector a hyrwyddo eu cyfraniad i'r agenda iechyd a llesiant. Rhan allweddol o'r gwaith yw codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd dylanwadu.

Bu'r Hwylusydd Llesiant yn ei swydd am bron i 19 o flynyddoedd nes iddi ymddeol fis Gorffennaf 2022. Penodwyd Hwylusydd newydd yn syth fel nad oedd toriad yn y gwaith.

Y prif brosiectau yn y flwyddyn oedd – parhad

Prosiect Social Value Cymru

Mae Mantell Gwynedd wedi bod yn arwain ar waith mesur gwerth cymdeithasol ers 2016. Erbyn hyn mae yma dîm o swyddogion sydd wedi cymhwyso i safon uchel i ymgymryd â gwaith mesur gwerth cymdeithasol.

Mae Mantell Gwynedd fel cwmni wedi ennill marc ansawdd COMMIT trwy Social Value UK , sydd yn cydnabod fod gwerth cymdeithasol wedi ei wreiddio yn holl waith y cwmni. Mantell Gwynedd yw'r unig gorff ymbarél yn y DU i ennill y statws hwn.

Yn ystod cyfnod Covid-19 ariannwyd y gwaith yn rhannol trwy arian ychwanegol o Lywodraeth Cymru ac erbyn hyn mae y prosiect yn hunan gynhaliol gan ddenu gwaith comisiwn i'w gynnal.

Yn ystod 2020-21 bu'r swyddogion yn mesur gwerth cymdeithasol rhai o'r prosiectau fu'n llwyddiannus yn denu grantiau Covid-19. Bu'r gwaith hwn o gymorth i ddenu cyllid grant ychwanegol i'w ddyrannu o fewn y trydydd sector.

Mae Rheolwr Gwerth Cymdeithasol yn gweithio yn Mantell ers 2013 a'r ddau swyddog ychwanegol i'r tîm wedi eu penodi yn 2020.

Prosiect Swyddog Cymunedol MaesNi

Ers 2018 mae Mantell Gwynedd yn cyflogi Swyddog Cymunedol i weithio yn ardal Maesgeirchen. Gwneir hyn trwy waith partneriaeth hefo Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a rhaglen Buddsoddi'n Lleol. Cefnogir y gwaith trwy arian Loteri.

Mae'r swyddog wedi canolbwyntio ar weithio gyda'r gymuned i ganfod eu blaenoriaethau er mwyn cefnogi'r cynlluniau i adeiladu hwb cymunedol newydd a manteisio ar gyfleoedd i'r gymuned ymgysylltu gyda'r prosiect Buddsoddi'n Lleol.

Yn ystod cyfnod Covid-19 bu'r swyddog yn ganolog i drefniadau cefnogi trigolion yr ardal. Mae'r swyddog yn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu cefnogaeth fwyd, cefnogi materion iechyd meddwl, hyrwyddo a threfnu cyfleoedd i drigolion ddod at ei gilydd, mynediad at gefnogaeth ariannol ac yn rhan o gynllun peilot Cefnogaeth Covid-19 gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol.

Erbyn hyn mae'r Swyddog yn gweithio ar yr agenda ôl Covid ac yn greiddiol i hwyluso datblygiadau hir dymor ar gyfer Maesgeirchen.

Prosiect Compassionate Cymru Garedig

Dyma brosiect newydd sbon yn Mantell Gwynedd a phenodwyd Swyddog i'r gwaith ym mis Mai 2022.

Gweledigaeth Compassionate Cymru Garedig yw fod Cymru yn genedl ystyrlon a gofalgar a phwrpas y gwaith yw helpu pobl i gyrchu a chynnig gwybodaeth, gofal a chefnogaeth mewn modd tosturiol yn eu cymunedau.

Trwy bartneriaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru mae Mantell Gwynedd yn cyflogi swyddog sydd yn darparu map o wasanaethau sydd ar gael ar gyfer gofal diwedd bywyd i blant, pobl ifanc ac oedolion, yn ogystal â chefnogaeth i rai sydd yn galaru. Bydd y Swyddog, yn ogystal â mapio darpariaeth gyfredol, hefyd yn adnabod bylchau mewn gwasanaeth ac yn gweithio gyda chymunedau er mwyn cyfarch y bylchau a sicrhau gwasanaethau cynaliadwy a phwrpasol.

Mae'r swydd wedi ei lleoli yn Mantell Gwynedd ond yn gwasanaethu siroedd Môn a Chonwy.

Y prif brosiectau yn y flwyddyn oedd – parhad

Gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd

Er bod darparu gwasanaeth cyflogres yn rhan o wasanaeth craidd Mantell Gwynedd i'r sector ers nifer o flynyddoedd bellach, bu cyfnod 2020-21 a Covid-19 gyda rheolau a gweithdrefnau gwaith newydd e.e. ffyrlo, yn rhan mawr o waith y Tim Cyllid yn ystod cyfnod Covid. Mae'r gwaith hwnnw o gynghori a chyfeirio yn parhau

Fel y gwelir yn yr Adroddiad Blynyddol eto eleni rhoddir sylw arbennig i'r gwaith yma oherwydd ei fod yn faes cefnogi dyrys iawn ac mae'r gwasanaeth cyflogres bellach yn cael ei ddarparu i nifer dda o fudiadau trydydd sector.

Mae'r Rheolydd Cyllid sydd yn arwain ar y gwasanaeth a'r cynorthwyydd cyllid sydd yn cynorthwyo gyda'r gwaith yn eu swyddi ers dros ugain mlynedd.

Gweinyddu Grantiau ar gyfer y sector

Mae Mantell Gwynedd yn parhau i weinyddu nifer o gronfeydd grant ar gyfer y sector. Yn ystod cyfnod Covid gweinyddwyd nifer o gronfeydd ar ran Llywodraeth Cymru gan gynnwys grantiau argyfwng Covid-19 a hefyd Grant Iechyd Meddwl ar ran y Bwrdd Iechyd.

Erbyn hyn mae'r grantiau a weinyddir yn cynnwys Grant Unigrwydd Llywodraeth Cymru a Grant y Rheilffordd.

Mae'r gwaith yn cael ei gydnabod yn bwysig gan ei fod yn gyfle, nid yn unig i gynnig ffynhonell ariannol ar gyfer mudiadau, ond hefyd yn gyfle i fynd ati i roi cefnogaeth lywodraethol i fudiadau sydd yn dangos diddordeb neu yn ymgeisio.

Mae'r gwaith o ddyrannu grantiau yn gwneud defnydd o'r Panel Grantiau sydd yn cynnwys aelodaeth o Fwrdd Rheoli Mantell Gwynedd yn ogystal â chynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol.

Adolygiad Ariannol

Mae'r elusen wedi gwneud diffyg o £47,632 y flwyddyn hon (2021: gwarged £172,131) cyn addasu am y cynllun pensiwn budd. Manylir mwy am y cronfeydd a'r cynllun pensiwn budd yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Polisi'r elusen ynglŷn â'r cronfeydd wrth gefn

Mae Mantell Gwynedd yn cydnabod ac yn derbyn ei gyfrifoldebau fel elusen a chyflogwr i ddiogelu eu dichonoldeb ariannol a pharhad y mudiad. Yn ôl canllawiau arfer dda'r Comisiwn Elusennau, cytunwn fod arian yn cael eu clustnodi i gronfa wrth gefn.

Pwrpas y gronfa fydd:-

- I sicrhau llif arian (gwarchod rhag oediad derbyn arian refeniw);
- I warchod rhag unrhyw ddigwyddiad annisgwyl;
- I roi cyfle i ddenu/adnabod ffynonellau ariannol newydd pe bai ffynonellau presennol yn cael eu cwtogi;
- I sicrhau pe bai ariannu yn dod i ben, bod y mudiad yn gallu cwblhau ei ymrwymiadau ariannol a chyfreithiol wrth ddirwyn i ben.

Bydd lefel y gronfa wrth gefn yn cael ei hadolygu yn flynyddol gan y Bwrdd. Oni bai cytunir yn wahanol bydd y cwmni yn cadw o leiaf dau fis o gostau rhedeg y mudiad, a cheisio i gynyddu'r gronfa i swm sydd yn gyfartal i 4 mis o gostau rhedeg. Mae dadansoddiad o'r cronfeydd a sefyllfa'r cynllun pensiwn budd yn nodyn 11 o'r cyfrifon.

Cynlluniau i'r dyfodol

- Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sef ein cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae Mantell Gwynedd yn un o aelodau o'r Bartneriaeth Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi'r sector a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Bydd Mantell Gwynedd yn cyflawni'r Cytundeb trwy ddarparu cefnogaeth mewn pedwar maes, sef Llywodraethu Da, Gwirfoddoli, Cyllid Cynaliadwy ac Ymgysylltu a Dylanwadu.

- Rhoddodd COVID-19 ffocws newydd ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac ar draws sectorau. Byddwn yn parhau i gyd weithio mewn partneriaeth er lles poblogaeth Gwynedd ac yn gobeithio bydd y partneriaethau rheiny yn parhau i ffynnu a thyfu.

- Trwy ein prosiect Social Value Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Trwy'r gwaith hwn rydym yn gallu dangos sut yr ydym fel sector yn datgloi potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar gyrff cyhoeddus ac yn sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Bydd gofyniad ar i gyrff cyhoeddus penodol gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol trwy gadwyni cyflenwi. Mae hwn yn gam allweddol wrth i waith Social Value Cymru ddatblygu.

- Byddwn yn ceisio ymestyn ein gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod mudiadau'r trydydd sector yn cael y cyfle i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu cefnogaeth i unigolion sydd heb anghenion clinigol. Gobeithiwn uchafu potensial mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu i'r agenda llesiant wrth wneud hyn, a thrwy hynny, yn gwireddu potensial Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn rhoi'r trydydd sector wrth galon darparu a chynllunio gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fesur gwerth cymdeithasol y prosiect er mwyn darparu tystiolaeth o'r angen am wasanaethau trydydd sector.

- Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd ymarferol o gefnogi'r trydydd sector i gydymffurfio gyda safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a byddwn yn manteisio ar bob cyfle posibl i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y trydydd sector, yn enwedig yn y maes Gwirfoddoli gan adeiladu ar y gwaith da mae Mantell Gwynedd eisoes wedi arwain arno.

- Byddwn yn gweithio gydag phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r agenda newid hinsawdd a hyrwyddo ymarfer da o fewn y sector.

- Wrth i'r wlad wynebu heriau economaidd aruthrol byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r creisis costau byw.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried adroddiad y Comisiwn Elusennau ynglŷn â Budd i'r Cyhoedd ac maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r prawf hwnnw.

Polisi ac Amcanion Buddsoddiadau

Yn unol â'r Memorandwm ac Erthyglau y mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pwêr i fuddsoddi pan maent yn credu fod y buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol gweladwy.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o Mantell Gwynedd Cyf. at bwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r adroddiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (UK GAAP).

Mae cyfraith cwmni yn ei wneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi Adroddiadau Ariannol am bob cyfnod ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac o incwm a gwariant y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu gweithredu yn gyson;
- dilyn egwyddorion a gweithdrefnau sydd yn y SORP elusennau;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifo sydd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan os yw Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig berthnasol wedi eu dilyn, yn amodol i unrhyw newid materol sydd wedi eu datguddio a'u hegluro yn yr Adroddiadau Ariannol, a
- paratoi adroddiadau ariannol ar sail bod y busnes yn parhau oni bai nad yw yn addas i gymeryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac i'w galluogi i sicrhau bod yr Adroddiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedion y cwmni elusennol a thrwy hynny cymeryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cyn belled a bod yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:-

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohono, ac
- y mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymeryd y camau sy'n ddyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn hysbys o unrhyw wybodaeth fyddai'n berthnasol i'r archwiliad, ac i sicrhau fod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hynny.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gofal a chywirdeb yr wybodaeth corfforedig ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar safle wê y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli, paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodau eraill.

Trwy orchymyn y bwrdd ar Hydref 21ain 2022

..... Bethan Russell Williams (Ysgrifennydd)

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU

MANTELL GWYNEDD CYF.

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Barn

Ariennir y gwaith trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r prosiect yn mynd ers 2016 gyda thros 1,000 o unigolion wedi cael budd o'r prosiect ers iddo gychwyn bum mlynedd yn ôl.

Yn ystod 2020-21 bu i 280 o unigolion gael cefnogaeth y Swyddog Presgripsiwn Cymdeithasol. 'Roedd 167 o unigolion gyfeiriwyd at y prosiect yn ferched a 113 yn ddynion.

Gwnaed darn o waith i fesur Gwerth Cymdeithasol y prosiect ac yn ystod 2020-21 am bob £1 a fuddsoddwyd crewyd £6.60 o werth cymdeithasol.

Mae unigolion yn cael eu cyfeirio i'r prosiect gan Feddygon Teulu, Therapyddion, gweithwyr iechyd meddwl a gweithwyr cymunedol , ond hefyd gall unigolion hunan gyfeirio. Yn ystod 2020-21 'roedd 63 o'r cyfeiriadau gan Feddygon Teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol.

"Oherwydd eich help chi 'rwyf yn awr yn byw mewn lle diogel a chynnes " ***Defnyddiwr gwasanaeth Presgrispiwn Cymdeithasol Arfon***

Prosiect Hwylusydd Llesiant

Mae'r Hwylusydd Llesiant yn cael ei hariannu trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Derbyniodd yr Hwylusydd 1560 o ymholiadau yn ystod 2020-21 a bu'r swydd yn greiddiol yn ystod cyfnod Covid-19 gyda'r Hwylusydd yn bwynt cyswllt pwysig i fudiadau ac asiantaethau.

Yn ystod y flwyddyn bu'r Hwylusydd yn cynnal cyfarfodydd /gweithdai a chefnogi fforymau a rhwydweithiau lleol gan sicrhau llais i fudiadau trydydd sector a hyrwyddo eu cyfraniad i'r agenda iechyd a llesiant.

Prosiect Social Value Cymru

Mae Mantell Gwynedd wedi bod yn arwain ar waith mesur gwerth cymdeithasol ers 2016. Erbyn hyn mae yma dîm o swyddogion sydd wedi cymhwyso i safon uchel i ymgymryd â gwaith mesur gwerth cymdeithasol. Mae Mantell Gwynedd wedi ennill marc ansawdd COMMIT trwy Social Value UK , sydd yn cydnabod fod gwerth cymdeithasol wedi ei wreiddio yn holl waith y cwmni. Mantell Gwynedd yw'r unig gorff ymbarel yn y DU i ennill y statws hwn.

Yn ystod cyfnod Covid-19 ariannwyd y gwaith yn rhannol trwy arian ychwanegol o Lywodraeth Cymru ac erbyn hyn mae y prosiect yn hunan gynhaliol gan ddenu gwaith comisiwn i'w gynnal.

Prosiectau- parhad

Prosiect Social Value Cymru -parhad

Yn ystod 2020-21 bu'r swyddogion yn mesur gwerth cymdeithasol rhai o'r prosiectau fu'n llwyddiannus yn denu grantiau Covid-19. Bu'r gwaith hwn o gymorth i ddenu cyllid grant ychwanegol i'w ddyrannu o fewn y trydydd sector.

Prosiect Swyddog Cymunedol MaesNi

Ers 2018 mae Mantell Gwynedd yn cyflogi Swyddog Cymunedol i weithio yn ardal Maesgeirchen. Gwneir hyn trwy waith partneriaeth hefo Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a rhaglen Buddsoddi'n Lleol. Cefnogir y gwaith trwy arian Loteri.

Mae'r swyddog wedi canolbwyntio ar weithio gyda'r gymuned i ganfod eu blaenoriaethau er mwyn cefnogi'r prosiect adeiladu hwb cymunedol newydd a manteisio ar gyfleoedd i'r gymuned ymgysylltu gyda'r prosiect Buddsoddi'n Lleol.

Yn ystod cyfnod Covid-19 bu'r swyddog yn ganolog i drefniadau cefnogi trigolion yr ardal. Mae'r swyddog yn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu cefnogaeth fwyd, cefnogi materion iechyd meddwl, hyrwyddo a threfnu cyfleoedd i drigolion ddod at ei gilydd, mynediad at gefnogaeth ariannol a hefyd, erbyn hyn, yn rhan o gynllun peilot Cefnogaeth Covid-19 gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol.

Gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd

Er bod darparu gwasanaeth cyflogres yn rhan o wasanaeth craidd Mantell Gwynedd i'r sector ers nifer o flynyddoedd bellach, bu cyfnod 2020-21 a Covid-19 gyda rheolau a gweithdrefnau gwaith newydd e.e. ffyrlo, yn rhan mawr o waith y Tim Cyllid yn ystod y flwyddyn.

Fel y gwelir yn yr Adroddiad Blynyddol rhoddir sylw arbennig i'r gwaith yma oherwydd ei fod wedi bod yn faes cefnogi dyrys iawn a chwbl newydd. Bu cynnydd sylweddol yn yr ymholiadau gan fudiadau oedd yn ceisio dod i drefn gyda gofynion ffyrlo a phatrymau gweithio newydd.

"wedi bod o gymorth mawr i ni yn ystod cyfnod ansicr" Cylch Meithrin Maesincla

Adolygiad Ariannol

Mae'r elusen wedi gwneud gwarged o £172,131 y flwyddyn hon (2020: diffyg £43,175) cyn addasu am y cynllun pensiwn budd. Manylir mwy am y cronfeydd a'r cynllun pensiwn budd yn y nodiadau i'r cyfrifon. Derbyniwyd cyllid ychwanegol eleni drwy law'r CGGC er mwyn sicrhau argaeledd ein gwasanaethau i'r trydydd sector yn ystod y cyfnod Covid -19.

Polisi'r elusen ynglŷn â'r cronfeydd wrth gefn

Mae Mantell Gwynedd yn cydnabod ac yn derbyn ei gyfrifoldebau fel elusen a chyflogwr i ddiogelu eu dichonoldeb ariannol a pharhad y mudiad. Yn ôl canllawiau arfer dda'r Comisiwn Elusennau, cytunwn fod arian yn cael eu clustnodi i gronfa wrth gefn.

Pwrpas y gronfa fydd:-

- I sicrhau llif arian (gwarchod rhag oediad derbyn arian refeniw);
- I warchod rhag unrhyw ddigwyddiad annisgwyl;
- I roi cyfle i ddenu/adnabod ffynonellau ariannol newydd pe bai ffynonellau presennol yn cael eu cwtogi;
- I sicrhau pe bai ariannu yn dod i ben, bod y mudiad yn gallu cwblhau ei ymrwymiadau ariannol a chyfreithiol wrth ddirwyn i ben.

Bydd lefel y gronfa wrth gefn yn cael ei hadolygu yn flynyddol gan y Bwrdd. Oni bai cytunir yn wahanol bydd y cwmni yn cadw o leiaf dau fis o gostau rhedeg y mudiad, a cheisio i gynyddu'r gronfa i swm sydd yn gyfartal i 4 mis o gostau rhedeg. Mae dadansoddiad o'r cronfeydd a'r diffyg ar y cynllun pensiwn budd yn nodyn 11 o'r cyfrifon.

Cynlluniau i'r dyfodol

- Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sef ein cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae Mantell Gwynedd yn un o aelodau Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi'r sector a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Bydd Mantell Gwynedd yn cyflawni'r Cytundeb trwy ddarparu cefnogaeth mewn pedwar maes, sef Llywodraethu Da, Gwirfoddoli, Cyllid Cynaliadwy ac Ymgysylltu a Dylanwadu.
- Mae COVID-19 wedi rhoi ffocws newydd ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac ar draws sectorau. Byddwn yn parhau i gyd weithio mewn partneriaeth er lles poblogaeth Gwynedd ac yn gobeithio bydd y partneriaethau rheiny yn ffynnu a thyfu.
- Trwy ein prosiect Social Value Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Trwy'r gwaith hwn rydym yn gallu dangos sut yr ydym fel sector yn gallu datgloi potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd prosiect Social Value Cymru yn hunan gynhaliol ac felly bydd angen sicrhau gwaith digonol i gadw'r prosiect i fynd.
- Byddwn yn ceisio ymestyn ein gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod mudiadau'r trydydd sector yn cael y cyfle i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu cefnogaeth i unigolion sydd heb anghenion clinigol. Gobeithiwn uchafu potensial mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu i'r agenda llesiant wrth wneud hyn, a thrwy hynny gwireddu potensial Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn rhoi'r trydydd sector wrth galon darparu a chynllunio gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fesur gwerth cymdeithasol y gwaith pwysig yma er mwyn sicrhau fod gennym dystiolaeth i ymgeisio am gyllid i barhau'r gwaith.
- Byddwn yn edrych ar ffyrdd ymarferol o gefnogi'r trydydd sector i gydymffurfio gyda safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a byddwn yn manteisio ar bob cyfle posibl i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y trydydd sector.
- Byddwn yn gweithio gydag eraill er mwyn mynd i'r afael â'r agenda newid hinsawdd a hyrwyddo ymarfer da o fewn y sector.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried adroddiad y Comisiwn Elusennau ynglŷn â Budd i'r Cyhoedd ac maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r prawf hwnnw.

Polisi ac Amcanion Buddsoddiadau

Yn unol â'r Memorandwm ac Erthyglau y mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pwêr i fuddsoddi pan maent yn credu fod y buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol gweladwy.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o Mantell Gwynedd Cyf. at bwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r adroddiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (UK GAAP).

Mae cyfraith cwmni yn ei wneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi Adroddiadau Ariannol am bob cyfnod ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac o incwm a gwariant y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu gweithredu yn gyson;
- dilyn egwyddorion a gweithdrefnau sydd yn y SORP elusennau;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifo sydd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan os yw Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig berthnasol wedi eu dilyn, yn amodol i unrhyw newid materol sydd wedi eu datguddio a'u hegluro yn yr Adroddiadau Ariannol, a
- paratoi adroddiadau ariannol ar sail bod y busnes yn parhau oni bai nad yw yn addas i gymeryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac i'w galluogi i sicrhau bod yr Adroddiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedion y cwmni elusennol a thrwy hynny cymeryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cyn belled a bod yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:-

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohono, ac
- y mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymeryd y camau sy'n ddyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn hysbys o unrhyw wybodaeth fyddai'n berthnasol i'r archwiliad, ac i sicrhau fod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hynny.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gofal a chywirdeb yr wybodaeth corfforedig ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar safle wê y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli, paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodau eraill.

Trwy orchymyn y bwrdd ar Hydref 22ain 2021

..... Bethan Russell Williams (Ysgrifennydd)

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU

MANTELL GWYNEDD CYF.

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Mantell Gwynedd Cyf. am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth, 2021 sydd yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol yn cynnwys crynodeb o'r polisiau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith ar gyfer Adroddiadau Ariannol sydd wedi ei ddefnyddio wrth baratoi'r cyfrifon yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (UK GAAP)

Yn ein barn ni mae'r cyfrifon:-

- yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg, o gyflwr ariannol y cwmni elusennol ar 31 Mawrth, 2021 a'r adnoddau mewnol ac adnoddau a ddefnyddiwyd, yn cynnwys ei incwm a gwariant am y flwyddyn;
- wedi eu paratoi yn gywir yn unol ag Egwyddorion Cyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail i'r farn roddwyd

Gwnaethpwyd yr archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Gyfunol) (ISAs (UK)) a'r gyfraith perthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu manylu'n bellach yn y datganiad am gyfrifoldebau'r archwilwyr yn ein hadroddiad. Yr ydym yn annibynnol yn unol â gofynion moesegol y Deyrnas Gyfunol sydd yn berthnasol i'n archwiliad o'r cyfrifon, yn cynnwys Safonau Moesegol y FRC, ac yr ydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hynny. Yr ydym o'r farn fod y dystiolaeth gasglwyd yn briodol ac yn ddigonol i'n gallugoi i ffurfio barn.

Casgliadau yn ymweud a sail busnes byw

Wedi archwilio'r cyfrifon yr ydym wedi dod i'r canlyniad ei bod yn briodol i'r ymddiriedolwyr baratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Yn seiliedig ar y gwaith wnaethpwyd, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol fyddai, yn unigol neu ar y cyd , yn creu amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i hawlio sail busnes byw am o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad pryd mae'r cyfrifon yn cael eu awdurdodi.

Mae ein cyfrifoldebau fel archwilwyr a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr yn ymwneud â sail busnes byw wedi ei fanylu yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad.

Gwybodaeth Ychwanegol

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am yr wybodaeth ychwanegol, sydd yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiadau ariannol, ac eithrio'r cyfrifon a'n adroddiad. Nid ydyw ein barn ar yr adroddiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth ychwanegol hwn, arwahan ein bod yn manylu hynny yn ein hadroddiad, ac felly nid ydym yn datgan unrhyw farn arno. Yng nghyswllt ein archwiliad o'r adroddiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ydyw i ddarllen yr wybodaeth ychwanegol ac ystyried os ydyw'n faterol wahanol i'r adroddiadau, neu'r wybodaeth yr ydym wedi ei gasglu yn ystod yr archwiliad, neu ei fod yn ymddangos wedi ei gam ddatgan. Os ydym yn darganfod unrhyw anghysondeb neu gamddatganiad materol, y mae'n gyfrifoldeb arnom i asesu os ydyw'n gamddatganiad yn yr adroddiadau ariannol neu'r wybodaeth ychwanegol. Os yr ydym yn casglu fod camddatganiad yn yr wybodaeth ychwanegol mae'n ofynnol arnom i ddatgan hynny. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth i'w ddatgan yn y cyswllt hwn.

Barn ar fater arall a argymhellir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol yn gyson gyda'r Adroddiadau Ariannol, ac wedi ei baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Yng nghyswllt ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r cwmni elusennol, nid ydym wedi darganfod unrhyw gam ddatgeliadau materol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn ôl ynglŷn â'r materion canlynol, ble mae'n ofynnol i ni adrodd i chwi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, os yn ein barn ni:-

- nad yw cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw na dogfennau digonol ar gyfer ein harchwiliad wedi eu derbyn gan y safleoedd nad ydym wedi ymweld â hwy;
- nid yw'r Datganiadau Ariannol yn cytuno gyda'r cofnodion cyfrifo na'r dogfennau;
- nid yw datgeliadau o daliadau i'r Ymddiriedolwyr sy'n ofynnol i'w ddatgelu yn ôl y gyfraith wedi eu gwneud;
- nid ydym wedi derbyn y cyfan o'r wybodaeth a'r esboniadau yr oedd eu hangen er mwyn gwneud yr archwiliad; neu
- nad oedd gan yr Ymddiriedolwyr yr hawl i baratoi'r cyfrifon yn unol â threfniadau cwmnïau bychain na chymeryd mantais o ryddhadau cwmni bychain wrth baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a pheidio paratoi adroddiad strategol.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel sydd wedi ei esbonio yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr (ar dudalen 7), mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr y Cwmni Elusennol ar gyfer pwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiadau Ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi golwg cywir a theg.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr - parhad

Maent hefyd yn gyfrifol am ffurfio rheoliadau mewnol er mwyn sicrhau fod yr Adroddiadau Ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiad materol, boed hynny yn sgil camgymeriad neu dwyll.

Wrth baratoi'r adroddiadau mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau ar sail busnes hyfyw, neu ddatgelu gwybodaeth i'r gwrthwyneb os yn berthnasol.

Cyfrifoldebau'r Archwilwyr

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon a bodloni ein hunain eu bod yn rhydd o unrhyw gamddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu anghysonderau eraill, a chyhoeddi adroddiad sydd yn cynnwys ein barn. Ni allwn sicrhau y bydd archwiliad sydd wedi ei wneud yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Gyfunol) yn darganfod camddatganiad materiol ym mhob achos. Gall camddatganiad ddigwydd ohewydd twyll neu anghysondeb arall, a caiff ei ystyried yn faterol os, yn unigol, neu mewn cyfanswm, y byddai'n ddigonol i ddylanwadu penderfyniadau sydd wedi eu selio ar y cyfrifon hyn.

Yr ydym wedi cynllunio'r archwiliad i gyd fynd â'r cyfrifoldebau uchod er mwyn adnabod camddatganiadau materol o ganlyniad i anghysonderau neu dwyll.

Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod anghysonderau, yn cynnwys twyll:

Mae anghysonderau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag anghysonderau, gan gynnwys twyll:

-Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol ar gael i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys
-Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol trwy drafodaethau â'r ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector
-Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithgareddau'r Cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmniau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac amgylcheddol.
-Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gyda'r rheolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol,a
-Cyfleu y deddfau a rheoliadau a nodwyd o fewn y tim archwilio yn rheolaidd gan sicrhau ymwybyddiaeth gyson drwy'r archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y Cwmni i gamddatganiad materol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:

-Wneud ymholiadau ynglyn â'r tueddiad i dwyll, gwybodaeth am dwyll gwirioneddol, amheus a honedig;
-Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn a diystyru rheolaethau, rydym yn:

-Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl;
-Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;

Gweithdrefnau - parhad

-Asesu a oedd dyfyrniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl,
-Ymchwilio i'r rhesymeg tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin

Mewn ymateb i'r risg o anghysonderau a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

-Cytuno datgeliadau'r datganiadau ariannol i ddogfennau atebol sylfaenol;
-Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethau;
-Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
-Adolygu'r gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y Cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio ddisgrifiwyd uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol ydyw y byddwn yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad gan fod bosib iddynt gynnwys elfen o guddiad neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Mae mwy o wybodaeth am gyfrifoldebau archwilwyr ar gael ar safle wê y Financial Reporting Council (FRC) (www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n adroddiad.

Defnydd o'r adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r cwmni yn unig yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Gwnaethpwyd y gwaith archwilio er mwyn ein galluogi i adrodd yr hyn yr oedd cyfrifoldeb arnom i gynnwys yn Adroddiad yr Archwilydd yn unig, ac i ddim pwrpas ychwanegol. Hyd eithaf yr hyn ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymeryd cyfrifoldeb i unrhyw gorff yn ychwanegol i'r cwmni a'r aelodau am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad a'r farn a ffurfiwyd gennym.

Iona Hughes

18.1.22

Iona Hughes
Prif Archwiliwr Statudol
Dros ac ar ran:
OWAIN BEBB A'I GWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
ARCHWILWR STATUDOL

32 Y MAES
CAERNARFON

MANTELL GWYNEDD CYF.

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL

(DATGANIAD CYNHWYSFAWR O INCWM A GWARIANT)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Incwm a gwaddolion o:					
Rhoddion					
Incwm gwirfoddol	2	372303	-	372303	194975
Weithgareddau elusennol					
Cefnogi'r Trydydd Sector	2	162796	241272	404068	650615
Llôg banc		2381	-	2381	2422
Cyfanswm		537480	241272	778752	848012
Gwariant ar weithgareddau elusennol					
Cefnogi'r Trydydd Sector	2	334178	272443	606621	891187
Cyfanswm		334178	272443	606621	891187
Incwm Net cyn enillion a cholledion cydnabyddedig		203302	(31171)	172131	(43175)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		(287)	287	-	-
		203015	(30884)	172131	(43175)
Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill					
(Colledion)/Enillion actiwaraidd ar gynllun Pensiwn budd	9	(122000)	-	(122000)	385000
Symudiadau yn y cronfeydd		81015	(30884)	50131	341825
Cyfanswm cronfeydd d/y		515559	77786	593345	251520
Cyfanswm cronfeydd c/y	11	596574	46902	643476	593345

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae Cyfarwyddwyr y cwmni yn dymuno tynnu sylw at y ffaith fod y gronfa bensiwn wedi dylanwadu ar y ffigyrau ariannol terfynol. Maent yn awyddus i nodi fod sefyllfa Cronfa Bensiwn Gwynedd tu hwnt i reolaeth y cwmni.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 15 i 26 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

MANTELL GWYNEDD CYF.

DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL

AR 31 MAWRTH 2021

	Nodyn	2021 £	2020 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau Gweladwy a ddefnyddir gan yr Elusen	5	117585	119281
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	6	11788	53626
Arian yn y banc ac mewn llaw		733998	501802
CYFANSWM ASEDAU CYFREDOL		745786	555428
CREDYDWYR: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	(22895)	(19364)
ASEDAU CYFREDOL NET		722891	536064
Cyfanswm asedau llai credydwyr cyfredol		840476	655345
Rhwymedigaeth cynllun pensiwn budd	9	(197000)	(62000)
ASEDAU NET YN CYNNWYS RHWYMEDIGAETH PENSIWN		643476	593345
CRONFEYDD			
Cronfeydd Anghyfyngedig	11		
- Cronfa Gyffredinol		706990	490975
- Cronfa Benodol		86584	86584
- Cronfa Pensiwn		(197000)	(62000)
Cronfa Gyfyngedig	11	46902	77786
CYFANSWM CRONFEYDD		643476	593345

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Bwrdd ac arwyddwyd ar eu rhan ar Hydref 22ain 2021 gan:-

..... Gwen Griffith (Cyfarwyddwr)

Rhif Cofrestredig 3420271

Mae'r nodiadau ar dudalennau 15 i 26 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

MANTELL GWYNEDD CYF

DATGANIAD LLIF ARIAN

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

	2021 £	2020 £
Llif arian o weithgareddau gweithredol (datganiad o symudiadau ariannol)	50131	341825
Addasu am		
Dibrisio	1696	1848
Llogau dderbyniwyd	(2381)	(2422)
	49446	341251
Newid yn y:		
Dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill	41838	38882
Credydwyr masnachol a chredydwyr eraill	3531	(14968)
Pensiwn cynllun budd	135000	(343000)
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	229815	22165
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Llôg dderbyniwyd	2381	2422
Llif arian net o weithgareddau yn y cyfnod	232196	24587
Newid net mewn arian a'r hyn sydd yn cyfateb i arian	232196	24587
Ar gychwyn y flwyddyn	501802	477215
Ar ddiwedd y flwyddyn	733998	501802

Mae'r nodiadau ar dudalennau 15 i 26 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

MANTELL GWYNEDD CYF.

NODIADAU I'R CYFRIFON

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

1. **Polisïau Cyfrifo**
Gwybodaeth Gyffredinol

Mae'r elusen yn gwmni cyfyngedig preifat heb gyfranddaliadau wedi ei gofrestru yng Nghymru, ac yn elusen gofrestredig yng Nghymru. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw 23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd.

Y mae'r elusen yn cwrdd a diffiniad FRS 102 o endid sydd yn rhoi budd i'r cyhoedd.

Sail Cyfrifo/Datganiad Cydymffurfio

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi o dan y ddefod cost hanesyddol a'r Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a'r SORP FRS102 ar gyfer elusennau a'r Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi mewn sterling, sef arian swyddogaethol y cwmni elusennol.

Busnes Hyfyw

Ym marn yr ymddiriedolwyr nid oes unrhyw ansicrwydd ynglyn â gallu'r elusen i barhau mewn busnes.

Dyfarniadau a phrif ansicrwydd parthed amcangyfrifon

Wrth baratoi'r Adroddiadau Ariannol mae'n ofynnol gwneud dyfarniadau, amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y ffigyrau a roddwyd. Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau yma yn cael eu hadolygu'n gyson ac maent wedi eu selio ar brofiad o ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau a digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Dibrisio/Amhariad gwerth asedau sefydlog

Mae'r asedau sefydlog wedi eu dangos yn ôl eu cost (ble mae'r gost yn fwy na £1000) a'u dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ar y graddfeydd canlynol:-

Tir ac Eiddo	- 1% pob blwyddyn
Offer Cyffredinol	- 25% pob blwyddyn
Offer Cyfrifiadurol	- 25% i 33% pob blwyddyn

Cynhelir adolygiad blynyddol ar gyfer adnabod unrhyw nam ar werth yr asedau sefydlog, a pan fo'r gwerth yn fwy na'r swm y gellir ei adennill gwneir cofnod cyfrifo o'r amhariad. Adolygir unrhyw amhariad blaenorol a'i wrthdroi os yn berthnasol.

Cyfrifo ar gyfer y cronfeydd

Mae'r cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu nôd elusennol y cwmni.

Mae cronfeydd penodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu clustnodi gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer pwrpas penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi eu cyfyngu yn ôl eu defnydd i gynlluniau priodol yn unol ac amodau'r arianwyr.

Incwm

Mae'r holl incwm yn cael ei gynnwys yn y datganiad o symudiadau ariannol pan mae'r hawl i'r incwm wedi trosglwyddo i'r elusen; y mae'n debygol y bydd y manteision economaidd sy'n gysylltiedig yn llifo i'r elusen, gall y swm gael ei fesur yn ddibynadwy a bod unrhyw amodau wedi eu cwrdd,neu o fewn gallu'r elusen i'w cwrdd.

Prif elfen incwm yw grantiau a chytundebau o wahanol ffynonellau.

1. **Polisïau Cyfrifo - parhad**

Incwm - parhad
Caiff incwm cyfyngedig ei gynnwys mewn cronfa gyfyngedig a'i gyfatebu â'r gwariant.

Mae'r incwm wedi ei rannu rhwng y gwahanol gronfeydd. Mae'r arian craidd yn cael ei ddangos fel incwm gwirfoddol. Mae incwm eraill yn cael ei ddangos fel incwm o weithgareddau'r elusen, sy'n cynnwys cytundebau gyda gwahanol arianwyr a gwasanaethau sydd yn ran o weithgareddau'r cwmni er mwyn hybu ei nôd elusennol yn unol â'r SORP, fel y nodir yn nodyn 2. Mae incwm yn cael ei ohirio ble mae wedi ei dderbyn ymlaen llaw.

Mae rhai cytundebau cyfyngedig yn gadael y cwmni ail ddosbarthu costau rhedeg fel costau'r cytundebau ac mae'r incwm yn cael ei ddangos fel incwm anghyfyngedig. Mae'r trafodion yma yn cael eu dangos ar wahân yn y Datganiad o Symudiadau Ariannol. Cyfanswm 2021 oedd £35,679 (2020: £69,004).

Derbyniwyd grantiau gan Llywodraeth Cymru drwy law Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a'r Llywodraeth Leol fel y'i manylir yn nodyn 2.

Costau

Cynhwysir holl gostau'r elusen yn natganiad y symudiadau ariannol yn unol â'r drefn o gronni costau, ble mae dyletswydd gyfreithiol yn bodoli. Mae'r gwariant yn cynnwys unrhyw Treth ar Werth gan na ellir ei adennill.

Manylwyd y costau yn ôl canllawiau'r Datganiad o Arferion ac Argymhellion (SORP) ble mae nôd yr elusen yn cael ei ddangos fel costau gweithgareddau'r elusen, wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hynny sydd yn hyrwyddo ei nodau elusennol er budd ei buddiolwyr. Mae costau llywodraethu yn cynnwys costau cefnogol llywodraethu'r elusen, ac yn ffurfio rhan o gostau'r gweithgareddau elusennol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadrodd wrth natur y gwariant. Mae gwariant cyfyngedig yn cael ei ddyrannu i gronfa gyfyngedig.

Costau cefnogol

Y mae'r costau wedi eu manylu yn y datganiad o symudiadau ariannol a'r nodiadau. Gan mai gweithgareddau elusennol yn unig sydd, a dim gweithgareddau codi arian, nid oes rhaniad pellach wedi ei wneud o'r costau cefnogol.

Cynllun Grantiau

Mae'r cwmni yn gweithredu cynlluniau grantiau a gweler yn nodyn 2.

Cynlluniau Pensiwn

Mae'r cwmni yn aelod o gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd sydd yn gynllun budd wedi ei ddiffinio. Mae'r cynllun yn cael ei reoli gan y "Local Government Pension Scheme Regulations 1997".

Mae'r symiau sydd wedi eu codi yn erbyn yr elw gweithredol yn cynrychioli cost lefel bresennol o'r gwasanaeth ynghyd a'r elw neu'r colledion ar y setliadau a'r cwtogiadau lle yn berthnasol. Maent wedi eu cynnwys fel rhan o gostau staff. Mae costau gwasanaeth yn y gorffennol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Symudiadau Ariannol yn syth os yw'r buddiannau mewn meddiant.

Os nad yw'r buddiannau mewn meddiant yn syth, yna mae'r costau yn cael eu cydnabod dros gyfnod tan fod y buddiannau yn dod i feddiant. Mae'r llog ar adenillion ar yr asedau yn cael eu netio i ffwrdd o gostau cyllido a chredits tebyg o dan llog. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth yn natganiad yr enillion a'r colledion cydnabyddiedig.

Mae'r cynllun wedi ei gyllido, gyda'r asedion o'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedion y cwmni, mewn cronfeydd sydd wedi eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr.

1. Polisïau Cyfrifo - parhad

Cynlluniau Pensiwn - parhad

Mae asedion y cynllun pensiwn wedi eu mesur yn ôl gwerth teg ac mae'r rhwymedigaethau yn cael eu mesur ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau ac wedi eu disgowntio ar gyfradd sy'n cyfateb i hynny a geir ar fond corfforaethol o safon uchel, yn yr un cyfred ariannol a'r un cyfnod a dyledion y cynllun.

Mae'r prisiadau actiwaraidd yn cael eu paratoi o leiaf bob tair blynedd ac maent yn cael eu hadolygu ar bob pen blwyddyn. Mae'r ddyled budd diffiniedig a geir wedyn yn cael ei gyflwyno ar wahân i weddill yr asedion ar wyneb y Fantolen.

Mae'r cwmni wedi dechrau cynllun pensiwn arall gyda "The Pension Trust" i aelodau newydd, ble mae'r cyflogwr yn talu 10%. Cynllun pensiwn cyfraniad ydyw ble mae'r gôst yn cael ei rannu yn unol a swyddogaeth yr unigolion.

Les Gweithredol

Mae lesi gweithredol yn cael eu dangos yn y datganiad o symudiadau ariannol fel y maent yn codi.

Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr ar y swm cytundebol ar ôl unrhyw ddisgownt perthnasol

Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys arian a symiau wedi eu buddsoddi tymor byr, ble mae'r gwerth yn wybyddus a'r risg o newid yn isel.

Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar y swm setlo llai unrhyw ddisgownt

Asedau Ariannol

Mae ased neu rhwymedigaeth ariannol yn cael ei adnabod pan fydd yr elusen yn barti i ddarpariaeth cytundebol.

Mae asedau neu rhwymedigaethau sylfaenol yn cael eu cydnabod ar y swm derbyniadwy neu sy'n daladwy gan gynnwys unrhyw gostau trafodion cysylltiedig, oni bai bod y trefniant yn gyfystyr a chytundeb ariannu, lle caiff ei gydnabod ar werth presennol taliadau y dyfodol wedi'i addasu ar gyfradd llog y farchnad ar ddyled tebyg.

2. Datganiad o Symudiadau Ariannol

Mae'r gwarged am y flwyddyn ar ôl codi am y canlynol:-

	2021 £	2020 £
Dibrisio	1696	1848
Ffioedd yr Archwilwyr - Archwilio	4750	4750
Tâl a phensiwn Ymddiriedolwyr	-	-
	=====	=====

2. **Datganiad o Symudiadau Ariannol - parhad**

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Incwm - Rhoddion				
WCVA – arian craidd	196165	-	196165	194975
WCVA – arian craidd ychwanegol Covid-19	176138	-	176138	-
	372303	-	372303	194975
Incwm - Gweithgareddau Elusennol				
Grant Cymorth Busnes Gwynedd	76000	-	76000	-
Adeiladu Pontydd Cadarn	-	40269	40269	38885
WCVA - GwirVol	-	6650	6650	11650
Gwynedd - Cytundeb gwasanaeth	8880	-	8880	8880
Cyngor Môn	-	-	-	849
Ffi Asiantaeth	14562	-	14562	32959
Ffi Gweinyddol	21117	-	21117	36045
Incwm arall - Gwasanaethau a chyrsiau	11737	-	11737	45934
Loteri - Social Value Cymru	-	-	-	162662
Cyngor Sir Fflint	-	-	-	5000
Incwm SROI	20500	-	20500	16230
Presgripsiwn Cymdeithasol	-	57000	57000	57000
Cartrefi Cymunedol Gwynedd – Datblygu Maesgeirchen	-	25511	25511	25051
Cyngor Môn – Trawsnewid Plant	-	34000	34000	-
Gallaf I	-	-	-	209470
WCVA – Comic Relief	-	26591	26591	-
WCVA – Cronfa Argyfwng y Trydydd Sector	-	51251	51251	-
WCVA – Secondiad Gwirfoddoli	10000	-	10000	-
	162796	241272	404068	650615
Gwariant - Gweithgareddau Elusennol				
Cyflogau a theithio	231958	135726	367684	466559
Costau ymgynghorwyr	-	5000	5000	30000
Hysbysebu a hyrwyddo	1118	1614	2732	10498
Hyfforddiant a recriwtio staff	15	865	880	1577
Costau rhedeg y swyddfa	17278	2478	19756	30593
Costau gweinyddol	-	21117	21117	36603
Gwasanaethau a chyrsiau	82	35	117	11734
Costau safle	57628	1595	59223	56970
Costau banc	93	-	93	76
Costau cyllid net	2002	-	2002	10407
Dibrisio	1696	-	1696	1848
Grantiau	-	87225	87225	12300
Costau Uned Symudol	-	289	289	3975
Costau rhedeg prosiectau	-	16499	16499	200713
Costau gwerthuso	16000	-	16000	10000
Ad-dalu grant Ymwybyddiaeth Awtistiaeth	-	-	-	1044
Costau Llywodraethu:-				
Archwilio a chyfrifo	5895	-	5895	5880
Costau proffesiynol	413	-	413	-
Costau'r pwyllgor	-	-	-	410
	334178	272443	606621	891187

2. **Datganiad o Symudiadau Ariannol - parhad**

	2021 £	2020 £
Grantiau - Mudiadau		
WCVA Grantiau dan arweiniad (2021:6)	5000	12300
Trawsnewid gwasanaethau plant a phobl ifanc (2021:8)	30000	-
WCVA/Comic Relief Cronfa Argyfwng Covid 19 (2021:57)	51525	-
Grant anabledd dysgu (2021:1)	700	-
	87225	12300

Ceir mwy o fanylion am y mudiadau a'r grantiau yn yr Adroddiad Blynyddol sydd i'w gael ar www.mantellgwynedd.com. Yn unol â'r polisi cyfrifo mae elfen o'r costau cefnogol yn cael ei ail ddosbarthu a'i gynnwys fel incwm.

Y swm perthnasol eleni oedd £5,000 (2020: £2,200)

3. **Staff**

	2021	2020
Cyfartaledd nifer y staff yn ystod y flwyddyn:-		
Cefnogi'r Trydydd Sector	15	18

	2021 £	2020 £
Cyfanswm Cyflogau	281991	335317
Yswiriant Gwladol	20363	26089
Pensiwn Budd - 4 aelod o staff (2020: 5)	33002	39407
Pensiwn Cyfraniad - 8 aelod o staff (2020 : 9)	15359	12874
	350715	413687

Ni enillodd yr un staff cyflog o £60,000 neu fwy'r flwyddyn (2020: dim). Yr oedd un tâl diswyddo o £1,431 yn y flwyddyn (2020: dim)

Talwyd £78,093 (2020: £76,003) i'r tîm rheoli yn unol â'r drefn pwyntiau sydd yn berthnasol i wasanaethau'r llywodraeth leol.

4. **Treth Corfforaeth**

Y mae'r elusen yn cael ei eithrio rhag talu treth gan fod yr incwm yn gysylltiedig a'i amcanion elusennol.

5. **Asedau Sefydlog Gweladwy**

	Eiddo Rhydd-ddaliad (Dolgellau)	Uned Symudol	MESMAC	Offer Cyffredinol a Biwro Gwirfoddolwyr	Offer Cyfrifiadurol	Cyfanswm
Cost	£	£	£	£	£	£
Ar 1.4.20 ac ar 31.3.21	125000	23691	408	36297	31177	216573
Dibrisio						
Ar 1.4.20	7500	22023	408	36203	31158	97292
Am y flwyddyn	1250	417	-	23	6	1696
Ar 31.3.21	8750	22440	408	36226	31164	98988
Gwerth yn y Llyfrau						
Ar 31.3.21	116250	1251	-	71	13	117585
Ar 31.3.20	117500	1668	-	94	19	119281

Defnyddir yr holl asedau i bwrpas elusennol.

6. **Dyledwyr** - Symiau'n ddyledus ymhen blwyddyn

	2021 £	2020 £
Dyledwyr masnachol	11788	53626

7. **Credydwyr** - Symiau'n daladwy ymhen blwyddyn

	2021 £	2020 £
Credydwyr Masnachol	8425	1241
Trethiant a nawdd chymdeithasol	5143	7000
Costau wedi cronni ac incwm gohiriedig	4000	5737
Credydwr Pensiwn	5327	5386
	22895	19364

8. **Trafodion gyda Phartïon Perthynol**

Mae'r cwmni yn cael ei reoli gan y Bwrdd a enwir ar dudalen 2. Ni dalwyd unrhyw gostau teithio i aelodau'r Bwrdd eleni (2020: £410 i 4 aelod). Ni chafodd yr Ymddiriedolwyr ffioedd am eu gwaith fel Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn (2020: £dim).

Trafodion gyda Phartïon Perthynol – parhad

Bu'r prif swyddog yn aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fel cynrychiolydd o'r trydydd sector am gyfnod o dair mlynedd. Ymddiswyddodd ar ddiwedd Chwefror 2019. Mae'r cwmni wedi derbyn cyllid ar gyfer dau gynllun gan y Bwrdd Iechyd eleni, sef Adeiladu Pontydd Cadarn/Hwylusydd Iechyd a Presgripsiwn Cymdeithasol (2020:3).

9. **Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd**

Mae'r cwmni yn rhan o gynllun Cyngor Gwynedd, sydd yn gynllun budd. Mae'r prisiad ystadegol yn cael ei wneud gan gyfrifydd proffesiynol. Cafodd y cynllun ei brisio diwethaf ar 31 Mawrth 2019 ond mae diweddariad yn cael ei wneud ar bob pen blwyddyn yn unol â FRS 102. Mae costau'r pensiwn am y cyfnod wedi ei ddangos isod.

Paratowyd adroddiad at bwrpas y cyfrifon yma gan Hymans Robertson:-

Symudiad yn Asedau, Rhwymedigaethau a Diffyg y Cynllun Pensiwn Budd

	Asesau £000	Rhwymedigaethau £000	Diffyg £000
d/y ar 1.4.20	1914	(1976)	(62)
Cost yn y Datganiad o Symudiadau Ariannol			
Cost gwasanaeth cyfredol	-	(44)	
Llôg ar asedau'r cynllun	44	-	
Llôg ar rwymedigaethau'r cynllun	-	(46)	
	44	(90)	(46)
Llif Arian			
Cyfraniadau'r aelodau	8	(8)	
Cyfraniadau'r cyflogwr	33	-	
Amcangyfrif o'r buddion dalwyd	(14)	14	
	27	6	33
Colledion/Enillion Cydnabyddedig			
Newid yn y rhagdybiaethau ariannol	-	(623)	
Newid yn y rhagdybiaethau demograffig	-	(36)	
Profiadau eraill	-	19	
Ad-ennill ar asedau ac eithrio'r swm wedi ei gynnwys fel llôg	518	-	
	518	(640)	(122)
c/y ar 31.3.21	2503	(2700)	(197)

9. **Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd - parhad**

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

	31 Mawrth 2021 £000	31 Mawrth 2020 £000
Ecwiti	1827	1436
Eiddo	200	191
Arian	476	287
	2503	1914

Asedau Pensiwn Net

	31 Mawrth 2021 £000	31 Mawrth 2020 £000
Asedau'r Cynllun	2503	1914
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(2700)	(1976)
Diffyg Pensiwn Net	(197)	(62)

Symudiad yn y Diffyg am y flwyddyn:-	31 Mawrth 2021 £	31 Mawrth 2020 £
Diffyg d/y	(62000)	(405000)
Cost gwasanaeth cyfredol	(44000)	(69000)
Cost gwasanaeth hanesyddol	-	(2000)
Cyfraniad y cyflogwr	33002	39407
Enillion net ar asedau	(2002)	(10407)
(Colledion)/enillion actiwaraidd	(122000)	385000
Diffyg c/y	(197000)	(62000)

Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2022 wedi'u hamcangyfrif i fod yn £33,000. Amcangyfrifir y gôst am y flwyddyn yn £66,000. Roedd y raddfa adennill ar y gronfa yn 29.2% yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021. Mae gwerth teg asedau'r cyflogwr yn llai na 1% o'r gronfa.

Rhagdybiaethau ariannol	31 Mawrth 2021 (% y flwyddyn)	31 Mawrth 2020 (% y flwyddyn)
Codiad Pensiwn	2.8	1.8
Codiad Cyflog	3.1	2.1
Cyfran Disgownt	2.05	2.3

Dadansoddiad sensitifrwydd

Newid yn y rhagdybiaethau ar 31 Mawrth 2021	Amcan o'r newid yn y rhwymedigaeth	Amcan £000
Lleihad o 0.5% yn y gyfran disgownt	11%	306
Cynnydd o 0.5% yn y codiad cyflog	1%	34
Cynnydd o 0.5% yn y codiad pensiwn	10%	266

10. **Datganiad o Asedau Net Rhwng Cronfeydd**

Ar 31.3.21

	Cronfa Anghyfyngedig	Cronfa Cyfyngedig	Cyfanswm
	£	£	£
Asedau Sefydlog	117585	-	117585
Asedau Cyfredol	698884	46902	745786
Credydwyr	(219895)	-	(219895)
	596574	46902	643476

Ar 31.3.20

	Cronfa Anghyfyngedig	Cronfa Cyfyngedig	Cyfanswm
	£	£	£
Asedau Sefydlog	119281	-	119281
Asedau Cyfredol	477642	77786	555428
Credydwyr	(81364)	-	(81364)
	515559	77786	593345

11. **Datganiad o'r Cronfeydd ar 31 Mawrth 2021**

Cronfeydd Cyfyngedig

	Balans ar 1.4.20 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwydd-iadau £	Balans ar 31.3.21 £
1. Cynllun Grantiau - amrywiol	2592	84492	(58225)	-	28859
2. Adeiladu Pontydd Cadarn/ Hwylusydd Iechyd	-	40269	(34788)	-	5481
3. Canolfan Gwirfoddoli/ Gwir-Vol	2002	-	-	-	2002
4. Uned Symudol	5158	-	(289)	-	4869
5. Presgripsiwn Cymdeithasol	2832	57000	(55618)	-	4214
6. Loteri Social Value Cymru	62458	-	(62745)	287	-
7. Gallaf I (I Can)	1267	-	(1267)	-	-
8. Datblygu Maesgeirchen	1477	25511	(25511)	-	1477
9. Cyngor Môn – Trawsnewid Plant	-	34000	(34000)	-	-
	77786	241272	(272443)	287	46902

	Balans ar 1.4.20 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwydd-iadau £	Colledion Actiwaraidd £	Balans ar 31.3.21 £
Cronfeydd Anghyfyngedig						
1. Cronfeydd Cyffredinol	490975	537480	(321178)	(287)	-	706990
2.Cronfeydd Penodol:-						
- Costau staff	2592	-	-	-	-	2592
- Costau proffesiynol	3000	-	-	-	-	3000
- Cyfrannu at gostau rhedeg 2018/19 a'r dyfodol	33318	-	-	-	-	33318
- Cyflogi swyddog am 6 mis	5674	-	-	-	-	5674
- Adnewyddu offer TG	10000	-	-	-	-	10000
- Cyflogi staff SR0l am flwyddyn	32000	-	-	-	-	32000
3.Cronfa Pensiwn (nodyn 9)	(62000)	-	(13000)	-	(122000)	(197000)
	515559	537480	(334178)	(287)	(122000)	596574

Mae Cyfarwyddwyr y cwmni yn dymuno tynnu sylw at y ffaith fod y gronfa bensiwn wedi dylanwadu ar y ffigyrau ariannol terfynol. Maent yn awyddus i nodi fod sefyllfa Cronfa Bensiwn Gwynedd tu hwnt i reolaeth y cwmni.

11. Dadansoddiad o'r Cronfeydd ar 31 Mawrth 2020

Cronfeydd Cyfyngedig

	Balans ar 1.4.19 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwydd-iadau £	Balans ar 31.3.20 £
1. Cynllun Grantiau - amrywiol	442	16650	(14500)	-	2592
2. Adeiladu Pontydd Cadarn/ Hwylusydd Iechyd	4605	39734	(44539)	200	-
3. Canolfan Gwirfoddoli/ Gwir-Vol	2002	-	-	-	2002
4. Uned Symudol	7062	-	(1904)	-	5158
5. Presgripsiwn Cymdeithasol	2567	57000	(56735)	-	2832
6. Loteri Social Value Cymru	60206	162662	(160410)	-	62458
7. Gallaf I (I Can)	10658	209470	(218861)	-	1267
8. Datblygu Maesgeirchen	-	25051	(23574)	-	1477
9. Ymwybyddiaeth Awtistiaeth	1044	-	(1044)	-	-
	88586	510567	(521567)	200	77786

Cronfeydd Anghyfyngedig

	Balans ar 1.4.19 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwydd-iadau £	Enillion Actiwaraidd £	Balans ar 31.3.20 £
1. Cronfeydd Cyffredinol	523350	337445	(327620)	(42200)	-	490975
2.Cronfeydd Penodol:-						
- Costau staff	2592	-	-	-	-	2592
- Costau proffesiynol	3000	-	-	-	-	3000
- Cyfrannu at gostau rhedeg 2018/19 a'r dyfodol	33318	-	-	-	-	33318
- Cyflogi swyddog am 6 mis	5674	-	-	-	-	5674
- Adnewyddu offer TG	-	-	-	10000	-	10000
- Cyflogi staff SR0l am flwyddyn		-	-	32000	-	32000
3.Cronfa Pensiwn (nodyn 9)	(405000)	-	(42000)	-	385000	(62000)
	162934	337445	(369620)	(200)	385000	515559

11. Datganiad o'r Cronfeydd - parhad

Mae'r gronfa gyfyngedig yn cynnwys incwm wedi ei dderbyn tuag at gynllun priodol lle mae'r arianwyr wedi rhoi amodau sut mae'r incwm i'w wario:-

1. Gwahanol gynlluniau grantiau i'r gymuned, yn cynnwys cymorth yn sgil Covid-19
2. Adeiladu Pontydd Cadarn - Hwylusydd Iechyd.
3. Cyllid craidd y Ganolfan Gwirfoddoli Gwynedd ynghyd a chynllun gwirfoddoli ymysg ieuenctid yng Nghwynedd.
4. Uned Symudol, ar gyfer mynd a gwybodaeth i gymunedau yng Ngwynedd a thu hwnt.
5. Cynllun peilot Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon
6. Cynllun mesur gwerth cymdeithasol mudiadau trydydd sector Gwynedd.
7. Cynllun Gallaf I (I Can) – cyfeirio cleifion heb anghenion clinigol am gefnogaeth
8. Cynllun i ddatblygu'r gymdeithas yn ardal Maesgeirchen.
9. Cynllun grantiau cymunedol i drawsnewid gwasanaeth plant a phobl ifanc.

Mae'r gronfa gyffredin yn cynnwys incwm gan arianwyr allanol tuag at brif weithgaredd y cwmni.

Mae'r cronfeydd penodol wedi eu clustnodi gan yr Ymddiriedolwyr tuag at y costau dyfodol canlynol:-

- costau diswyddo a salwch staff;
- costau proffesiynol.
- cyfrannu at gostau rhedeg 2018/19 a'r dyfodol.
- cyfrannu at gyflogi swyddog am 6 mis yn ystod 2015/16 gyda'r gweddill ar gael i'r dyfodol.
- cyfrannu tuag at y gost o adnewyddu offer technoleg gwybodaeth
- cyfrannu at y gost o gyflogi staff SROI am flwyddyn

12. Ymrwymiadau

Ar 31 Mawrth, 2021 roedd gan y cwmni ymrwymiadau yn ymwneud a thir ac adeiladau ac offer cyffredinol yn darfod :-

	Tir ac Adeiladau 2021 £	Offer Cyffredinol 2021 £	Tir ac Adeiladau 2020 £	Offer Cyffredinol 2020 £
Ymhen blwyddyn	31200	5866	31200	5909
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	124800	14501	124800	20120
Ar ôl pum mlynedd	39000	-	70200	-
	195000	20367	226200	26029